

Polisi Amaethyddol Cyffredin

Trawsgydymffurfio - 2017

Safonau dilysadwy ar gyfer categorreiddio tramgwyddau: Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) a Gofynion Rheoli Statudol (SMR) 2017.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru
© Hawlfraint y Goron 2015
ISBN Digidol
978-1-4734-5391-3

Cyflwyniad

Trawsgydymffurfio yw'r safonau sylfaenol y mae'n rhaid i bob ffermwr eu bodloni er mwyn cael taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, gan gynnwys y Taliad Sylfaenol a thaliadau o dan gynlluniau tir Datblygu Gwledig (e.e. Glastir) yng Nghymru. Mae'n gosod seiliau cadarn er mwyn i ffermwyr allu cynhyrchu bwyd o'r radd flaenaf ac mae'n fecanwaith pwysig hefyd i ddiogelu a gwarchod cefn gwlad Cymru.

Mae'r Safonau Dilysadwy yn y tablau canlynol yn disgrifio'n fanwl yr hyn y bydd disgwyl i ffermwr sy'n derbyn y Taliad Sylfaenol neu daliad o dan gynllun tir Datblygu Gwledig ei wneud. Dylech gynefino â'r safonau felly os ydych am hawlio'r taliadau hyn. Mae'r taflenni ffeithiau'n crynhoi'r safonau dilysadwy: www.llyw.cymru/ffermio

Os gwelir ichi dorri'r safonau, byddwn yn lleihau'ch taliad, yn gwrthod ei dalu ichi neu'n gofyn ichi ei dalu'n ôl. Fe welwch fwy o fanylion sut mae'r cosbau'n cael eu cyfrif yn: www.llyw.cymru/ffermio

Amcan:
Beth ydym yn gobeithio'i gyflawni trwy'r safon ?

SMR: Gofynion Rheoli Statudol: Mae'r UE eisoes yn gofyn am y rhanfwyaf o'r ymwrydiadau hyn. Mae nhw'n ymdrin ag iechyd yr amgylchedd, iechyd y cyhoedd, iechyd planhigion ac iechyd a lles anifeiliaid

SMR 1: Parthau Perygl Nitradau

Amcan y gofynion hyn yw lleihau'r achosion o lygru afonydd gan nitradau o ffermydd a'u rhwystro rhag digwydd eto. Byddan nhw'n berthnasol ichi os oes gennych dir mewn Parth Perygl Nitradau (NVZ).

Ar dir mewn NVZ, rhaid ichi gadw at Reoliadau Atal Llygredd Nitradau 2015.
Rhaid ichi gydymffurfio hefyd â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llwyredd) (Silwair, Slvri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 (SSAFO) mewn cysylltiad â gwneud silwair a storio silwair a slyri.
Astudiwch y mapiau i weld a ydy'ch fferm yn gwyddu os ydych chi fod yn ymuno â NVZ.
Gwelwch brif ofynion y Rheoliadau NVZ Cymru neu www.llyw.cymru/ffermio
Cofiwch: os ydych am roi ail organig i'w defnyddio i'w fferm, rhaid sgrinio. **Yn y gofyn hwn, mae 'N' yn golygu nitrogen.**

Cadw Cofnodion: Y cofnodion y bydd angen ichi eu cadw (am 5 mlynedd) i archilwyr eu gweld.
Pwysig: Nid yw pob un o'r safonau'n gofyn am gadw cofnodion

<http://apps.environment-agency.gov.uk/wiyby/141443.aspx>

y gofynion NVZ i'w gweld yng nghanllaw a gweithlyfr y ffermydd sydd ar gael yn swyddfeydd Llywodraeth Mae Canllawiau SSAFO i Ffermydd i'w cael yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ac yn www.llyw.cymru/ffermio

efallai y bydd angen gwneud cais i sgrinio'r prosiect o dan Reoliadau'r EIA (Tir heb ei Drin) 2001. Efallai y bydd angen gwneud cais i sgrinio'r prosiect o dan Reoliadau'r EIA (Tir heb ei Drin) 2001. Efallai y bydd angen gwneud cais i sgrinio'r prosiect o dan Reoliadau'r EIA (Tir heb ei Drin) 2001.

Golwg Gyffredinol: Beth sy'n rhaid ichi ei wneud. Mae'r blychau llwyd o dan bennawd pob SMR/GAEC yn disgrifio gwahannol rannau'r gofyn.

A1
A2

Cadw cofnodion
Rhaid ichi gadw'r cofnodion canlynol yn gyfoes am o leiaf 5 mlynedd a'u dangos pan ofynnir amdanynt ar gyfer eu harchwilio. (Gweler canllaw a'r gofynion hyn):
• arwynebedd eich daliad
• eich cyfrifiadau i ddangos faint o le sydd gennych i storio tail erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn, pa dda byw rydych yn eu cadw ar eich daliad, eu nifer, a faint o amser maen nhw wedi'i dreulio ar y fferm erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn, cyfrifiadau i ddangos faint o nitrogen y gwnaeth yr anifeiliaid penodedig ar eich daliad ei gynhyrchu yn ystod y flwyddyn galendr blaenorol
• manylion y tail anifeiliaid sy'n cael ei symud i'r fferm a'i gario ohoni gan gynnwys faint, dyddiadau a manylion y derbyniwr; dyddiadau pan gafodd caeau eu defnyddio dros dro i storio tail dofodol a thail sych a'u lleoliad
• eich cynllun gwrtaith nitrogen ar gyfer pob cnwd ar bob cae, gan ddangos cyflenwad y nitrogen yn y pridd, y mis pan fyddwch yn plannu'r cnwd, faint o nitrogen sydd ei angen ar y cnwd; a faint o nitrogen ddaw o bob gwasgariad o dail organig a faint o wrtaith nitrogen artiffisial sydd ei angen
• cofnodion caeau ynghylch cynhyrchiant tir â'r rheoli tir pori os ydych am wasgaru gwrtaith nitrogen, cofnodion caeau sy'n nodi dyddiadau plannu'ch cnwd a chopi o'r cyngor a roddwyd gan gynghorydd sydd â chymhwyster y Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr Gwrtaithio (FACTS)
• cofnodion ynghylch y gwrtaith nitrogen artiffisial a thail organig sydd wedi'u gwasgaru, gan gynnwys dyddiadau, faint a mathau. Nid oes angen i ffermydd glaswelltir dwysedd isel gadw'r cofnodion hyn
• os ydych yn wasgaru tail organig, map risgiau o'r daliad;
• erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn, ar gyfer daliadau â da byw, cofnodwch ar gyfer y cyfnod storio blaenorol, nifer y da byw sydd mewn adeilad neu ar arwyneb caled a'u nifer, yn ystod y cyfnod storio.

Y codau hyn yw'r rhai a ddefnyddir gan Taliadau Gwledig Cymru

Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
Cofnodion anghyflawn neu ar goll e.e. cyfrifiadau storio tail, cynllun gwrtaith, cofnodion caeau, cofnodion da byw gan gynnwys eu cynhyrchiant N, arwynebedd y fferm, map risgiau, mewnforio/allforio tail, storffeydd tail ar gaeau	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Isel iawn: (gwallau neu hepgoriadau mân, ond asesiad llawn yn bosibl. Isel: gwallau neu hepgoriadau mân neu'r cofnodion ddim yn gyfoes, ond asesiad llawn bron yn bosibl. Canolig: gwallau neu hepgoriadau cymhedrol – dim ond asesiad rhannol yn bosibl Uchel: Cyfrifiad y storfa neu'r Map Risgiau yn anghyflawn neu'n eisiau neu heb gadw cofnodion am y cyfnod gofynnol neu heb ddarparu cofnodion ar ôl cais i'w gweld.	Modd ei gywiro neu Barhaol

Methu â bodloni'r gofyn: Bydd yr archwilwyr yn chwilio am y problemau hyn ar eich fferm. Os nad ydych yn llwyddo i fodloni un o'r gofynion, byddwn yn lleihau'ch taliad, yn gofyn ichi ei dalu'n ôl neu'n gwrthod ei dalu.

Pa mor fawr: Yn dangos pa mor bell y mae effaith y tramgwydd i'w theimlo. A yw'n effeithio tu hwnt i ffiniau'r fferm?

Difrifoldeb: Pa mor bwysig yw'r effeithiau, gan ystyried amcanion y safon?

Pa mor barhaol: Am ba hyd y bydd yr effeithiau'n para? Ai mater rhesymol byddai cael gwared arny'n nhw? Gall fod 'modd ei gywiro' neu fe all fod yn 'barhaol'

Dyddiadau pwysig

Ion	1	SMR 8: Stocrestr o'r holl ddefaid a geifr ar 1 Ionawr.
	15	SMR 1: Cewch wasgaru gwrtaith nitrogen artiffisial ar bob pridd ar dir pori a thir âr ar ôl y dyddiad hwn os ydy'r amodau'n addas.
	31	SMR 1: Cewch wasgaru tail organig â chyfran uchel o nitrogen rhwydd ei gael (e.e. slyri, tail dofednod) ar bob pridd ar dir pori a thir âr ar ôl y dyddiad hwn os ydy'r amodau'n addas a'ch bod yn cadw at y cyfyngiadau o ran faint o dail y caniateir ichi ei wasgaru.
Maw	1	GAEC 7: Peidiwch â thorri perth (gwrych) na choeden ar ôl y dyddiad hwn, ond fe gewch fondocio neu blygu perth ym mis Mawrth cyn belled nad ydych yn tarfu ar adar sy'n nythu. SMR 1: Diwedd y cyfnod pum mis ar gyfer storio slyri da byw (heblaw slyri moch a dofednod). GAEC 4: Tan y dyddiad hwn, rhaid cynnal y lefel ofynnol o orchudd ar y pridd ar ôl y cynhaeaf.
	15	GAEC 6: Peidiwch â llosgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin na vaccinium ar dir, heblaw ar yr ucheldir, o'r dyddiad hwn.
	31	GAEC 6: Peidiwch â llosgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin na vaccinium ar unrhyw dir, ac eithrio ucheldir, ar ôl y dyddiad hwn. GAEC 7: Peidiwch â phlygu na bondocio perth (gwrych) ar ôl y dyddiad hwn oni bai'ch bod wedi cael caniatâd Llywodraeth Cymru at ddibenion hyfforddi neu addysg.
Ebr	1	SMR 1: Diwedd y cyfnod chwe mis ar gyfer storio slyri moch a dofednod.
	30	SMR 1: Byddwch wedi cofnodi nifer y da byw oedd gennych ar eich fferm, a'u math, a'r amser y bu gennych anifeiliaid ar eich fferm yn y flwyddyn galendr ddiwethaf. Byddwch wedi cyfrif hefyd faint o nitrogen a gynhyrchwyd ganddynt yn y flwyddyn galendr ddiwethaf erbyn y dyddiad hwn. Rhaid cofnodi hefyd nifer a math y da byw a fu mewn adeilad neu ar arwyneb galed yn ystod y cyfnod storio diwethaf.
Aws	1	SMR 1: Dechrau'r cyfnod gwahardd gwasgaru tail organig â chyfran uchel o nitrogen rhwydd ei gael ar bridd bas neu dywodlyd ar dir âr (caniateir ichi ei wasgaru rhwng 1 Awst a 15 Medi os caiff y cnwd ei hau ar neu cyn 15 Medi). GAEC 7: Ar dir âr lle bo'r drefn ffermio arferol yn gofyn am blannu cnwd âr gaeaf cyn 31 Awst, cewch docio perthi (gwrychoedd) a choed o'r dyddiad hwn cyn belled nad ydych yn tarfu ar adar sy'n nythu.
	31	GAEC 7: Cewch docio perthi (gwrychoedd) a choed ar ôl y dyddiad hwn.

Medi	1	SMR 1: Dechrau'r cyfnod gwahardd gwasgaru tail organig â chyfran uchel o nitrogen rhwydd ei gael ar bridd bras neu dywodlyd ar dir pori. SMR 1: Dechrau'r cyfnod gwahardd gwasgaru gwrrtaith nitrogen artiffisial ar dir âr.
	15	SMR 1: Dechrau'r cyfnod gwahardd gwasgaru gwrrtaith nitrogen artiffisial ar dir pori.
Hyd	1	SMR 1: Dechrau'r cyfnod gwahardd gwasgaru tail organig â chyfran uchel o nitrogen rhwydd ei gael ar bridd ar dir âr nad yw'n fras nac yn dywodlyd. SMR 1: Dechrau'r cyfnod 6 mis ar gyfer storio slyri moch a dofednod a da byw eraill. GAEC 6: Cewch losgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin a vaccinium ar yr ucheldir o'r dyddiad hwn.
	15	SMR 1: Dechrau'r cyfnod gwahardd gwasgaru tail organig â chyfran uchel o nitrogen rhwydd ei gael ar bridd ar dir pori nad yw'n fras nac yn dywodlyd.
Tach	1	GAEC 6: Cewch losgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin a vaccinium ar bob math o dir o'r dyddiad hwn.
Rhag	31	SMR 1: Cewch wasgaru tail organig â chyfran uchel o nitrogen rhwydd ei gael ar bridd bas a thywodlyd ar dir pori a thir âr o'r dyddiad hwn.

CYNNWYS

Gofynion Rheoli Statudol (SMR)

SMR 1: Parthau Perygl Nitradau

SMR 2: Adar gwyllt

SMR 3: Gwarchod Fflora a Ffawna (Bioamrywiaeth)

SMR 4: Bwyd a chyfraith bwyd

SMR 5: Cyfyngiadau ar ddefnyddio betaweithyddion a sylweddau sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig ar anifeiliaid fferm

SMR 6: Adnabod a Chofrestru Moch

SMR 7: Adnabod a chofrestru gwartheg

SMR 8: Adnabod Defaid a Geifr

SMR 9: Clefydau Anifeiliaid - Atal a rheoli Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy – TS

SMR 10: Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion

SMR 11: Lles Anifeiliaid - lloi

SMR 12: Lles Anifeiliaid - moch

SMR 13: Lles Anifeiliaid (Cyffredinol)

Safonau dilysadwy ar gyfer categorïddio tramgwyddau: Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC)

GAEC 1: Dŵr - Sefydlu Lleiniau Clustogi

GAEC 2: Dŵr – Defnyddio Dŵr i Ddyfrhau'r Tir

GAEC 3: Dŵr - Dŵr Daear

GAEC 4: Pridd a Stoc Garbon – sicrhau lefel ofynnol o orchudd ar y pridd

GAEC 5: Pridd a Stoc Garbon – Cyfyngu ar waith trin tir i ddiogelu pridd rhag erydiad

GAEC 6: Pridd a Deunydd Organig – Eu Diogelu

GAEC 7: Cadw Nodweddion y Tirlun

SMR 1: Parthau Perygl Nitradau

Amcan y gofynion hyn yw lleihau'r achosion o lygru afonydd gan nitradau o ffermydd a'u rhwystro rhag digwydd eto. Byddan nhw'n berthnasol ichi os oes gennych dir mewn Parth Perygl Nitradau (NVZ).

Ar dir mewn NVZ, rhaid ichi gadw at Reoliadau Atal Llygredd Nitradau 2016.

Rhaid ichi gydymffurfio hefyd â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 (SSAFO) mewn cysylltiad â gwneud silwair a storio silwair a slyri.

Astudiwch y mapiau i weld a ydy'ch fferm chi mewn NVZ. Mae'r mapiau hyn i'w gweld yn <http://maps.environment-agency.gov.uk>

Gwelwch brif ofynion y Rheoliadau NVZ a Rheoliadau SSAFO isod. Mae manylion llawn y gofynion NVZ i'w gweld yng nghanllaw a gweithlyfr y ffermwyr sydd ar gael yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru neu www.llyw.cymru/ffermio neu drwy ffonio llinell NVZ ADAS ar 01974 84700. Mae Canllawiau SSAFO i Ffermwyr i'w cael yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ac yn www.llyw.cymru/ffermio

Cofiwch: os ydych am roi tail organig neu wrtaith N ar dir heb ei drin neu dir lled-naturiol, efallai y bydd angen gwneud cais i sgrinio'r prosiect o dan Reoliadau'r EIA (Tir heb ei Drin) 2001. Efallai y bydd angen ichi ofyn i Lywodraeth Cymru am benderfyniad sgrinio. **Yn y gofyn hwn, mae 'N' yn golygu nitrogen.**

A1	Cadw cofnodion
A2	<p>Rhaid ichi gadw'r cofnodion canlynol yn gyfoes am o leiaf 5 mlynedd a'u dangos pan ofynnir amdanynt ar gyfer eu harchwilio. (Gweler canllaw a gweithlyfr yr NVZ i weld sut mae bodloni'r gofynion hyn):</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ arwynebedd eich daliad ▪ eich cyfrifiadau i ddangos faint o le sydd gennych i storio tail ▪ erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn, pa dda byw rydych yn eu cadw ar eich daliad, eu nifer, a faint o amser maen nhw wedi'i dreulio ar y fferm yn y flwyddyn galendr ddiwethaf ▪ erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn, cyfrifiadau i ddangos faint o nitrogen y gwnaeth yr anifeiliaid penodedig ar eich daliad ei gynhyrchu yn ystod y flwyddyn galendr flaenorol ▪ manylion y tail anifeiliaid sy'n cael ei symud i'r fferm a'i gario ohoni gan gynnwys faint, dyddiadau a manylion y derbyniwr; ▪ dyddiadau pan gafodd caeau eu defnyddio dros dro i storio tail dofednod a thail sych a'u lleoliad ▪ eich cynllun gwrtaith nitrogen ar gyfer pob cnwd ar bob cae, gan ddangos cyflenwad y nitrogen yn y pridd, y mis pan fyddwch yn plannu'r cnwd, faint o nitrogen sydd ei angen ar y cnwd; a faint o nitrogen ddaw o bob gwasgariad o dail organig a faint o wrtaith nitrogen artiffisial sydd ei angen ▪ cofnodion caeau ynghylch cynhyrchiant tir â'r rheoli tir pori ▪ os ydych am wasgaru gwrtaith nitrogen, cofnodion caeau sy'n nodi dyddiadau plannu'ch cnwd a chopi o'r cyngor a roddwyd gan gynghorydd sydd â chymhwyster y Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr Gwrteithio (FACTS) ▪ cofnodion ynghylch y gwrtaith nitrogen artiffisial a thail organig sydd wedi'u gwasgaru, gan gynnwys dyddiadau, faint a mathau. Nid oes angen i ffermydd glaswelltir dwysedd isel gadw'r cofnodion hyn ▪ os ydych yn gwasgaru tail organig, map risgiau o'r daliad; ▪ erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn, ar gyfer daliadau â da byw, cofnodwch ar gyfer y cyfnod storio blaenorol, nifer y da byw sydd mewn adeilad neu ar arwyneb caled a'u nifer, yn ystod y cyfnod storio.

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Cofnodion anghyflawn neu ar goll e.e. cyfrifiadau storio tail, cynllun gwrtaiith, cofnodion caeau, cofnodion da byw gan gynnwys eu cynhyrchiant N, arwynebedd y fferm, map risgiau, mewnforio/allforio tail, storfeydd tail ar gaeau	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	IseI iawn: (gwallau neu hepgoriadau mân, ond asesiad llawn yn bosibl. IseI: gwallau neu hepgoriadau mân neu'r cofnodion ddim yn gyfoes, ond asesiad llawn bron yn bosibl. Canolig: gwallau neu hepgoriadau cymhedrol – dim ond asesiad rhannol yn bosib Uchel: Cyfrifiad y storfa neu'r Map Risgiau yn anghyflawn neu'n eisiau neu heb gadw cofnodion am y cyfnod gofynnol neu heb ddarparu cofnodion ar ôl cais i'w gweld.	Modd ei gywiro neu Barhaol
A3	Ar gyfer pob math o gnwd, gofawch nad yw cyfradd gwasgaru nitrogen y daliad (gwrtaiith nitrogen artiffisial ynghyd â'r nitrogen sydd ar gael i'r cnwd o dail organig) ar gyfartaledd yn fwy na therfyn nitrogen y cnwd hwnnw (sef yr uchafswm sydd ei angen ar y cnwd). (Gweler canllaw a gweithlyfr yr NVZ i weld sut mae bodloni'r gofynion hyn):			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mwy o wrtaiith Nitrogen wedi'i roi na therfyn Nitrogen y cnwd hwnnw.	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig: <u>Hyd at a chan gynnwys 5% yn fwy na'r terfyn N.</u> Uchel: Mwy na 5% yn fwy na'r terfyn N	Modd ei gywiro Canolig yn unig neu Barhaol

A4	<p>Terfyn ar y tail organig mewn cae - Peidiwch â rhoi mwy na 250kg o N yr hectar o dail organig (heb gynnwys y tail a adewir gan anifeiliaid pori) fesul cae mewn cyfnod o 12 mis, onibai:</p> <p>eich bod yn defnyddio compost ardystiedig BSI PAS 100 yn unig, nad yw'n cynnwys unrhyw dail da byw. Os felly, rhaid i gyfanswm y nitrogen mewn tail organig ar bob hectar fod yn llai na:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ 1000 kg mewn unrhyw gyfnod o bedair blynedd os yw'n cael ei roi fel mwltsh ar dir perllan; neu ▪ 500 kg mewn unrhyw gyfnod o ddwy flynedd os yw'n cael ei roi ar unrhyw dir arall, fel mwltsh neu'n cael ei droi i mewn i'r tir. 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mwy na'r terfyn fesul cae o dail organig wedi'i roi	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: hyd at a chan gynnwys 10% yn fwy na'r terfyn fesul cae yn cael ei roi ar <u>unrhyw gae</u> yn y daliad sy'n cael ei archwilio. Uchel: mwy na 10% yn fwy na'r terfyn fesul cae yn cael ei roi ar <u>unrhyw gae</u> yn y daliad sy'n cael ei archwilio.	Modd ei gywiro isel yn unig neu Barhaol
A5	<p>Terfyn llwytho nitrogen o dail da byw y fferm Peidiwch â rhoi mwy na 170kg cyfanswm nitrogen yr hectar o dail da byw ar dir eich daliad (gan gynnwys tail yr anifeiliaid sy'n pori'r tir ac unrhyw dail anifeiliaid rydych yn ei gario i'r tir) bob blwyddyn galendr dros arwynebedd eich daliad (oni bai'ch bod wedi cael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru).</p>			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mwy na'r terfyn o lwyth nitrogen o dail da byw wedi'i roi ar eich tir. Pwysig: Y terfyn yw 250kg cyfanswm nitrogen yr hectar os ydy'r ffermwr wedi cael llacio'r rheol ar laswelltir	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: hyd at a chan gynnwys 5% yn fwy na'r terfyn Uchel: mwy na 5% yn fwy na'r terfyn	Modd ei gywiro isel yn unig neu Barhaol

A6	Rhaid ichi roi gwartaith nitrogen mor gywir â phosibl			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Gwartaith nitrogen (artiffisial ac organig) heb ei wasgaru mor gywir â phosibl	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig: tystiolaeth bod gwartaith artiffisial neu dail organig sych neu led-sych wedi'i wasgaru heb gywirdeb Canolig: tystiolaeth bod tail organig gwlyb wedi'i wasgaru heb gywirdeb; tystiolaeth bod gwartaith nitrogen wedi mynd i ddŵr wyneb	Modd ei gywiro neu Barhaol
A7	Rhaid defnyddio offer gwasgaru isel (lai na 4 metr o'r llawr) neu dechneg arall fel gwasgaru band neu chwistrellu (oni bai'ch bod yn defnyddio offer sydd â chyfradd gwasgaru slyri cyfartalog o ddim mwy na 2 filimetr yr awr o'i ddefnyddio'n ddi-dor)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r slyri wedi'i wasgaru gan ddefnyddio offer uchel* (*heb gynnwys offer sydd â chyfradd gwasgaru cyfartalog o ddim mwy na 2mm/awr o'i ddefnyddio'n ddi-dor (e.e. offer dyfrhau jet pwls))	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Parhaol

A8	<p>Pan fyddwch yn rhoi tail organig ar bridd moel neu sofl, rhaid ei droi i mewn i'r pridd cyn gynted â phosibl, neu o fewn 24 awr fan hwyraf.</p> <p>Yn achos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tail ieir • slyri a slwtsh carthion hylif, oni bai ei fod yn cael ei wasgaru gan wasgarwr 'band' neu ei chwistrellu o dan wyneb y pridd; • unrhyw dail organig arall (heblaw tail organig sy'n cael ei wasgaru fel mwltsh ar bridd tywodlyd), ar dir sydd o fewn 50 metr i ddŵr wyneb ac sy'n goleddfu mewn ffordd a allai achosi i'r dŵr lifo dros y tir i'r dŵr hwnnw 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Tail organig yn cael ei roi ar wyneb pridd moel neu'r sofl, heb ei droi i mewn i'r pridd yn unol â'r rheolau.	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p>	Uchel	<p>Modd ei gywiro - tystiolaeth nad yw wedi'i olchi oddi ar y pridd lle cafodd y tail ei droi i'r pridd yn ystod yr ymweliad.</p> <p>Neu</p> <p>Barhaol</p>
A9	<p>Rhaid ichi ddarparu digon o le i storio'r slyri sy'n cael ei gynhyrchu ar eich daliad gan y da byw penodedig a'r holl dail dofednod a gynhyrchir tra'u bod yn cael eu cadw mewn iard neu adeilad yn ystod y cyfnodau storio canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ 1 Hydref i 1 Ebrill (chwe mis) ar gyfer moch a dofednod ▪ 1 Hydref i 1 Mawrth (pum mis) ar gyfer da byw eraill <p>Nid oes angen lle i storio slyri neu dail dofednod sy'n cael ei anfon o'r daliad yn ystod y cyfnod storio neu sy'n cael ei wasgaru ar dir lle nad oes fawr o berygl iddo lifo oddi ar y cae ar ôl diwedd y cyfnod gwaharddedig (cyn belled nad yw hyn yn mynd yn groes i reolau gwasgaru eraill – gweler canllaw a gweithlyfr yr NVZ). Os mai'r bwriad yw gwasgaru ar dir lle nad oes fawr o berygl iddo olchi oddi ar y cae, rhaid darparu cyfleusterau storio ar gyfer un wythnos ychwanegol o dail fel mesur wrth gefn.</p> <p>Darllenwch ganllaw a gweithlyfr yr NVZ am fwy o wybodaeth ynghylch y gofynion storio. Efallai y bydd eithriadau ar Barthau sydd newydd eu dynodi tan ddyddiad penodol. Yn y cyfamser, rhaid cadw at reolau storio SSAFO.</p>			

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid oes digon o le storio wedi'i ddarparu yn ystod y cyfnodau storio.	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro
A10	Rhaid ichi storio tail dofednod a mathau eraill o dail sych (gan gynnwys sarn/deunydd gwely sydd wedi'i lygru gan dail organig) naill ai: <ul style="list-style-type: none"> ▪ mewn llestr ▪ ar arwyneb anhydraidd ▪ mewn adeilad â tho iddo ▪ mewn tomen addas dros dro mewn cae, cyn belled ag y bo'r domen yn ddigon soled i sefyll ar ei phen ei hun, nad oes llif yn draenio'n rhydd o du mewn y domen, a bod yr arwynebedd mor fach ag sy'n ymarferol bosibl. 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r tail dofednod na'r tail sych arall wedi'i storio'n briodol: <ul style="list-style-type: none"> ▪ mewn llestr ▪ ar arwyneb anhydraidd ▪ mewn adeilad â tho iddo ▪ mewn tomen addas dros dro mewn cae 	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig: lle gwelir mân ddiffygion (problemau cynnal a chadw) sy'n effeithio ar ddiddosrwydd/defnyddioldeb y cyfleuster storio. Uchel	Modd ei gywiro Neu Barhaol
	Nid yw'r domen dros dro mewn cae yn ddigon solid i sefyll ar ei phen ei hun a/neu mae llif yn draenio'n rhydd o du mewn y domen.	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro: lle ceir tystiolaeth nad oes dŵr ffo Neu Barhaol

A11	Rhaid gorchuddio â deunydd diddos unrhyw dail dofednod sych nad oes ynddo sarn (deunydd gwely) ac sy'n cael ei storio ar safle dros dro mewn cae.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae tail dofednod amrwd yn cael ei storio ar safle dros dro mewn cae heb ei orchuddio â deunydd diddos	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro: lle ceir tystiolaeth nad oes dŵr ffo Neu Barhaol
B1	Cyfnod gwaharddedig ar gyfer tail organig Peidiwch â rhoi tail organig sydd â lefelau uchel o N sydd ar gael yn rhwydd ynddo (e.e. slyri, tail ieir) yn y cyfnodau gwaharddedig canlynol (oni bai'ch bod yn ffermwr organig cofrestredig): 1 Medi – 31 Rhagfyr ar dir pori â phridd tywodlyd neu fâs 15 Hydref – 31 Ionawr ar dir pori ar bob math arall o bridd 1 Awst – 31 Rhagfyr ar dir â'r â phridd tywodlyd neu fâs (caniateir ei wasgaru rhwng 1 Awst a 15 Medi cyn belled â bod cnwd yn cael ei hau ar neu cyn 15 Medi) 1 Hydref – 31 Ionawr ar dir â'r ar bob math arall o bridd			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Wedi torri'r cyfnod gwaharddedig ar gyfer rhoi tail organig ag N ar gael yn rhwydd ynddo	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Parhaol

B2	<p>Cyfnod gwaharddedig ar gyfer gwrrtaith artiffisial</p> <p>Peidiwch â rhoi gwrrtaith N artiffisial ar unrhyw bridd yn y cyfnodau canlynol (oni bai'ch bod wedi cael caniatâd)</p> <p>15 Medi – 15 Ionawr ar dir pori 1 Medi – 15 Ionawr ar dir âr</p>			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Wedi torri'r cyfnod gwaharddedig ar gyfer rhoi gwrrtaith artiffisial, heb brofi cyfiawnhad agronomig	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Parhaol
B3	<p>Peidiwch â rhoi mwy na 30m³/ha o slyri neu 8 tunnell/ha o dail ieir ar dir ar unrhyw adeg, o ddiwedd y cyfnod gwaharddedig uchod tan ddiwrnod olaf mis Chwefror, a rhaid ichi ei adael am o leiaf 3 wythnos cyn rhoi rhagor.</p>			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mynd yn groes i'r cyfyngiadau ar wasgaru ar ôl diwedd y cyfnod gwaharddedig.	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Parhaol

B4	<p>Peidiwch â gwasgaru gwrrtaith nitrogen heb gynnal archwiliad o'r cae i asesu'r perygl i'r nitrogen olchi i ddŵr wyneb. Peidiwch â gwasgaru gwrrtaith nitrogen os oes perygl arwyddocaol o hynny. Rhaid i'r archwiliad ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhediad y tir, yn enwedig os oes mwy na 12 gradd (1 mewn 5) o lethr; • draeniau (heblaw am bibellau diddos wedi'u selio); a • y llystyfiant, pa mor agos y mae'r dŵr daear, amodau'r tywydd a'r math o bridd. 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae gwrrtaith nitrogen wedi'i wasgaru mewn modd amhriodol. ee:</p> <p>a) ni wnaeth y ffermwr archwilio'r cae i asesu'r perygl o ddŵr ffo; neu</p> <p>b) cynhaliodd y ffermwr archwiliad a gweld bod perygl arwyddocaol o ddŵr ffo</p> <p>Pwysig: Amod rhagofalus yw hwn h.y. bydd y rheol wedi'i thorri hyd oes os na fydd achos o lygru.</p>	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p>	<p>Uchel</p>	<p>Parhaol</p>

B5	Peidiwch â gwasgaru gwartaith nitrogen os yw'r pridd yn llawn dŵr, dan ddŵr neu wedi'i rewi dros gyfnod o 12 awr neu fwy yn y 24 awr diwethaf neu o dan eira			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae gwartaith nitrogen wedi'i wasgaru pan oedd amodau'r pridd yn amhriodol e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ yn llawn dŵr, ▪ dan ddŵr ▪ wedi'i rewi dros gyfnod o 12 awr neu fwy yn y 24 awr diwethaf ▪ dan eira <p>Pwysig: Amod rhagofalus yw hwn h.y. bydd y rheol wedi'i thorri hyd oes os na fydd achos o lygru.</p>	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p>	Canolig	Parhaol
B6	Peidiwch â gwasgaru gwartaith nitrogen artiffisial o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae gwartaith nitrogen artiffisial wedi'i wasgaru o fewn 2 fetr i gwrs dŵr	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p>	Canolig	Parhaol

B7	Peidiwch â gwasgaru tail organig o fewn 10 metr i ddŵr wyneb, ac eithrio ar dir sy'n cael ei reoli ar gyfer adar rhydio sy'n magu neu fel glaswelltir lled-naturiol blodeuog neu o dan rai amodau eraill.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae tail organig wedi'i wasgaru o fewn 10 metr i ddŵr wyneb (6m ar dir lle bo offer gwasgaru manwl fel system chwistrellu, 'trailing shoe' neu far diferion wedi'u defnyddio) ar dir nad yw wedi cael ei eithrio neu mewn ffordd sy'n mynd yn groes i'r cyfyngiadau</p> <p>Ceir eithriadau ar dir sy'n cael ei reoli ar gyfer adar rhydio sy'n magu neu ar laswelltir lled-naturiol blodeuog</p> <p>Rhestrir y cyfyngiadau yng Nghanllaw'r NVZ</p>	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p>	Canolig	Parhaol
B8	Peidiwch â gwasgaru tail organig o fewn 50 metr i bistyll, ffynnon neu dwll turio.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae tail organig wedi'i wasgaru o fewn 50 metr i bistyll, ffynnon neu dwll turio</p>	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p>	Canolig	Parhaol

B9	Peidiwch â gosod tomennydd dros dro mewn cae: <ul style="list-style-type: none"> ▪ o fewn 10 metr i ddŵr daear neu ddraen tir ▪ o fewn 50 metr i bistyll, ffynnon neu dwll turio ▪ o fewn 30 metr i gwrs dŵr ar dir ar lethr 12 gradd neu fwy ▪ ar dir fydd yn debygol o fynd yn llawn dŵr ▪ ar dir fydd yn debygol o fynd o dan ddŵr ▪ yn yr un man am fwy na 12 mis o'r bron ▪ yn yr un man â thomen cynharach a adeiladwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf ▪ lle bo'r uwchbridd wedi'i dynnu oddi yno. 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae tomen dros dro mewn cae wedi'i chodi mewn lle risg uchel.	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro: lle ceir tystiolaeth nad oes dŵr ffo Neu Barhaol
B10	Peidiwch â gwahanu'r slyri yn gyfran gwlyb ac yn gyfran sych oni bai'ch bod yn gwneud hyn yn fecanyddol neu ar wyneb anhydraidd, lle bo'r cyfran gwlyb yn llifo i gynhwysydd addas			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r slyri wedi cael ei wahanu'n anfecanyddol neu ar wyneb hydraiddd neu heb gynhwysydd addas	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro: lle na cheir tystiolaeth bod llygru wedi digwydd neu Barhaol

C

Gwneud silwair a storio silwair a slyri

- mae 'silwair' yn golygu sudd silwair, cnydau sy'n cael eu gwneud yn silwair, silwair sy'n cael ei wneud mewn clampiau, silwair mewn bagiau neu wedi'i lapio a silwair maes (tomennydd mewn cae neu silwair heb ei felio mewn bagiau e.e. Ag-Bags)
- mae 'slyri' yn golygu hylif neu ddeunydd lled-hylifol sydd wedi'i wneud o garthion da byw sy'n cael eu cadw mewn iard neu adeilad (gan gynnwys corlannau ag iddynt lawr o sglodion pren); neu gymysgedd sydd wedi'i wneud yn gyfan neu'n bennaf o garthion da byw, sarn (gwely) da byw, dŵr glaw a golchion o adeilad neu iard da byw; ac sy'n ddigon gwlyb i allu cael ei bwmpio neu ei yrru gan ddisgyrchiant unrhyw bryd yn ystod y broses o'i drafod
- mae 'gosodiad' yn golygu silo neu system storio slyri. Mae systemau storio slyri'n cynnwys: pydew, tanc neu lagŵn ac unrhyw bibellau neu sianeli cysylltiedig sy'n cael eu defnyddio i storio'r slyri, ond nid i gadw slyri tra'i fod yn cael ei storio dros dro mewn tancer sy'n cael ei ddefnyddio i gludo slyri ar ffyrdd neu o gwmpas y fferm. Mae'r Rheoliadau'n ymdrin â phob gosodiad sydd wedi cael ei ddefnyddio, ei adeiladu, ei ailadeiladu neu ei ehangu ers Medi 1991. Mae gosodiadau oedd yn cael eu defnyddio cyn hynny yn 'strwythurau eithriedig' (hynny yw, nid oes gofyn iddynt fodloni'r safonau o ran gwytnwch, capasiti nac adeiladu). Er hynny, dylent allu ateb y diben h.y. dylent fod o adeiladwaith cadarn ac wedi'u cynnal yn dda. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi hysbysiad ar strwythur eithriedig os teimla bod hynny'n briodol i leihau unrhyw risg arwyddocaol y gall lygru dyfroedd dan reolaeth.
- Mae 'silwair maes' yn golygu silwair sy'n cael ei wneud ar dir agored heb unrhyw fath o dwll neu lawr neu wal ar y safle. Mae silwair sy'n cael ei wneud a'i storio heb ei felio mewn bagiau mawr ar dir agored hefyd yn cael ei alw'n silwair maes. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i silwair sy'n cael ei wasgu'n fêls a'u lapio a'u selio mewn defnydd sy'n dal dŵr neu eu rhoi mewn bagiau sy'n dal dŵr.

Rhaid ichi

- roi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru trwy lythyr o leiaf 14 diwrnod cyn defnyddio'r gosodiad am y tro cynta os ydych yn ei adeiladu, yn ei ehangu'n sylweddol neu'n ei ailadeiladu'n sylweddol;
- rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru ble rydych am wneud silwair maes o leiaf 14 diwrnod cyn defnyddio'r safle hwnnw y tro cyntaf;
- gwneud yn siŵr bod y gosodiadau'n bodloni'r gofyn o ran capasiti (gweler A9), gwytnwch, cynnal a chadw a pharthau diogelwch a'u bod yn cael eu hadeiladu yn unol â'r safonau adeiladu perthnasol a'r rheolau ynghylch lleoli silwair maes (gweler y manylion ar Ganllawiau SSAFO i Ffermwyr);
- cydymffurfio â hysbysiadau Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gofyn am welliannau i'r gosodiad neu safle'r silwair maes os nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu eu bod yn addas;
- archwilio gosodiadau'n rheolaidd a'u trwsio'n brydlon pan fo gofyn (gweler manylion gwaith archwilio a thrwsio ym mharagraff 21 Canllaw SSAFO i Ffermwyr a'r Cod Arferion Amaethyddol Da i ffermwyr yng Nghymru).

C1	Rhaid rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru trwy lythyr o leiaf 14 diwrnod cyn defnyddio'r gosodiad am y tro cyntaf os ydych yn ei adeiladu, yn ei ehangu'n sylweddol neu'n ei ailadeiladu'n sylweddol.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Heb roi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru 14 diwrnod cyn defnyddio'r strwythur	Effaith ar y fferm	Isel	Modd ei gywiro: lle'ch bod wedi gohirio defnyddio'r gosodiad er mwyn i hysbysiad allu cael ei wneud neu Barhaol
C2	Rhaid rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru ble rydych am wneud silwair maes o leiaf 14 diwrnod cyn defnyddio'r safle y tro cyntaf.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Heb roi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru 14 diwrnod cyn defnyddio safle'r silwair maes am y tro cyntaf	Effaith ar y fferm	Isel	Modd ei gywiro: lle'ch bod wedi gohirio defnyddio'r gosodiad er mwyn i hysbysiad allu cael ei wneud Neu Barhaol
C3	Rhaid ichi wneud yn siŵr bod y gosodiadau'n bodloni'r gofynion o ran capasiti, gwytnwch, cynnal a chadw a pharthau diogelwch a'u bod yn cael eu hadeiladu yn unol â'r safonau adeiladu perthnasol a'r rheolau ar leoli silwair maes (darllenwch ganllaw a gweithlyfr yr NVZ ac A9 uchod am fanylion capasiti storffeydd slyri).			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Heb fodloni gofynion y gosodiad a/neu reolau'r safle ar y cae	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

C4	Rhaid cydymffurfio â hysbysiadau Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Reoliad 7 SSAFO ('Hysbysiad Rheoliad 7') sy'n gofyn am welliannau i'r gosodiad neu safle'r silwair maes. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi hysbysiadau os teimla nad yw gosodiad yn addas neu fod perygl o lygredd i ddyfroedd dan reolaeth. Bydd yr hysbysiadau hyn yn nodi'r gwaith, rhagofalon a chamau eraill y mae'n rhaid eu cymryd ac erbyn pryd.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Heb gydymffurfio â Hysbysiadau Cyfoeth Naturiol Cymru	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro: os nad oes arwydd o lygredd neu Barhaol
C5	Rhaid ichi archwilio gosodiadau (gan gynnwys darnau fel pibellau a falfiau) am arwyddion o rydu, difrod neu ollyngiadau a'u trwsio'n brydlon pan fo gofyn.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Heb gynnal archwiliadau a gwaith trwsio'n rheolaidd	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig: os na ellir gweld gollyngiadau Uchel: os gellir gweld gollyngiadau	Modd ei gywiro: os nad oes arwydd o lygredd neu Barhaol

SMR 2: Adar gwyllt

Amcan y gofynion hyn yw gwarchod adar gwyllt, eu hwyau a'u nythod. Maen nhw'n berthnasol i bob aderyn gwyllt. Mae yna reolau eraill i'w dilyn os oes gennych dir mewn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)

A1 Yn y gofyn hwn, mae 'WCA' yn golygu Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i diwygiwyd:

Ar eich daliad (p'un a yw mewn Ardal Gwarchod Arbennig neu beidio)

Rhaid ichi gadw at y rheolau canlynol:

- Oni bai'ch bod wedi cael trwydded o dan adran 16 WCA, peidiwch â lladd, anafu na chymryd aderyn gwyllt yn fwriadol
- Peidiwch â difrodi, dinistrio na chymryd nyth yn fwriadol sy'n cael ei ddefnyddio neu ei adeiladu (gwarchodir nythod yr eryr euraid, eryr y môr a gwalch y pysgod drwy'r flwyddyn)
- Peidiwch â chymryd na dinistrio wy aderyn gwyllt
- Peidiwch â tharfu'n fwriadol neu drwy esgeulustod ar rai mathau penodol o adar sydd ar eu nyth (na tharfu ar eu cywion dibynnol)
- Peidiwch â lladd na chymryd adar hela yn ystod tymor caeedig yr aderyn hwnnw nac ar unrhyw ddydd Sul nac ar ddydd Nadolig. Ni chewch chwaith prynu na gwerthu aderyn hela 10 niwrnod ar ôl diwedd tymor agored yr aderyn dan sylw.
- I gael gwybod a yw'ch tir mewn Ardal Gwarchodaeth Arbennig o dan y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt, holwch Cyfoeth Naturiol Cymru.

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Tramgwydd yn erbyn adran 1 WCA 1981</p> <p>Bwriadol Mae ffermwr wedi lladd, anafu neu gymryd aderyn gwyllt yn fwriadol</p> <p>Mae ffermwr, yn fwriadol, wedi difrodi, dinistrio neu gymryd nyth aderyn gwyllt sy'n cael ei ddefnyddio/adeiladu neu nyth eryr aur, eryr môr neu walch y pysgod unrhyw bryd</p> <p>Mae ffermwr wedi dinistrio wy aderyn gwyllt yn fwriadol</p> <p>Trwy Esgeulustod neu'n Fwriadol Mae ffermwr wedi tarfu ar adar/cywion Rhestr 1 ar eu nyth</p> <p>Mae'r ffermwr wedi lladd/cymryd aderyn heladwy yn ei dymor caeedig a/neu aderyn hela ar ddydd Sul neu ddydd Nadolig</p> <p>Ni fydd ffermwr wedi torri'r rheolau hyn os bydd ganddo drwydded gan awdurdod cymwys i gyflawni gweithred awdurdodedig neu os gall ddibynnu ar amddiffyniad neu eithriad cyfreithiol</p>	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p>	<p>Uchel</p>	<p>Parhaol</p>

Ar dir mewn Ardal Gwarchodaeth Arbenning (AGA)

B1	Rhaid rhoi gwybod trwy lythyr i Cyfoeth Naturiol Cymru am unrhyw fwriad i wneud, achosi neu ganiatáu gwaith penodedig neu waith sy'n destun gorchymyn cadwraeth natur arbennig (oni bai ei fod yn dod o dan amodau cytundeb, cynllun neu hysbysiad rheoli) a rhaid cael caniatâd cyn dechrau'r gwaith.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r ffermwr wedi gwneud, achosi neu ganiatáu gwaith penodedig heb hysbysiad na chaniatâd Ystyr 'gwaith penodedig' yw gwaith sydd wedi'i nodi fel gwaith a fydd yn debygol o niweidio nodwedd o ddiddordeb arbennig yn yr ardal	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: dim niwed wedi'i achosi Canolig: niwed mân wedi'i achosi Uchel: niwed mawr wedi'i achosi	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Mae'r ffermwr wedi gwneud, achosi neu ganiatáu gwaith penodedig ar dir lle mae gorchymyn gwarchod natur arbennig wedi'i roi, heb hysbysiad na chaniatâd	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: dim niwed wedi'i achosi Canolig: niwed mân wedi'i achosi Uchel: niwed mawr wedi'i achosi	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Mae'r ffermwr wedi gwneud, achosi neu ganiatáu gwaith ar y tir gyda hysbysiad/caniatâd ond heb gadw at amodau'r caniatâd	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: dim niwed wedi'i achosi Canolig: niwed mân wedi'i achosi Uchel: niwed mawr wedi'i achosi	Modd ei gywiro neu Barhaol

B2	Rhaid cadw at amodau pob hysbysiad rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac amodau unrhyw orchmynion adfer gan lys. Pwrpas yr hysbysiad neu'r gorchymyn adfer yw diogelu neu adfer nodwedd o ddiddordeb arbennig yn yr ardal neu adfer y tir i'w gyflwr blaenorol fel ag a nodir ar yr hysbysiad neu'r gorchymyn.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau hysbysiad rheoli sy'n ymdrin â nodweddion o ddiddordeb arbennig yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig. Rhoddir hysbysiad rheoli o dan adran 28K WCA 1981 (fel y'i diwygiwyd)	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig: lle bo ffermwr yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion Uchel: lle bo ffermwr heb gydymffurfio neu'n parhau i beidio â chydymffurfio	Modd ei gywiro
	Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau gorchymyn adfer sy'n ymdrin â nodweddion o ddiddordeb arbennig yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig. Rhoddir hysbysiad rheoli o dan adran 31 WCA 1981 neu Reoliad 26 o OS 1994/2716 (mewn cysylltiad â Gorchmynion Gwarchod Natur Arbennig)	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig: lle bo ffermwr yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion Uchel: lle bo ffermwr heb gydymffurfio neu'n parhau i beidio â chydymffurfio	Modd ei gywiro
B3	Peidiwch trwy fwriad neu esgeulustod, â difetha na difrodi nodweddion o ddiddordeb arbennig yr ardal na tharfau ar ffawna sy'n nodwedd o ddiddordeb arbennig. (Mae'r gofyn hwn yn gallu ymdrin hefyd â gwaith sy'n cael ei wneud y tu allan i'r Ardal Warchodaeth ei hun ond sy'n cael yr un effaith arni.)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r ffermwr wedi difrodi neu ddifetha'r nodwedd arbennig neu wedi amharu ar y ffawna (sy'n nodwedd arbennig o'r AGA)	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: mân-ddifrod yn unig wedi'i achosi Canolig: difrod canolig wedi'i achosi Uchel: difrod mawr wedi'i achosi	Modd ei gywiro neu Barhaol

SMR 3: Gwarchod Fflora a Ffawna (Bioamrywiaeth)

Amcan y gofynion hyn yw diogelu planhigion ac anifeiliaid. Rhaid i bawb gadw at y gofynion hyn. Bydd yn rhaid bodloni gofynion pellach os ydy'ch tir mewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).

Ar eich daliad, peidiwch â gwneud y canlynol (p'un a yw mewn Ardal Cadwraeth Arbennig neu beidio):
 Pigo, casglu, torri, dadwreiddio na difetha planhigyn gwyllt o rywogaeth sy'n cael ei gwarchod gan Ewrop. (Mae'r planhigion sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop wedi'u rhestru yn Atodlen 5 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 ('y Rheoliadau Cynefinoedd').

Yn yr SMR hwn, ystyr 'WCA' yw Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y'i diwygiwyd.

Os ydych am wybod a yw'ch tir mewn Ardal Cadwraeth Arbennig, holwch Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

A1	Peidiwch yn fwriadol â phigo, casglu, torri, dadwreiddio na difetha planhigyn gwyllt o rywogaeth sy'n cael ei gwarchod gan Ewrop.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Wedi pigo, casglu, torri, dadwreiddio neu ddifetha planhigion gwyllt o rywogaeth sy'n cael ei gwarchod gan Ewrop.</p> <p>(Troseddau Rhan 1 y Ddeddf, yr ymdrinnir â nhw gan yr heddlu sydd â'u meini prawf eu hunain (a rhai'r CPS). Os amheuir bod trosedd wedi'i chyflawni, dywedwch wrth yr heddlu.)</p>	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p>	<p>Canolig: lle cafwyd effaith gymedrol ar y rhywogaeth sy'n cael ei gwarchod</p> <p>Uchel: lle cafwyd effaith fawr ar y rhywogaeth sy'n cael ei gwarchod</p>	<p>Parhaol</p>

Ar dir mewn Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC)

B1	Ar dir mewn Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC): Rhaid rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru trwy lythyr am gynnig i gynnal, peri neu ganiatáu unrhyw waith penodol y mae angen gorchymyn gwarchod natur arbennig i'w gynnal (oni bai bod amodau cytundeb rheoli, cynllun neu hysbysiad yn ei ganiatáu) a chael caniatâd cyn dechrau'r gwaith.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r ffermwr wedi cynnal, peri neu ganiatáu gwaith penodol heb hysbysiad na chaniatâd Ystyr gwaith penodol yn yr achos hwn yw gwaith y nodwyd ei fod yn debygol o niweidio nodweddion yr ardal sydd o ddiddordeb arbennig	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: lle nad oes difrod wedi'i achosi Canolig: lle mae mân ddifrod wedi'i achosi Uchel: lle mae difrod mawr wedi'i achosi	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Mae'r ffermwr wedi cynnal, peri neu ganiatáu gwaith penodol ar dir lle mae gorchymyn gwarchod natur arbennig wedi'i roi, heb hysbysiad na chaniatâd	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: lle nad oes difrod wedi'i achosi Canolig: lle mae mân ddifrod wedi'i achosi Uchel: lle mae difrod mawr wedi'i achosi	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Mae'r ffermwr wedi cynnal, peri neu ganiatáu gwaith sydd â hysbysiad/caniatâd ar y tir ond heb gadw at amodau'r caniatâd	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: lle <u>na</u> d oes difrod wedi'i achosi Canolig: lle mae mân ddifrod wedi'i achosi Uchel: lle mae difrod mawr wedi'i achosi	Modd ei gywiro neu Barhaol

B2	Rhaid cadw at amodau pob hysbysiad rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac amodau unrhyw orchmynion adfer gan lys. Lle mai pwrpas yr hysbysiadau neu'r gorchmynion adfer yw gwarchod neu adfer nodweddion yr ardal sydd o ddiddordeb arbennig neu adfer y tir i'w gyflwr blaenorol yn ôl yr hyn a bennir			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau hysbysiad rheoli sy'n ymdrin â nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth. Rhoddir hysbysiad rheoli o dan adran 28K WCA 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy)	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig: lle bo ffermwr yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion Uchel: lle bo ffermwr heb gydymffurfio neu'n parhau i beidio â chydymffurfio	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau gorchymyn adfer sy'n ymdrin â nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth. Rhoddir gorchymyn adfer o dan adran 31 WCA 1981 neu Reoliad 29 OS2010/490 (mewn cysylltiad â Gorchmynion Gwarchod Natur Arbennig)	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig: lle bo ffermwr yn cydymffurfio'n rhannol â'r gofynion Uchel: lle bo ffermwr heb gydymffurfio neu'n parhau i beidio â chydymffurfio	Modd ei gywiro neu Barhaol
B3	Peidiwch trwy fwriad neu esgeulustod, â difetha neu ddifrodi nodweddion arbennig yr ardal nac amharu ar ffawna a warchodir sy'n nodwedd arbennig. (Mae'r gofyn hwn yn ymdrin â gwaith sy'n cael ei wneud y tu allan i'r Ardal Gadwraeth ei hun ond sy'n cael yr un effaith arni.)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r ffermwr wedi difrodi neu ddifetha'r nodwedd arbennig neu wedi amharu ar y ffawna (sy'n nodwedd arbennig o'r Ardal Gadwraeth)	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: lle mae mân ddifrod wedi'i achosi Canolig: lle mae difrod canolig wedi'i achosi Uchel: lle mae difrod mawr wedi'i achosi	Modd ei gywiro neu Barhaol

SMR 4: Bwyd a chyfraith bwyd

Amcan y gofynion hyn yw gwneud yn siwr bod bwyd ar gyfer pobl a'r porthiant ar gyfer anifeiliaid cynhyrchu bwyd yn cael eu cynhyrchu'n ddiogel.			
Diogelwch bwyd a phorthiant – eu tynnu yn ôl neu eu galw yn ôl			
A1	<p>Rhaid ichi beidio â:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Rhoi bwyd neu borthiant anniogel ar y farchnad ▪ Rhoi porthiant anniogel i anifeiliaid cynhyrchu bwyd <p>Pwysig: Os oes anifeiliaid wedi marw neu os oes cynhyrchion anifeiliaid wedi cael eu llygru, mae'n debygol y byddai lechyd Anifeiliaid neu Safonau Masnach am wybod ai'r porthiant laddodd yr anifeiliaid. Yn yr un modd, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn cyhoeddi Adroddiad Digwyddiadau Bwyd Anifeiliaid a chan ddibynnu ar ddifrifoldeb y mater, gallai alw'r cynnyrch yn ôl. Bydd y cynnyrch yn gadael llwybr y gellir ei ddilyn.</p>		
Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
<p>Mae tystiolaeth bod bwyd sy'n niweidiol i iechyd pobl neu nad yw'n ffit i'w fwyta a/neu sy'n niweidiol i iechyd (e.e. llwydni neu bla mewn grawn) wedi'i roi ar y farchnad neu ei fwydo i anifeiliaid.</p> <p>Mae tystiolaeth bod porthiant y bernir ei fod yn cael effaith andwyol ar iechyd pobl neu anifeiliaid wedi'i roi ar y farchnad.</p>	<p>Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm</p>	<p>Uchel</p>	<p>Modd ei gywiro neu Barhaol: os nad oes gan y cynhyrchydd system i olrhain y cynnyrch neu ei alw yn ôl ac nad yw wedi rhoi gwybod i'r awdurdodau perthnasol.</p>

	Mae tystiolaeth bod porthiant anniogel wedi'i fwydo i anifeiliaid cynhyrchu bwyd	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig: mae porthiant anniogel wedi'i fwydo i anifeiliaid cynhyrchu bwyd ac mae'r anifeiliaid wedi dioddef effeithiau andwyol mân Uchel: mae porthiant anniogel wedi'i fwydo i anifeiliaid cynhyrchu bwyd gan arwain at ladd anifeiliaid neu eu gwneud yn sâl, neu at lygru bwyd.	Modd ei gywiro : os nad yw'r porthiant wedi'i fwydo neu os oes modd ei alw'n ôl. Barhaol: ym mhob achos arall
A2	<p>Rhaid ichi</p> <ul style="list-style-type: none"> drefnu bod bwyd neu borthiant anniogel yn cael ei dynnu o'r farchnad os ydych yn credu'ch bod wedi'i gyflenwi a rhoi gwybod i'ch awdurdod lleol a'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) dinistrio porthiant anniogel oni bai bod yr awdurdod perthnasol yn dweud wrthy'ch i beidio. dweud wrth ddefnyddwyr y bwyd/porthiant pam eich bod yn ei dynnu o'r farchnad os yw wedi'u cyrraedd. trefnu bod y bwyd/porthiant anniogel yn cael ei alw'n ôl os nad oes ffordd arall o ddiogelu iechyd rhoi gwybod i'ch awdurdod lleol a'r FSA ar unwaith os gallai'r bwyd rydych wedi'i gyflenwi neu sydd yn eich meddiant neu yr ydych yn bwriadu ei werthu niweidio iechyd gan ddweud wrthynt beth ydych wedi'i wneud i ddiogelu'r defnyddiwr olaf. Os oes porthiant sy'n cynnwys mwy na'r lefel ragnodedig neu awdurdodedig o gynnyrch milfeddygol (porthiant meddyginiaethol) a/neu ychwanegion bwyd (coccidiostatau neu histomonostatau) neu borthiant sydd wedi'i lygru â chynnyrch o'r fath a allai fod yn niweidiol i iechyd, dylai'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol hefyd gael gwybod. 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Bu digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd ac nad yw'r ffermwr wedi hysbysu'r awdurdodau, ei alw'n ôl na'i dynnu yn ôl	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel: mae bwyd anniogel wedi'i gyflenwi gan effeithio'n andwyol ar y gadwyn fwyd (digwyddiad go iawn) – mae angen tystiolaeth. Wnaeth y ffermwr ddim galw'r bwyd yn ôl na rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol.	Parhaol

<p>Lle bu digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch porthiant, nid yw'r ffermwr wedi dilyn y prosesau priodol.</p> <p>“Prosesau priodol” – Mae tynnu porthiant yn ôl yn cynnwys cadw porthiant sydd heb ei ddefnyddio a pheidio â'i fwydo. Mae'n cynnwys hefyd cysylltu â chwsmeriaid sy'n derbyn porthiant anghymwys. Os oes porthiant yn cael ei alw neu ei gadw yn ôl, rhaid hysbysu'r awdurdod lleol (yr adran Safonau Masnach fel arfer) neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Arolygydd yr awdurdod lleol fel arfer fydd yn trefnu bod y porthiant yn cael ei ddinistrio ond cyn hynny fel arfer, byddai prawf wedi'i gynnal ar sampl ohono sy'n dangos bod lefel uwch na'r lefel statudol a ganiateir o lygryn yn bresennol ynddo. Gellir ei ddefnyddio at ddibenion derbyniol eraill cyn belled â'i fod yn cael ei gadw o'r gadwyn fwyd (e.e. diben diwydiannol). Os oes porthiant sy'n cynnwys mwy na'r lefel ragnodedig neu awdurdodedig o gynnyrch milfeddygol (porthiant meddyginiaethol) a/neu ychwanegion bwyd (coccidiostatau neu histomonostatau) neu borthiant sydd wedi'i lygru â chynnyrch o'r fath a allai fod yn niweidiol i iechyd, dylai'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol hefyd gael gwybod.</p>	<p>Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm</p> <p>(Gallai'r tramgwydd fod yn gysylltiedig â gorchymyn cenedlaethol i alw 'batch' yn ôl.</p> <p>Rhaid i ffermwr gadw cofnod o'r rheini y mae wedi cyflenwi porthiant iddynt ond nid oes disgwyl iddo gadw cofnod pwy sy'n ei gael wedi hynny)</p>	<p>Canolig: Os nad yw'r porthiant yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd anifeiliaid na defnyddwyr</p> <p>Uchel: Os ydy'r porthiant yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd anifeiliaid neu ddefnyddwyr</p>	<p>Modd ei gywiro: Os nad yw wedi'i ddefnyddio neu Parhaol: Os ydy'r porthiant wedi'i fwydo i anifeiliaid</p>
---	---	--	---

Olrhain				
A3	<p>Rhaid bod gennych systemau a threfniadau ar gyfer olrhain y pethau sy'n dod i'ch fferm:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ enw a chyfeiriad eich cyflenwr; ▪ y pethau sydd wedi'u cyflenwi ichi, a faint ▪ dyddiad derbyn y pethau hyn ▪ Rhaid bod gennych systemau a threfniadau ar gyfer olrhain y cynnyrch sy'n gadael eich fferm: ▪ enw a chyfeiriad y busnesau rydych yn eu cyflenwi ▪ natur y cynnyrch rydych wedi'u cyflenwi i'r busnesau hynny, a faint ohono ▪ y dyddiad pan adawodd y cynnyrch eich fferm ▪ Rhaid ichi gadw'r wybodaeth mewn fformat hawdd ei gael a'i darparu pan ofynnir amdani 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae gwybodaeth yn eisiau neu nid oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chadw</p> <p>Mae gwybodaeth yn cael ei chadw ond nid mewn ffordd systematig. Nid oes modd ei darparu o fewn amser rhesymol pan ofynnir amdani. Bydd y mentrau hyn yn cynnwys: Godro, Wyau, Da Byw gan gynnwys eidion, defaid, moch a dofednod (cynhyrchu cig) Ydau (cnydau y gellir eu combeinio) Garddwriaeth Tatws a gwreiddgnydau eraill.</p>	Effaith ar y fferm	<p>Isel: Y rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael ond mae'n anghyflawn</p> <p>Canolig: system wael neu anfoddhaol ar gyfer cadw'r wybodaeth. Ddim yn gallu bodloni gofynion yr archwiliad yn llawn.</p> <p>Uchel: dim system a dim gwybodaeth yn cael ei chadw, hynny ar ôl profi'r system olrhain a rhannu'r busnes yn fentrau gwahanol gan archwilio dau beth sy'n cael eu cyflenwi a dau beth sy'n gadael ar fenter cadw da byw a dau beth sy'n gadael ar fenter ydau / cnydau.</p>	<p>Modd ei gywiro neu Barhaol</p>

Bwyd a hylendid bwyd				
Pwysig: Nid yw Rheolau A4 – A9 yn ymwneud â'r symiau bychain o gynnyrch cynradd a werthir yn uniongyrchol gan y cynhyrchydd i'r defnyddiwr olaf (er enghraifft, gwerthiannau wrth glwyd y fferm) neu i siopau lleol sy'n gwerthu'r cynnyrch i'r defnyddiwr olaf.				
A4	Rhaid storio a thrafod gwastraff a sylweddau peryglus rhag iddynt lygru bwyd neu borthiant.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae tystiolaeth bod gwastraff neu sylwedd peryglus wedi'i gamddefnyddio neu ei gam-drin</p> <p>Mae gwastraff neu sylwedd peryglus wedi'i storio'n amhriodol</p> <p>Er nad yw hon yn rhestr gyflawn, gall gwastraff a sylwedd peryglus gynnwys: slyri, dŵr budr, dŵr ffo, sudd silwair, metel gwast, batrïau, dip defaid, cynnyrch amddiffyn planhigion a bioladdwyr, gwrtaiith, cynnyrch milfeddygol, cemegau, diesel, naddion metel</p>	<p>Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm (digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant)</p>	<p>Isel: Gwastraff neu sylweddau peryglus wedi'u camstorio neu eu camdraffod gan arwain at gynyddu'r perygl o lygru. Canolig: llygru difrifol yn sgil camddefnyddio neu gamdraffod gwastraff neu sylweddau peryglus. Mae'r cynnyrch yn dal i fod ar y fferm. Nid yw'n debygol o effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl. Uchel: achosion difrifol wedi arwain at glefydau sy'n cael eu cario gan fwyd, gan effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl. Nid yw'r ffermwr wedi ceisio rheoli na rhwystro'r tramgwydd.</p>	<p>Parhaol: dim ond os bu digwyddiad sydd wedi effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant y tu hwnt i ffiniau'r fferm, ac nad oes modd ei olrhain. Fel arall, yn gallu cael ei dynnu'n ôl. neu Modd ei gywiro: pob achos arall</p>

A5	Rhaid storio porthiant ar wahân i gemegion a chynhyrchion eraill sydd wedi'u gwahardd rhag eu defnyddio fel porthiant.		
A6	Rhaid trafod porthiant meddyginiaethol a heb feddyginiaeth ar wahân rhag i'r naill lygru'r llall a storio porthiant meddyginiaethol yn y fath fodd fel na ellir ei fwydo trwy gamgymeriad i anifeiliaid na ddylai ei fwyta.		
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb
	<p>Nid yw'r porthiant yn cael ei storio ar wahân neu mae'n cyffwrdd â chynnyrch gyda'r potensial i'w lygru.</p> <p>Nid yw'r porthiant meddyginiaethol wedi'i labelu'n glir ac nid yw'n cael ei storio ar wahân i'r porthiant heb feddyginiaeth. Nid oes rhwystr neu fagiau i'w gwahanu yn y storfa.</p> <p>Nid oes cyfleusterau ar wahân i drafod porthiant meddyginiaethol</p>	<p>Effaith ar y fferm: neu Effaith oddi ar y fferm digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant</p>	<p>Isel: Bwyd yn cael ei gamstorio a'i gam-drin er nad yw mewn cysylltiad â phorthiant meddyginiaethol na sylweddau peryglus eraill. Nid yw'r tramgwydd yn debygol o effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl Canolig: llygru difrifol yn sgil camdefnyddio neu gamstorio porthiant sydd wedi dod i gysylltiad â chemegion neu fod porthiant meddyginiaethol wedi llygru porthiant heb feddyginiaeth. Mae'r cynnyrch yn dal ar y fferm. Nid yw'n debygol o effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl. Uchel: achosion sydd wedi arwain at glefydau neu salwch sy'n cael eu cario mewn bwyd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl. Nid yw'r ffermwr wedi ceisio rheoli na rhwystro'r tramgwydd.</p>
			Pa mor barhaol
			<p>Parhaol: os bu digwyddiad sydd wedi effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant y tu hwnt i ffiniau'r fferm, ac nad oes modd ei olrhain. neu Modd ei gywiro: pob achos arall</p>

A7	Rhaid i'r porthiant rydych yn ei brynu neu yn ei ddefnyddio ar gyfer anifeiliaid cynhyrchu bwyd ddod o sefydliad sydd wedi'i gofrestru a/neu ei gymeradwyo gan eich awdurdod lleol. Yn achos porthiant meddyginiaethol neu borthiant sy'n cynnwys ychwanegion penodol, rhaid i'r rheini ddod o sefydliadau sydd wedi'u cymeradwyo gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Tystiolaeth bod y ffermwr yn prynu a/neu'n defnyddio porthiant o sefydliad sydd heb ei gofrestru/gymeradwyo.	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm: digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant	Isel: mae'r porthiant/porthiant meddyginiaethol/porthiant sy'n cynnwys ychwanegion yn dod o sefydliad sydd heb ei gofrestru/gymeradwyo yn unol ag 183/2005 ond nid yw'r porthiant wedi'i lygru ac nid oes perygl i iechyd pobl nac anifail. Uchel: mae'r porthiant/porthiant meddyginiaethol/porthiant sy'n cynnwys ychwanegion yn dod o sefydliad sydd heb ei gofrestru/gymeradwyo yn unol ag 183/2005 ac wedi arwain at glefyd sy'n cael ei gario mewn bwyd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl. Wedi'i gysylltu â marwolaeth/salwch anifail.	Parhaol: os bu digwyddiad sydd wedi effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant y tu hwnt i ffiniau'r fferm, ac nad oes modd ei olrhain. neu Modd ei gywiro

A8	Rhaid defnyddio ychwanegion, cynnyrch milfeddygol, cynnyrch amddiffyn planhigion a bioladdwyr yn gywir (os ydych yn eu defnyddio ar eich fferm) yn unol â'r ddôs, pwrpas a chyfarwyddiadau sydd ar y label neu'r presgripsiwn. Mae hyn yn cynnwys gofalu nad yw'r bwyd rydych yn ei gynhyrchu yn cynnwys gweddillion plaladdwyr na meddyginiaethau milfeddygol sy'n uwch na'r terfyn gweddillion uchaf a ganiateir ar gyfer y moddion a ddefnyddir.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Tystiolaeth bod ychwanegion, cynnyrch milfeddygol, cynnyrch amddiffyn planhigion neu fioladdwyr yn cael eu camddefnyddio.</p> <p><u>Er enghraifft:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ heb ei gymysgu neu ei storio'n iawn ▪ dim label ▪ wedi mynd heibio'r dyddiad 'defnyddiwch cyn' ▪ heb ei ddefnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau/ddôs sydd ar y label (daw'r dystiolaeth o'r cofnodion defnyddio) ▪ heb gadw at y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' (daw'r dystiolaeth o'r cofnodion milfeddygol) 	<p>Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm:</p> <p>digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant</p>	<p>Canolig: llygru difrifol yn sgil peidio â storio'r porthiant ar wahân neu yn sgil gorfwydo porthiant meddyginiaethol neu ei fwydo i'r rhywogaeth anghywir. Nid yw'n debygol o effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl.</p> <p>Uchel: achosion difrifol wedi arwain at effeithiau uniongyrchol ar iechyd pobl. Nid yw'r ffermwr wedi ceisio rheoli na rhwystro'r tramgwydd.</p>	<p>Parhaol</p>

	<p>Mae'r ffermwr wedi rhoi bwyd ar y farchnad ac ar ôl dadansoddi sampl ohono a chymryd ansicrwydd y mesur i ystyriaeth, gwelir bod gweddillion plaladdwyr sy'n uwch na'r lefel gweddillion uchaf a ganiateir ar gyfer plaladdwyr yn y bwyd a brofwyd.</p>	<p>Effaith oddi ar y fferm</p>	<p>Canolig:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Ceir cymeradwyaeth i ddefnyddio plaladdwr ar y cnwd, ond ceir mwy na'r terfyn gweddillion uchaf o'r plaladdwr hwnnw ar y cnwd. ▪ Nid oes pryderon o ran diogelwch nag iechyd o ganlyniad i fynd yn groes i'r terfyn gweddillion uchaf. <p>Uchel:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Nid oes awdurdod i ddefnyddio'r plaladdwr ar unrhyw gnwd ym Mhrydain. ▪ Nid oes awdurdod i ddefnyddio'r plaladdwr ar y cnwd dan sylw. ▪ Mae pryderon ynghylch diogelwch lefel gweddillion y plaladdwr a welwyd. 	<p>Parhaol</p>
--	--	---------------------------------------	---	-----------------------

	<p>Mae'r ffermwr wedi gwerthu neu gyflenwi anifail ar gyfer ei ladd neu wedi gwerthu / cyflenwi llaeth, wyau neu fêl ac ar ôl dadansoddi sampl, gwelir ei fod yn cynnwys mwy na'r terfyn gweddillion uchaf a ganiateir o feddyginiaeth filfeddygol sydd wedi'i gymeradwyo, neu sylwedd sydd heb ei gymeradwyo.</p>	<p>Effaith oddi ar y fferm</p>	<p>Canolig:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae'r moddion yn gynnyrch cymeradwy, ond ceir mwy na'r terfyn gweddillion uchaf a ganiateir o'r moddion hwnnw. ▪ Nid oes pryderon o ran diogelwch nag iechyd o ganlyniad i fynd yn groes i'r terfyn gweddillion uchaf. <p>Uchel:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Nid oes awdurdod i ddefnyddio'r moddion mewn anifeiliaid cynhyrchu bwyd yn y DU. ▪ Ceir pryderon o ran diogelwch neu iechyd oherwydd lefel gweddillion y moddion. 	<p>Parhaol</p>
--	--	---------------------------------------	--	-----------------------

A9	<p>Rhaid cadw cofnod o bob un o'r canlynol sy'n berthnasol i'ch busnes a'u dangos i'r archwilydd pan ofynnir amdanynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ cynnyrch milfeddygol neu driniaethau eraill sy'n cael eu rhoi i'ch anifeiliaid, gan gynnwys dyddiad y driniaeth a'r cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' ▪ cynnyrch amddiffyn planhigion a bioladdwyr ▪ canlyniad unrhyw brofion ar samplau o anifeiliaid cynhyrchu bwyd, planhigion, porthiant anifeiliaid neu samplau eraill at ddiben diagnostig sy'n bwysig o safbwynt iechyd pobl a'u cymryd i ystyriaeth ▪ adroddiadau perthnasol ar archwiliadau a wnaed ar anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid. ▪ hadau â'u geneteg wedi'u haddasu, sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu porthiant 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Dim cofnodion wedi'u cadw neu'r cofnodion yn anghyflawn a/neu heb gael eu dangos pan ofynnir amdanynt.</p> <p>Pwysig (a): Bydd arolygwyr yn debygol o gyfyngu'r archwiliad i un sy'n cadarnhau bod y cofnodion milfeddygol yn bod a'u bod yn weddol gyflawn</p> <p>(b) Enghraifft bosibl yw cofnod llaeth fyddai'n dangos pa anifeiliaid sydd â chyfrif celloedd somatig rhy uchel.</p> <p>(c) Enghraifft bosibl yw cofnodion TBC/SCC/gwrthfotig y prynwr</p> <p>Ar gyfer (b) & (c) mae'r arolygydd yn cadarnhau bod y ffermwr yn cadw'r canlyniadau gyda'i gofnodion; nid oes gofyn i'r arolygydd ddehongli'r canlyniadau.</p>	Effaith ar y fferm	<p>Isel: gwybodaeth ar goll neu gamgymeriadau. Mae modd eu cywiro ac mae modd cynnal asesiad llawn.</p> <p>Canolig: cofnodion rhannol/anghyflawn. Digon o wybodaeth i ganiatáu asesiad rhannol.</p> <p>Uchel: dim cofnodion</p>	<p>Modd ei gywiro: os oes modd cywiro'r cofnodion gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar y fferm adeg yr archwiliad neu</p> <p>Barhaol: os nad oes cofnodion neu os nad oes modd cywiro'r cofnodion</p>
	<p>Mae canlyniadau'r dadansoddiad yn dangos bod perygl posibl i iechyd pobl ac nad yw'r ffermwr wedi cymryd camau i atal y perygl.</p>	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	<p>Canolig: yn annhebygol o gael effaith andwyol ar iechyd pobl</p> <p>Uchel: yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd pobl</p>	Parhaol

A10	<p>Rhaid cymryd mesurau digonol rhag cyflwyno a lledaenu clefydau heintus i bobl trwy fwyd</p> <p>Rhaid ichi:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ sicrhau'ch bod yr holl anifeiliaid cymwys yn cydymffurfio â mesurau cadw golwg a bwlch profion TB y fuches genedlaethol ▪ cynnal profion cyn symud statudol ar eich anifeiliaid – 60 diwrnod cyn eu symud (Sylwer: nid yw'r profion cyn symud yn ofyn ym mhob plwyf/buches; rhaid i ffermwyr gadw siart profion TB52 am 60 diwrnod + 3 blynedd) ▪ cadw at fesurau gofalus pan ddaw anifeiliaid i'r fferm (e.e. eu cadw ar wahân i weddill y fuches/diadell i weld a oes clefyd arnynt) ▪ hysbysu'r awdurdod perthnasol am achos o glefyd ar eich fferm (Sylwer: hynny yw, y milheintiau hysbysadwy) ▪ hysbysu'r awdurdodau perthnasol am arwyddion clefydau posibl (e.e. erthyliadau) 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Heb sicrhau bod yr holl anifeiliaid cymwys yn cydymffurfio â mesurau cadw golwg a bwlch profion ar gyfer TB.</p> <p>Mae agweddau eraill ar y mesurau hyn yn ymdrin â safonau penodol ar gyfer llaeth amrwd</p> <p>BWRIADOL</p> <p>Pan fydd rhybudd ar gyfer prawf gorfodol wedi'i roi, bydd tramgwydd yn cael ei ystyried yn dramgwydd bwriadol.</p> <p>Pan wrthodir prawf gorfodol, bydd yn dramgwydd bwriadol 100%</p>	<p>Effaith ar y fferm Neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm: os oes anifeiliaid wedi'u symud o'r fferm</p>	<p>Isel lawn: eich bod rhwng 1 diwrnod a 10 niwrnod (yn gynwysedig) yn hwyr yn cynnal y prawf</p> <p>Canolig: eich bod rhwng 11 niwrnod a 30 niwrnod (yn gynwysedig) yn hwyr yn cynnal prawf</p> <p>Uchel: eich bod mwy na 30 diwrnod yn hwyr yn cynnal prawf neu fod anifeiliaid o dan gyfyngiadau wedi'u symud</p> <p>Mae peidio â chydymffurfio wedi arwain at glefyd sy'n cael ei gario mewn bwyd yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl</p>	Parhaol
	Heb gynnal profion cyn symud statudol ar anifeiliaid	Effaith oddi ar y fferm	<p>Canolig</p> <p>Uchel: lle bo peidio â chydymffurfio wedi arwain at glefyd sy'n cael ei gario mewn bwyd yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl</p>	Parhaol

	Tystiolaeth glir nad oes gan y ffermwr system i gymryd mesurau gofalus pan fydd anifail newydd yn cyrraedd y fferm (e.e. ddim yn cael ei gadw ar wahân i weld a yw'n cario clefyd neu beidio)	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm: Lle gellir profi bod digwyddiad sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd/porthiant wedi digwydd.</p>	<p>Canolig</p> <p>Uchel: Lle bo peidio â chydymffurfio wedi arwain at glefyd sy'n cael ei gario mewn bwyd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl.</p>	<p>Modd ei gywiro</p> <p>neu</p> <p>Parhaol (dim ond lle bu digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd/porthiant)</p>
	<p>Nid yw'r ffermwr wedi rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol bod clefyd ar y fferm.</p> <p>Pwysig: y clefydau hyn yw'r milheintiau hysbysadwy</p>	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p> <p>Lle gellir profi bod digwyddiad sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd/porthiant wedi digwydd.</p>	<p>Canolig</p> <p>Uchel: Lle bo peidio â chydymffurfio wedi arwain at glefyd sy'n cael ei gario mewn bwyd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl.</p>	<p>Modd ei gywiro</p> <p>neu</p> <p>Parhaol</p>
	Tystiolaeth nad yw'r ffermwr wedi rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol am arwyddion clefyd posibl (e.e. erthyliadau)			

Os ydych yn cynhyrchu llaeth amrwd (o unrhyw rywogaeth) neu'n trafod llaeth amrwd, rhaid cadw at yr amodau ychwanegol isod:			
B1	Rhaid ichi sicrhau bod llaeth amrwd yn dod o anifeiliaid sydd: (a) yn gyffredinol iach eu hiechyd (b) heb arwyddion o glefyd a allai heintio'r llaeth (c) heb glwyf ar eu cadair/pwrs sy'n debygol o effeithio ar y llaeth (d) nad ydynt yn y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' ar ôl cael cynnyrch neu sylwedd awdurdodedig (e) heb gael cynnyrch neu sylwedd heb ei awdurdodi		
Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
(a – c) Tystiolaeth bod llaeth o anifail sy'n dangos arwyddion o afiechyd (arwyddion y byddai'n rhesymol disgwyl i rywun nad yw'n filfeddyg sylwi arnynt e.e. llid, llif, chwydd, clwyf ar y gadair/pwrs) wedi'i roi yn y tanc llaeth.	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: y llaeth yn mynd i gaerl ei drin â gwres Uchel: ni fydd y llaeth yn cael ei drin â gwres	Modd ei gywiro neu Barhaol
(d) Tystiolaeth bod llaeth o anifeiliaid sydd wedi'u trin heb gael ei gadw o'r gadwyn fwyd am y cyfnod gofynnol ac wedi cael ei roi yn y tanc llaeth.	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
(e) Tystiolaeth bod llaeth o anifail sydd wedi'i drin â sylwedd sydd heb ei awdurdodi wedi'i roi yn y tanc llaeth.	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

B2	Rhaid ichi sicrhau bod y llaeth amrwd yn dod o anifeiliaid sy'n perthyn i fuches ag iddi statws di-glefyd o ran twbercwlosis a brwselosis Os nad yw'ch daliad/buches yn ddi-glefyd, cewch werthu llaeth yr anifeiliaid sydd heb adweithio os ydych yn ei werthu i gyfanwerthwr fydd yn ei drin â gwres cyn ei werthu ar gyfer ei yfed gan bobl, neu os daw'r llaeth amrwd o ddefaid / geifr i'w wneud yn gaws sy'n cymryd o leiaf deufis i aeddfedu			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Tystiolaeth nad yw llaeth sy'n dod o anifeiliaid sydd wedi adweithio neu fuchesi/diadellau sydd wedi colli eu statws di-glefyd yn cael ei anfon ar gyfer ei drin â gwres er ei fod ar gyfer ei yfed gan bobl. (Triniaeth â gwres neu gynhyrchu caws â chyfnod aeddfedu o ddeufis) Pwysig: Mae'r driniaeth briodol yn dibynnu ar y statws di-glefyd a gollwyd a'r rhywogaeth dan sylw. Ceir mwy o wybodaeth yn Rheoliad EC 853/2004, Atodiad III, adran IX, Pennod 1	Effaith oddi ar y fferm	Canolig: pob sefyllfa oni bai bod y cynhyrchydd wedi gwerthu llaeth yfed amrwd yn syth i'r defnyddiwr olaf Uchel: os ydy'r cynhyrchydd yn gwerthu llaeth yfed amrwd yn syth i'r defnyddiwr olaf	Parhaol
B3	Rhaid ichi gadw anifeiliaid sydd wedi cael eu heintio neu yr amheuir eu bod wedi cael eu heintio gan frwselosis neu dwbercwlosis ar wahân rhag iddynt effeithio'n andwyol ar laeth anifeiliaid eraill.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Tystiolaeth nad yw'r ffermwr wedi ynysu anifeiliaid heintiedig neu sydd o dan amheuaeth.	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Ise: cysylltiad ag anifeiliaid eraill y fuches ac mae'r llaeth wedi'i drin â gwres Uchel: cysylltiad â da byw ar ddaliadau cyffiniol ac mae'r llaeth wedi'i drin â gwres	Modd ei gywiro neu Barhaol

B4	Rhaid sicrhau bod yr offer godro a'r man storio, trin ac oeri llaeth wedi'i leoli a'i adeiladu fel ag i gadw'r perygl o lygru'r llaeth mor fach â phosibl			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Man trin a storio llaeth mewn lle gwael neu o adeiladwaith gwael.</p> <p>Mae tystiolaeth bod perygl mawr o lygru'r offer godro gan ei fod yn cael ei gadw'n agos i ddeunydd peryglus a/neu oherwydd adeiladwaith gwael y sied odro neu'r storfa laeth neu ddiffyg gwaith cynnal a chadw.</p>	Effaith ar y fferm	<p>Isel iawn: lle ceir problemau bach, heb ddim perygl o lygru</p> <p>Canolig: mae perygl bach y gallai'r problemau lygru'r llaeth</p>	Modd ei gywiro
B5	Rhaid ichi sicrhau fod yr adeilad lle mae'r llaeth yn cael ei storio: <ul style="list-style-type: none"> wedi'i ddiogelu rhag fermin – gan gynnwys adar a'u nythod, a'i fod wedi'i wahanu'n ddigonol oddi wrth adeiladau'r anifeiliaid 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Nid yw'r adeilad lle cedwir y llaeth wedi'i ddiogelu'n ddigonol rhag fermin a/neu ei wahanu oddi wrth yr adeiladau lle cedwir yr anifeiliaid. e.e. arwyddion o fermin neu ei fod yn rhannu'r un aer â manau cadw anifeiliaid.</p>	Effaith ar y fferm	<p>Canolig: achos difrifol o fermin, adeiladau anifeiliaid yn rhy agos, offer oeri annigonol a'r llaeth yn dal i fod ar y fferm. Nid yw'r diffyg cydymffurfio'n debygol o effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl.</p> <p>Uchel: mewn achosion eithafol, mae'r diffyg cydymffurfio wedi arwain at glefyd sy'n cael ei gario yn y llaeth gan effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl neu nid yw'r ffermwr wedi ceisio rheoli na rhwystro'r tramgwydd.</p>	Modd ei gywiro

B6 B7	Rhaid ichi sicrhau bod yr offer sy'n dod i gysylltiad â'r llaeth yn hawdd eu glanhau a'u diheintio (lle bo gofyn). Rhaid ichi lanhau (a diheintio lle bo gofyn) yr offer sy'n dod i gysylltiad â'r llaeth ar ôl eu defnyddio, a'u cadw mewn cyflwr da.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae tystiolaeth bod yr offer sy'n dod i gysylltiad â'r llaeth wedi'u gwneud o ddeunydd sy'n anodd ei lanhau/neu nad ydynt yn cael eu cadw mewn cyflwr da. ▪ Tystiolaeth nad oes deunydd llyfn, golchadwy a diwenwyn yn cael ei ddefnyddio. ▪ Tystiolaeth bod yr offer yn frwnt ▪ Mae tystiolaeth bod yr arwynebau sy'n dod i gysylltiad â llaeth yn y parlwr godro neu'r storfa laeth yn frwnt neu wedi'u llygru (e.e. hen laeth/llwydni/llaeth wedi caledu) 	Effaith ar y fferm	Isef: gan ddibynnu ar lefelau'r llygru a lleoliad y llygru Canolig: gan ddibynnu ar lefelau'r llygru a lleoliad y llygru	Modd ei gywiro

B8	Rhaid cynnal safonau hylendid uchel wrth odro; ac yn arbennig, gofalwch: a) cyn dechrau godro, bod y tethi, y gadair/pwrs a'r rhannau o'u cwmpas yn lân b) eich bod yn gwybod pa anifeiliaid sy'n derbyn meddyginiaeth a fyddai'n debygol o adael ei hôl yn y llaeth c) nad yw llaeth o anifail sy'n dal i fod yn y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' ar ôl moddion yn cael ei roi i'w fwyta i bobl			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	(a) nid yw'r tethi na'r gadair yn lân cyn rhoi'r peiriant ar y tethi. Nid yw'r trefniadau na'r cyfleusterau yn ddigon da i sicrhau bod yr anifeiliaid yn cael eu glanhau'n lân.	Effaith ar y fferm	Isel lawn: pob sefyllfa heblaw pan fydd y cynhyrchydd yn gwerthu llaeth amrwd yn uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf Uchel: Os bydd y cynhyrchydd yn gwerthu llaeth amrwd i'r defnyddiwr olaf.	Modd ei gywiro neu Barhaol
	(b) nid yw'r ffermwr yn gwybod pa anifeiliaid sy'n derbyn meddyginiaeth a fyddai'n debygol o adael ei hôl yn y llaeth neu sy'n dal i fod yn y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd'.	Effaith ar y fferm	Isel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	(c) nid yw'r anifeiliaid hyn yn cael eu godro olaf, gyda'r biben gludo wedi'i datgysylltu oddi wrth y tanc llaeth neu gan ddefnyddio offer ar wahân e.e. peiriant a chwpanau gwahanol. Pwysig: Gallai peidio â gwneud hyn olygu y gallai llaeth yr anifeiliaid hyn gael ei werthu i'w fwyta gan bobl.	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Isel	Modd ei gywiro neu Barhaol

B9	<p>Rhaid cadw'r llaeth yn syth ar ôl godro mewn lle glân sydd wedi'i lunio a'i drefnu i gadw'r llaeth yn lân. Rhaid bod gennych offer oeri addas i allu cadw at y rheolau oeri llaeth ar ôl godro:</p> <p>Rhaid oeri'r llaeth ar unwaith i :</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ ddim mwy na 8°C os yw'n cael ei gasglu bob dydd ▪ ddim mwy na 6°C os nad yw'n cael ei gasglu bob dydd 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae tystiolaeth nad yw'r llaeth yn cael ei storio'n iawn. Nid yw'r storfa'n addas, glân, neu nid yw wedi'i gwneud o ddeunydd hawdd ei lanhau sy'n diogelu'r llaeth rhag cael ei lygru.	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p>	<p>Isel: storfa anaddas (ond dim llygru)</p> <p>Canolig: storfa anaddas sy'n arwain at lygru ac yn debygol o arwain at effaith uniongyrchol ar iechyd pobl</p> <p>Uchel: storfa anaddas sy'n arwain at lygru difrifol a pherygl arwyddocaol o gael effaith uniongyrchol ar iechyd pobl</p>	<p>Modd ei gywiro</p> <p>neu</p> <p>Barhaol</p>
	<p>Nid yw'r llaeth wedi cael ei oeri mewn amser rhesymol (2 awr) ar ôl ei odro a chyn ei gasglu.</p> <p>(Pwysig Nid yw'n ymarferol oeri'r llaeth ar unwaith ym mhob sefyllfa)</p> <p>Mae tystiolaeth nad yw'r llaeth yn cael ei storio neu ei oeri'n iawn. Hynny'n amlwg o ddarlennu taflenni'r tancer a/neu trwy gymryd tymheredd y llaeth.</p>	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>ni fydd y llaeth yn cael ei gasglu gan y prynwr</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p> <p>digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd a bod y llaeth wedi gadael y fferm</p>	<p>Isel iawn: nid yw'r tramgwydd yn debygol o effeithio'n uniongyrchol ar iechyd pobl.</p> <p>Canolig: os ydy'r tramgwydd yn ddatblygiad diweddar iawn ac nad oes dim, os o gwbl, yn cael ei wneud i gywiro'r sefyllfa.</p> <p>Uchel: mae'n amlwg nad yw'r cyfleusterau'n gweithio'n iawn neu eu bod yn anaddas ar gyfer y swm o laeth sy'n cael ei storio (e.e. tanciau ychwanegol y tu allan i'r llaethdy heb offer oeri) a does dim yn cael ei wneud i gywiro'r sefyllfa.</p>	<p>Modd ei gywiro</p> <p>neu</p> <p>Barhaol</p>

Os ydych yn gynhyrchydd wyau, rhaid cadw at y rheolau ychwanegol hyn				
C1	Rhaid ichi gadw'r wyau'n lân ac yn sych, mewn lle diarogl, allan o lygad yr haul a'u hamddiffyn rhag eu torri			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae'r wyau'n cael eu cadw o dan amodau anaddas. (E.e. wrth beiriannau amaeth sy'n symud, yn sied y tractor, wrth gannydd neu diesel)</p> <p>Mae hyn yn berthnasol i'r holl wyau yn eu masgl a gynhyrchir gan adar fferm</p>	<p>Effaith ar y fferm: pan nad yw'r wyau wedi gadael y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm: digwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch bwyd; mae'r wyau wedi gadael y fferm</p>	<p>Isel lawn</p>	<p>Modd ei gywiro</p> <p>neu</p> <p>Barhaol</p>

SMR 5: Cyfyngiadau ar ddefnyddio betaweithyddion a sylweddau sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig ar anifeiliaid fferm

Amcan y gofynion hyn yw rhoi stop ar roi sylweddau sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig a betaweithyddion yn anghyfreithlon i anifeiliaid fferm a gofalu nad yw'r gweddillion y mae'r sylweddau hyn yn eu gadael mewn cig yn cael ymuno â chadwyn fwyd pobl neu anifeiliaid. Maen nhw'n berthnasol i chi os ydych chi'n cadw anifeiliaid fferm

A1	Peidiwch â rhoi sylweddau gwaharddedig i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd (oni bai'ch bod wedi cael caniatâd)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae'r ffermwr wedi rhoi sylweddau cyfyngedig sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig a betaweithyddion i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd</p> <p>Pwysig: mae rhai eithriadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae milfeddygon, neu ffermwyr o dan gyngor milfeddyg, yn cael rhoi cynnyrch milfeddygol trwyddedig sy'n cynnwys betaweithyddion ar bresgripsiwn gan filfeddyg i geffylau ac anifeiliaid anwes ▪ Mae milfeddyg yn cael rhoi cynnyrch milfeddygol trwyddedig sy'n cynnwys betaweithyddion ar bresgripsiwn gan filfeddyg trwy chwistrelliad i drin tocolysis neu i sbarduno tocolysis mewn buwch sy'n dod â llo ▪ Mae milfeddygon, neu ffermwyr o dan gyngor milfeddyg, yn cael rhoi cynnyrch milfeddygol trwyddedig sy'n cael effaith gestogenig, oestrogenig (ond nid oestradiol 17 β a deilliadau esteraidd ohono) neu androgenig ar bresgripsiwn gan filfeddyg, i gael gwartheg i ddod yn wasod yr un pryd neu i baratoi gwartheg sy'n rhoi neu'n derbyn embryonau ar gyfer eu mewtblannu 	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p>	<p>Uchel</p>	<p>Modd ei gywiro: dim ond os ceir bod yr anifeiliaid dan sylw ar y fferm ac nad oes cynnyrch wedi ymuno â'r gadwyn fwyd.</p> <p>neu</p> <p>Parhaol</p>

	<p>Pwysig: Ceir tystiolaeth o'r tramgwydd mewn samplau a geir o anifeiliaid byw neu o ladd-dai. Bydd betaweithyddion neu sylweddau gwaharddedig sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig mewn porthiant neu ddŵr, hefyd yn cyfrif fel tystiolaeth</p> <p>Dim ond milfeddyg y ffermwr neu fferyllfa gofrestredig ym Mhrydain sy'n gweithredu ar bresgripsiwn gan filfeddyg sy'n cael cyflenwi'r cyffuriau y mae SMR 5 yn ymdrin â nhw. Er hynny, nid yw cael cyffuriau o'r fath o le heb awdurdod ynddo'i hun yn golygu'ch bod wedi torri'r SMR hwn os yw'r cyffur wedi'i drwyddedu ym Mhrydain a bod presgripsiwn ar ei gyfer</p>			
A2	Ni chaniateir sylweddau ar eich fferm sy'n sbarduno tocolysis mewn buwch sy'n dod â llo.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae gan y ffermwr sylwedd sy'n cynnwys betaweithyddion allai gael eu defnyddio at bwrpas sbarduno geni lloi wrth drin tocolysis</p> <p>Pwysig: Mae'n bosibl na fydd copi ysgrifenedig o'r presgripsiwn ar gael ar y fferm. Ond dylai'r ffermwr allu dangos pwy roddodd y presgripsiwn a dylid gallu cadarnhau hynny. Gan fod gofyn i ffermwyr gadw prawf prynu milfeddyginiaeth am 5 mlynedd, dylent allu dweud gan bwy y cawsant y cyffur.</p> <p>Mae hawl defnyddio rhai sylweddau cyfyngedig ar bobl neu anifeiliaid anwes. Os ydy'r arolygydd yn fodlon bod y cyffur yn cael ei ddefnyddio at y pwrpas hwnnw, ni fydd y ffermwr wedi torri SMR 5. Os bydd gan y ffermwr feddiant anghyfreithlon arno, neu os amheuir hynny, bydd yn rhaid asesu a yw hefyd wedi rhoi'r cyffur yn anghyfreithlon (gweler uchod)</p> <p>Rhaid i arolygwyr gofio hefyd y gallai'r ffermwr fod wedi cael y cyffuriau'n gwbl gyfreithlon, ond eu bod erbyn hyn yn ddiawdurdod. Mae'n anghyfreithlon bod â'r meddyginiaethau hyn yn eich meddiant</p>	Effaith ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro: gan y gall arolygydd sydd wedi'i benodi o dan y Rheoliadau Milfeddyginiaetha u atafaelu'r sylweddau anghyfreithlon

A3	Ni fydd gennych anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ar eich fferm sydd wedi cael sylweddau cyfyngedig (ac eithrio o dan yr eithriadau a ganiateir)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae gan yr anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd sydd ym meddiant ffermwr weddillion yn eu meinwe neu eu hylifau corfforol sy'n dangos bod betaweithyddion neu sylweddau sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig wedi cael eu rhoi'n anghyfreithlon iddynt	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro: os oes modd difa'r anifeiliaid dan sylw
	Mae gan yr anifeiliaid sydd ym meddiant ffermwr weddillion yn eu meinwe neu eu hylifau corfforol sy'n dangos bod mwy o'r sylwedd wedi'i roi i'r anifail nag a ganiateir yng nghyfarwyddiadau SMR 5 dosio'r cynnyrch	Os gwelir bod anifail neu gynnyrch anifail wedi gadael y fferm, bydd angen ystyried a oes tramgwydd wedi digwydd o dan A4 a/neu A5		
A4	Peidiwch â rhoi anifeiliaid y mae sylwedd cyfyngedig wedi'i roi iddynt ar y farchnad na'u hanfon i'w lladd i'w bwyta gan bobl (ac eithrio o dan yr eithriadau a ganiateir)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae gan yr anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd y mae'r ffermwr wedi'u rhoi ar y farchnad neu eu hanfon i'w lladd i'w bwyta gan bobl weddillion yn eu meinwe neu eu hylifau corfforol sy'n dangos bod betaweithyddion neu sylweddau sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig wedi cael eu rhoi'n anghyfreithlon iddynt Caniateir rhai eithriadau – gweler Rheoliad 9 o OS 1997 rhif1729	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro: os nad yw'r anifeiliaid wedi cael eu gwerthu (bod modd eu difa) neu Barhaol: Os yw'r anifeiliaid eisoes wedi'u gwerthu (dyna sydd wedi digwydd fel arfer)

A5	Peidiwch â rhoi ar y farchnad gig neu gynnyrch arall o anifail y cafodd sylwedd cyfyngedig ei roi iddo (ac eithrio o dan eithriadau a ganiateir)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r ffermwr wedi rhoi ar y farchnad gig neu gynnyrch anifail o anifeiliaid â gweddillion ynddynt sy'n dangos bod betaweithyddion neu sylweddau sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig wedi cael eu rhoi'n anghyfreithlon iddynt	Effaith ar y fferm neu Effaith odd ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro: os oes modd rhwystro'r cynnyrch rhag ymuno â'r gadwyn fwyd neu Barhaol: Os nad oes modd rhwystro'r cynnyrch rhag ymuno â'r gadwyn fwyd
B1	Rhaid ichi gadw at y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' perthnasol os cafodd sylwedd cyfyngedig ei roi i'r anifail cynhyrchu bwyd (gan ystyried yr eithriadau a ganiateir)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r ffermwr wedi cadw at y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' lle bo sylwedd cyfyngedig wedi'i roi i anifeiliaid cynhyrchu bwyd Ar hyn o bryd, nid oes meddyginiaethau trwyddedig â thyrostatau ynddyn nhw ar gyfer anifeiliaid fferm. Dim ond anifeiliaid sy'n cael eu lladd neu anifeiliaid byw sy'n cynhyrchu bwyd (llaeth neu wyau fel arfer) sy'n gorfod cael eu cadw o'r gadwyn fwyd am gyfnod penodol	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Parhaol

B2	Rhaid sicrhau bod cofnodion milfeddygol am roi sylweddau cyfyngedig ar gael i'r awdurdod perthnasol neu rywun sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod perthnasol eu gweld pan ofynnir amdanynt.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Peidio â chadw cofnod o'r triniaethau a ganiateir ar anifeiliaid cynhyrchu bwyd gyda betaweithyddion neu sylweddau sy'n cael effaith hormonaidd - yn groes i Reoliad 18 (os mai milfeddyg sy'n eu rhoi) neu Reoliad 19 (os mai'r ffermwr sy'n eu rhoi) o'r Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol</p> <p>Mae asesu cofnodion meddyginiaethau yn aml yn rhan o drefn gwaith lechyd Anifeiliaid wrth archwilio ffermydd</p> <p>Lle bo eithriad yn caniatáu i ffermwr roi sylwedd sy'n dod o dan SMR 5, mae dal gofyn cadw cofnodion yn unol â'r Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol a bydd peidio â gwneud yn groes i SMR 5</p> <p>Rhaid i ffermwr gadw prawf ei fod wedi prynu milfeddyginiaeth am 5 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys prawf o brynu triniaethau sy'n ymwneud ag SMR 5. Felly, os oes gan ffermwr brawf iddo eu prynu ond dim cofnod neu gofnod anghyflawn o ddefnyddio cynnyrch SMR 5, gallai hynny fod yn dystiolaeth o drosedd.</p>	Effaith ar y fferm	<p>Isel: mân-fanylion heb eu cynnwys yn y cofnodion am roi sylweddau SMR 5 neu fân-gamgymeriadau, ond yr arolygydd yn dal yn gallu dweud ei fod wedi cadw at y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' neu olrhain anifeiliaid sydd wedi'u trin.</p> <p>Canolig: cofnodion rhoi sylweddau SMR 5 yn anghyflawn – dim on yn bosibl i'r arolygydd wneud asesiad rhannol bod y ffermwr wedi cadw at y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' neu olrhain anifeiliaid wedi'u trin.</p> <p>Uchel: dim cofnodion am roi sylweddau SMR 5 – neu'r arolygydd ddim yn gallu gweld bod y ffermwr wedi cadw at y cyfnod 'cadw o'r gadwyn fwyd' nac olrhain yr anifeiliaid sydd wedi'u trin.</p>	<p>neu</p> <p>Parhaol: gan ddibynnu faint o amser sydd wedi mynd hebio ers rhoi'r driniaeth ac a oes gan y ffermwr wybodaeth fyddai'n caniatáu iddo wneud cofnod.</p>

SMR 6: Adnabod a Chofrestru Moch

Amcan y gofynion hyn yw lleihau'r perygl o ledaenu clefydau moch, trwy reoli symudiadau moch a'u holrhain yn rhwydd. Bydd yn rhaid i bawb sy'n cadw moch gadw at y gofynion hyn.			
A1	Rhaid cofrestru'ch manylion gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion o fewn 1 mis ar ôl sefydlu'ch daliad a rhoi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau (gan gynnwys rhoi'r gorau i gadw moch) o fewn 1 mis wedi iddynt ddiwydd.		
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb
	Nid yw manylion yr ymgeisydd wedi'u cofrestru'n gywir gyda'r awdurdod cymwys na'u newid	Effaith ar y fferm	Canolig: os nad yw'r manylion yn gyfoes Uchel: os nad yw'r ymgeisydd wedi cofrestru
			Pa mor barhaol Modd ei gywiro neu Barhaol
A2	Rhaid marcio'ch moch trwy un o'r ffyrdd canlynol cyn iddyn nhw adael eich daliad, gan ddibynnu ar eu hoed a phen eu taith; <ul style="list-style-type: none"> ▪ Moch blwydd neu fwy, sy'n cael eu symud i unrhyw fath o farchnad, neu rhwng daliadau neu i'w lladd – slapfarc dwbl, tag clust neu datw gyda nod eich cenfaint arno ▪ Moch o dan flwydd oed sy'n cael eu symud i unrhyw fath o farchnad neu i'w lladd - slapfarc dwbl, tag clust neu datw gyda nod eich cenfaint arno ▪ Moch o dan flwydd oed sy'n cael eu symud rhwng daliadau - slapfarc dwbl, tag clust neu datw gyda nod eich cenfaint arno neu farc dros dro (paent) 		

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Tystiolaeth bod moch heb y marc adnabod angenrheidiol arnynt wedi cael eu symud	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p>	<p>IseI: Absoliwt: hyd at a chan gynnwys 5 anifail gafodd eu harchwilio heb eu marcio'n gywir Canran: hyd at a chan gynnwys 40% o'r anifeiliaid gafodd eu harchwilio heb farc adnabod cywir.</p> <p>Canolig: Absoliwt: mwy na 5 ond hyd at a chan gynnwys 10 o'r anifeiliaid gafodd eu harchwilio heb eu marcio'n gywir Canran: mwy na 40% ond hyd at a chan gynnwys 60% o'r anifeiliaid gafodd eu harchwilio heb farc adnabod cywir.</p> <p>Uchel: Absoliwt: mwy na 10 o'r anifeiliaid gafodd eu harchwilio heb eu marcio'n gywir Canran: mwy na 60% o'r anifeiliaid gafodd eu harchwilio heb farc adnabod cywir.</p> <p>(Pwysig: Y lefel difrifoldeb uchaf a welir sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrif lefel y gosb)</p>	<p>Modd ei gywiro</p> <p>neu</p> <p>Barhaol</p>

A3	Peidiwch â thynnu marc adnabod na rhoi un newydd heb ganiatâd oni bai ei fod wedi'i golli, yn annarllenadwy neu'ch bod yn ei dynnu er lles y mochyn. Rhaid rhoi marc adnabod priodol yn ei le yn ôl y gofyn.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r marc adnabod wedi'i dynnu neu mae un newydd wedi'i roi yn ei le heb ganiatâd neu nid oes marc adnabod newydd wedi'i roi pan oedd angen un yn lle un a gollwyd.	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Parhaol
Cofnodion ar y fferm a symudiadau				
A4	<p>Rhaid cofnodi holl symudiadau'r moch sy'n cyrraedd/gadael eich daliad o fewn 36 awr wedi'r symudiad. Dylai'r cofnod nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ enw a chyfeiriad y sawl sy'n cadw'r cofnod; ▪ dyddiad y symudiad; ▪ rhif adnabod neu farc dros dro; ▪ nifer y moch; ▪ y daliad y daeth y moch ohono; ▪ y daliad y mae'r moch yn mynd iddo 			
	<p>Rhaid rhoi gwybod ar-lein i system yr eAML2 cyn symud moch o'ch daliad ac eithrio o dan yr amgylchiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ eich bod tan 1 Ebrill 2012 yn rhoi dogfen wedi'i llenwi a'i harwyddo gan y ceidwad i'r person sy'n cludo'r moch. Bydd y ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen (a restrir isod) ▪ eich bod yn symud moch i farchnad neu ganolfan gasglu sy'n cytuno i roi gwybod ar-lein i system yr eAML2 ar y diwrnod pan fydd y moch yn cyrraedd ▪ eich bod yn symud moch i filfeddygfa am driniaeth frys ▪ eich bod yn symud moch i sioe heb wybod i ba daliad y bydd y moch yn cael eu symud iddo ar ôl y sioe (bydd yn rhaid rhoi gwybod ar-lein i system yr eAML2 neu Wasanaeth Biwro yr eAML2 sy'n cael ei redeg gan y Meat and Livestock Commercial Services Limited (MLGSL) o fewn 3 niwrnod ar ôl eu symud o'r sioe) <p>Os na fyddwch wedi rhoi gwybod i system ar-lein yr eAML2 ac os nad yw'r eithriadau'n gymwys, rhaid rhoi'r wybodaeth y gofynnir amdani i Wasanaeth Biwro'r eAML2 dros y ffôn neu drwy lythyr. Peidiwch â symud unrhyw foch tan y bydd Gwasanaeth Biwro'r eAML2 wedi rhoi dogfen i chi sy'n cofnodi'r wybodaeth honno.</p>			

	<p>Oni bai'ch bod yn symud moch i gael triniaeth filfeddygol frys, ar gyfer pob un o'r uchod, rhaid ichi roi'r wybodaeth ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ cyfeiriadau llawn man cychwyn taith a phen taith y moch, gan gynnwys codau post a rhifau CPH ▪ dyddiad y symudiad ▪ nifer y moch sy'n cael eu symud ▪ marc adnabod y moch a ▪ rhifau lot y moch (os ydy'r moch yn cael eu symud o farchnad)
	<p>Wrth gludo moch, rhaid bod gennych ddogfen symud neu gryno'r cludwr. Bydd y ddogfen yn mynd gyda'r moch sy'n cael eu symud ac os nad yw'r symudiad wedi cael ei gofnodi ar-lein, rhaid i'r ceidwad arwyddo'r ddogfen. Os nad yw'r ceidwad sy'n derbyn yr anifeiliaid yn gallu rhoi gwybod ar-lein i'r system eAML2, rhaid ichi roi dau gopi o ddogfen symud neu gryno'r cludwr i'r ceidwad.</p>
	<p>Rhaid rhoi gwybod am symudiadau moch i'ch daliad o fewn 3 niwrnod trwy: gadarnhau ar-lein ar y system eAML2 bod y moch wedi cyrraedd (gan nodi unrhyw newidiadau) neu anfon copi o ddogfen symud neu gryno'r cludwr (gan nodi unrhyw newidiadau) at Wasanaeth Biwro'r eAML2 neu drwy roi gwybod iddyn nhw dros y ffôn neu ffacs</p>
	<p>Rhaid cadw copi o ddogfennau symud neu gryno'r cludwr am 6 mis ar ôl i'r moch gyrraedd eich daliad (oni bai'ch bod wedi rhoi gwybod ar-lein i'r system eAML2 eu bod wedi cyrraedd)</p>
	<p>Os ydych yn anfon moch i borthladd i'w cludo allan o Brydain Fawr, rhowch wybod ar-lein i'r system eAML2 neu anfonwch gopi o ddogfennau symud neu gryno'r cludwr at Wasanaeth Biwro'r eAML2 o fewn 3 niwrnod ar ôl i'r moch adael y daliad.</p> <p>Os bydd marc adnabod yn cael ei golli neu'n mynd yn annarllenadwy, rhaid cofnodi manylion y marc adnabod sy'n cael ei roi yn ei le gan sefydlu'r cyswllt â rhif adnabod gwreiddiol yr anifail, oni bai bod y marc adnabod newydd union yr un fath â'r gwreiddiol</p>

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Heb gadw dogfennau symud yn unol â'r gofynion cyfreithiol	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig: trwydded neu gofnod eAML2 yn anghywir o'i gymharu â'r symudiadau a thrwydded heb ei chadw am y cyfnod gofynnol. Uchel: dim trwydded na chofnod eAML2 o'i gymharu â'r symudiadau.	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Heb gadw cofnodion yn unol â'r gofynion cyfreithiol	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: heb gadw cofnodion llawn un neu fwy o symudiadau, i neu o'r daliad, na manylion adnabod newydd ac nid oes modd eu cadarnhau trwy ddogfennau eraill y fferm (h.y anfonebau ac ati). Ni wnaeth y ceidwad newid. Canolig: heb gadw cofnod llawn un symudiad, i neu o'r daliad, na manylion adnabod newydd lle bo'r ceidwad wedi newid a/neu heb gadw cofnod llawn un symudiad, i neu o'r daliad, lle nad yw'r ceidwad wedi newid ac nad oes modd ei gadarnhau trwy ddogfennau eraill y fferm (h.y. anfonebau ac ati). Uchel: Heb gofnodi manylion llawn symudiadau yn rheolaidd, i nac o'r daliad neu dim cofnodion wedi'u cadw.	Modd ei gywiro neu Barhaol
A5	Rhaid cofnodi, o leiaf unwaith y flwyddyn, y nifer mwyaf o foch rydych chi fel arfer yn eu cadw a nifer gwirioneddol y moch ar y daliad ar y dyddiad hwnnw.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Heb gadw cofnod o nifer mwyaf y moch rydych fel arfer yn eu cadw na nifer gwirioneddol y moch ar ddyddiad cofnodi nifer uchaf y moch.	Effaith ar y fferm	Isel	Modd ei gywiro neu Barhaol

SMR 7: Adnabod a chofrestru gwartheg

Amcan y gofynion hyn yw cynnal system ar gyfer adnabod (tagio) a chofrestru gwartheg ar gyfer eu holrhain yn rhwydd, yn enwedig pan fydd clefyd yn taro. Yn yr SMR hwn, mae 'gwartheg' yn golygu unrhyw greadur sy'n perthyn i deulu'r fuwch

Er mwyn bodloni'r amodau trawsgydymffurfio ar gyfer tagio ac olrhain gwartheg, does dim angen ichi wneud mwy na'r hyn sydd eisoes yn ofynnol o dan y gyfraith. Rydym yn rhestru isod elfennau'r system olrhain gwartheg sy'n dod o dan yr amodau trawsgydymffurfio. Crynodeb yn unig yw hwn. Am esboniad llawn o'ch gofynion cyfreithiol, darllenwch y deddfau perthnasol neu lawlyfr y BCMS

a) Tagiau clust

- Rhaid rhoi dau dag union yr un fath o deip sydd wedi'i gymeradwyo gan Defra ar loi sy'n cael eu geni ar eich daliad (neu eu mewnfurio o'r tu allan i'r UE)
- Rhaid rhoi tagiau ar loi eidion o fewn 20 diwrnod ar ôl eu geni neu cyn iddynt adael y daliad os digwydd hynny'n gynt. Rhaid rhoi'r naill dag ar loi godro o fewn 36 awr a'r llall o fewn 20 diwrnod ar ôl eu geni
- Rhaid tagio lloi beison o fewn 9 mis ar ôl eu geni neu wrth eu gwahanu oddi wrth eu mamau, os digwydd hynny'n gynt
- Dylech dagio pob anifail sy'n gadael eich daliad yn unol â'r holl ofynion ar gyfer yr anifail hwnnw, gan gynnwys rhoi dau dag ar loi, waeth eu hoed
- Peidiwch â thynnu na chyfnewid tagiau clust heb ganiatâd y BCMS ond pan fyddwch yn rhoi tag yn lle tag annarllenadwy neu dag sydd wedi'i golli
- Rhaid rhoi tagiau yn lle rhai sy'n annerllanadwy neu sy'n cael eu colli o fewn 28 diwrnod ar ôl sylwi ar y golled
- Peidiwch â newid, dileu na difetha tag clust

b. Pasbort gwartheg

- Rhaid gofyn am basbort gwartheg o fewn saith niwrnod ar ôl tagio llo (hynny yw, o fewn 27 diwrnod ar ôl ei eni, 7 niwrnod ar gyfer beison)
- Rhaid cofrestru gwartheg sy'n cael eu mewnforio o wlad o fewn yr UE sydd y tu allan i Brydain Fawr, o fewn 15 niwrnod ar ôl iddynt gyrraedd ar eich daliad trwy anfon y pasbort/dogfen symud dramor at y BCMS a gwneud cais am basbort
- Rhaid cofrestru gwartheg sy'n cael eu mewnforio o wlad y tu allan i'r UE o fewn 15 niwrnod ar ôl tagio'r anifail a dim hwyrach na 35 diwrnod ar ôl ei ryddhau o'r archwiliadau mewnforio trwy wneud cais i'r BCMS am basbort
- Pan fydd gwartheg yn cael eu symud, gofalwch bod eu pasbort yn mynd gyda nhw, a'i fod wedi'i lenwi a'i arwyddo
- Peidiwch â newid na difetha pasbort gwartheg
- Pan ofynnir ichi, rhaid dangos pasbort dilys wedi'i lofnodi ar gyfer pob anifail yn eich gofal

c. Hysbysu

- Rhaid rhoi gwybod i'r BCMS bod llo wedi'i eni trwy wneud cais am basbort o fewn 7 niwrnod ar ôl ei dagio (h.y. o fewn 27 diwrnod ar ôl ei eni)
- Rhaid rhoi gwybod i'r BCMS o fewn 7 niwrnod os bydd gwartheg yn marw ar eich daliad, naill ai trwy CTS ar-lein, gwasanaeth ffôn BCMS, y feddalwedd gymeradwy neu drwy lenwi manylion y farwolaeth ar y pasbort. Rhaid ichi ddychwelyd y pasbort neu'r dystysgrif gofrestru ac unrhyw ddogfennau adnabod swyddogol eraill o fewn 7 niwrnod ar ôl y farwolaeth. Os ydych am roi gwybod am y farwolaeth trwy CTS ar-lein, gwasanaeth ffôn BCMS neu'r feddalwedd gymeradwy, ni fydd angen ichi lenwi manylion y farwolaeth ar y pasbort ond bydd angen ichi ddychwelyd y pasbort o fewn 7 niwrnod ar ôl y farwolaeth
- Rhaid rhoi gwybod i'r BCMS am wartheg sy'n cael eu symud i'ch daliad neu oddi arno o fewn 3 niwrnod ar ôl y symudiad
- Rhaid rhoi gwybod i'r BCMS trwy ddychwelyd y pasbort am unrhyw anifail sy'n cael ei ddwyn neu ei golli o fewn 7 niwrnod ar ôl sylwi ei fod wedi'i ddwyn neu ei golli

d. Cofrestr y fferm

- Rhaid cadw cofrestr buches gyfoes. Bydd yn cynnwys y canlynol ar gyfer pob anifail: rhif swyddogol y tag clust; rhif swyddogol tag clust y fam; dyddiad geni; rhyw; dyddiad cyrraedd/gadael y daliad; o ble mae'r anifail yn dod/i ble mae'r anifail yn mynd; brid, dyddiad marw sy'n cyfateb i'r CTS
- Rhaid cwblhau'r gofrestr o fewn 36 awr ar ôl symud anifail neu roi tag clust newydd os ydy'r rhif wedi newid; o fewn 7 niwrnod ar ôl i anifail farw ac o fewn 7 niwrnod ar ôl geni llo godro (neu o fewn 30 diwrnod ar ôl geni unrhyw lo arall)
- Rhaid cadw'r gofrestr am 10 mlynedd ar ôl dyddiad y cofnod olaf a rhaid gofalu ei bod ar gael i Lywodraeth Cymru neu'r awdurdod lleol ei gweld.

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>I'w asesu yn ôl sgôr difrifoldeb y CII</p> <p>Gweler y tabl isod gan gynnwys yr esboniad o'r sgôr difrifoldeb</p>	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm: mewn achosion lle mae anifeiliaid wedi cael eu symud ers iddynt gael eu bwydo â phrotein neu gynnyrch anifeiliaid</p>	<p>Isel iawn: Absoliwt: mwy na 0 hyd at a chan gynnwys 3 Canran: mwy na 0 hyd at a chan gynnwys 10 Isel: Absoliwt: mwy na 3 hyd at a chan gynnwys 5. Canran: mwy na 10 hyd at a chan gynnwys 40 Canolig: Absoliwt: mwy na 5 hyd at a chan gynnwys 10. Canran: mwy na 40 hyd at a chan gynnwys 60 Uchel: Absoliwt: mwy na 10 Canran: mwy na 60</p>	<p>Modd ei gywiro</p> <p>neu</p> <p>Barhaol</p>

Atodiad 1:**Cosbau am dorri amodau SMR7: Adnabod a Chofrestru Gwartheg**

Mae cod a sgôr ar gyfer pob tramgwydd, p'un a yw wedi'i ddarganfod gan arolygydd neu ei ddarganfod yn sgil archwiliad papur:

Cod	Disgrifiad o'r Tramgwydd	Sgôr	Maint rhestr 1	Maint rhestr 2	Parhaol	Grŵp Tramgwydd
FM	BCMS heb gael gwybod am symudiad - dros 14 diwrnod	1.0	Oddi ar y fferm	Ar y fferm	Parhaol	Heb roi gwybod i'r BCMS am symudiadau o fewn yr amserlen
FM1	Rhoi gwybod i BCMS yn hwyr am symudiad – rhwng 8 ac 14 diwrnod yn gynwysedig	1.0	Oddi ar y fferm	Ar y fferm	Modd ei gywiro	
FM2	Rhoi gwybod i BCMS yn hwyr am symudiad – rhwng 4 a 7 diwrnod yn gynwysedig	0.4	Oddi ar y fferm	Ar y fferm	Modd ei gywiro	
ID	Manylion (hanfodol) y fam yn anghywir ar y pasbort/ffurflen	0.3	Ar y fferm	Oddi ar y fferm	Modd ei gywiro	Manylion (hanfodol) y fam yn anghywir ar y pasbort/ffurflen
LZ	Manylion (heb fod yn hanfodol) y fam yn anghywir ar y pasbort/ffurflen	0	Ar y fferm	Oddi ar y fferm	Modd ei gywiro	Manylion (heb fod yn hanfodol) y fam yn anghywir ar y pasbort/ffurflen)
NF1	Anifail sydd wedi'i fagu gartre ddim ar gofodion	1.0	Ar y fferm	Ar y fferm	Parhaol	Anifail heb fod ar gofnodion y fferm
NF2	Anifail sydd wedi'i brynu ddim ar gofnodion	0.4	Ar y fferm	Ar y fferm	Modd ei gywiro	
MV	Manylion y symudiad heb eu cofnodi neu wedi'u camgofnodi ar gofnodion y fferm neu'r pasbort neu CTS	0.4	Ar y fferm	Oddi ar y fferm	Parhaol	Manylion y symudiad heb eu cofnodi neu wedi'u camgofnodi ar gofnodion y fferm neu'r pasbort neu CTS

DB	Y dyddiad geni anghywir ar y pasbort/cofnod y fferm	0.7	Ar y fferm	Oddi ar y fferm	Modd ei gywiro	Y dyddiad geni anghywir ar y pasbort/cofnod y fferm
NP	Anifail yn bresennol heb basbort, tystysgrif gofrestru, CPP35	1.0	Ar y fferm	Oddi ar y fferm	Parhaol	Anifail yn bresennol heb basbort
DD	BCMS heb gael gwybod am anifail marw - dros 14 diwrnod	1.0	Oddi ar y fferm	Oddi ar y fferm	Parhaol	Rhoi gwybod i'r BCMS yn hwyr am anifail marw
DD1	Rhoi gwybod i BCMS yn hwyr am anifail marw – rhwng 8 ac 14 diwrnod yn gynwysedig	1.0	Oddi ar y fferm	Oddi ar y fferm	Modd ei gywiro	
NA	Pasbort/CoR/CTS yn bresennol heb anifail	1.0	Oddi ar y fferm	Oddi ar y fferm	Parhaol	Pasbort/CoR yn bresennol heb anifail
OP	Manylion eraill y pasbort yn anghywir (e.e. rhyw, brid)	0.1	Ar y fferm	Oddi ar y fferm	Modd ei gywiro	Manylion eraill y pasbort (e.e. rhyw, brid) ddim yn cyfateb i gofnodion y fferm
TG1	Heb ei dagio yn unol â'r rheolau	1.0	Ar y fferm	Oddi ar y fferm	Parhaol	Anifail wedi'i gamdagio/Tag newydd heb ei roi yn lle tag a gollwyd
TG2	Tag ar goll am fwy na 28 diwrnod neu ddiffyg tystiolaeth am bolisi rhoi tagiau newydd	0.4	Ar y fferm	Oddi ar y fferm	Parhaol	
TG3	Tag ar goll am lai na 28 diwrnod	0	Ar y fferm	Oddi ar y fferm	Modd ei gywiro	

Dylid adio sgoriau'r holl dramgwyddau. Hwn fydd y 'sgôr absoliwt'. Defnyddir y sgôr absoliwt i weithio'r canran, sy'n cael ei gyfrif trwy rannu'r sgôr absoliwt â nifer yr anifeiliaid gafodd eu harchwilio a lluosir rhif hwnnw â 100. Caiff y ddau rif eu cymharu â'r lefelau difrifoldeb a restrir yn y safonau dilysadwy a defnyddir yr uchaf ohonynt i bennu lefel y gosb ariannol.

Cyfrifir y gosb ariannol trwy ddefnyddio:

- y lefel difrifoldeb uchaf
- maint y tramgwydd (ydy'r effeithiau'n effeithio ar y fferm yn unig neu y tu allan i'r fferm hefyd)
- bwriad (ai esgeulustod neu bwriad sydd i gyfrif am y tramgwyddau)
- pa mor barhaol (a oes modd cywiro'r camgymeriadau mewn cyfnod rhesymol o amser, neu a ydyn nhw'n barhaol)
- ailadrodd (pan welir tramgwyddau o'r un grŵp tramgwyddau eto o fewn cyfnod o 3 blynedd)

Enghraifft:

Mewn archwiliad, gwelwyd bod un anifail heb ei dagio yn unol â'r rheolau a hefyd nad oedd y ceidwad wedi dweud wrth y BCMS ei fod wedi symud anifail. Cafodd 18 o anifeiliaid eu harchwilio.

Dyma'r sgôr ar gyfer y tramgwyddau perthnasol:

Cod	Disgrifiad o'r Tramgwydd	Sgôr
FM	BCMS heb gael gwybod am symudiad o fewn 3 diwrnod	1.0
TG1	Heb ei dagio yn unol â'r rheolau	1.0

Dyma'r sgôr absoliwt:

$$\begin{array}{r} 1.0 \\ +1.0 \\ \hline \end{array} \quad \text{Sgôr absoliwt:} \quad 2.0$$

Cyfrifir y canran fel a ganlyn:

$$2.0 \text{ (sgôr absoliwt)} \div 18 \text{ (anifeiliaid gafodd eu harchwilio)} = 0.11$$

$$0.11 \times 100 = 11.11\%$$

Rhaid cymharu'r sgoriau hyn â'r safonau dilysadwy i bennu lefel y difrifoldeb. Yn yr enghraifft hon:

Sgôr absoliwt: 2.0 = Isel lawn

Canran: 11.11% = Isel

Defnyddir y lefel difrifoldeb uchaf i bennu lefel y gosb. Yn yr enghraifft hon, "isel" yw lefel y difrifoldeb.

SMR 8: Adnabod Defaid a Geifr

Amcan y gofynion hyn yw cynnal system ar gyfer adnabod a chofrestru defaid a geifr ar gyfer eu holrhain yn rhwydd, yn enwedig pe bai clefyd yn taro. Maen nhw'n berthnasol i chi os ydych chi'n cadw defaid neu eifr, hyd yn oed fel anifeiliaid anwes. Daeth deddf newydd i rym ar 31 Rhagfyr 2009 (Gorchymyn SAGRIMO (Cymru) 2009 sy'n ymwneud â chyflwyno tagiau electronig); ni fydd angen tag ychwanegol ar anifail gafodd ei dagio cyn y dyddiad hwn â thag Daliad Geni 'UK' â rhif unigol arno.

A1	<p>Rhaid i chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Dagio pob dafad a gafr yn gywir o fewn 6 mis ar ôl ei geni ar fferm ddwys a 9 mis ar fferm llai dwys, neu cyn iddi symud o'r daliad geni, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. ▪ Rhoi un tag lladd neu ddwy ddyfais adnabod union yr un fath ar anifeiliaid y bwriedir eu lladd mewn lladd-dy ym Mhrydain cyn eu bod yn 12 mis oed. Os byddwch yn cadw'r defaid a geifr ar ôl y 12 mis, yna rhaid rhoi dwy ddyfais adnabod yn lle'r tag lladd. Ar gyfer defaid, rhaid i un o'r dyfeisiau fod yn electronig. ▪ Rhoi dwy ddyfais adnabod ag union yr un fath ar ddefaid a geifr nad ydych yn bwriadu eu lladd ym Mhrydain cyn eu bod yn 12 mis oed neu os ydych yn bwriadu eu hallforio i drydedd wlad neu i wlad yn yr UE; os cawsant eu geni ar neu ar ôl 31 Rhagfyr 2009, rhaid i un o'r dyfeisiau fod yn electronig. <p>PWYSIG: caniateir y dyfeisiau canlynol: tagiau clust, bolws, marc pigwrn neu datw. Nid yw pob cyfuniad yn bosibl ar anifeiliaid i'w hallforio.</p>
----	--

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Nid yw'r defaid a/neu'r geifr erioed wedi cael eu tagio neu maen nhw wedi cael eu cam-dagio (h.y. yn groes i Reoliad y Cyngor/SAGRIMO))</p>	<p>Effaith ar y fferm: os ydy'r anifeiliaid heb adael y daliad neu Effaith oddi ar y fferm: os oes tystiolaeth bod anifeiliaid wedi gadael y fferm.</p>	<p>IseI: Absoliwt: hyd at a chan gynnwys 5 o'r anifeiliaid yn y sampl wedi cael eu cam-dagio neu erioed wedi cael eu tagio. Canran: hyd at a chan gynnwys 10% o'r anifeiliaid yn y sampl wedi cael eu cam-dagio neu erioed wedi cael eu tagio.</p> <p>Canolig: Absoliwt: Mwy na 5 a hyd at a chan gynnwys 10 o'r anifeiliaid yn y sampl wedi cael eu cam-dagio neu erioed wedi cael eu tagio. Canran: Mwy na 10% a hyd at a chan gynnwys 40% o'r anifeiliaid yn y sampl wedi cael eu cam-dagio neu erioed wedi cael eu tagio.</p> <p>Uchel: Absoliwt: Mwy na 10 o'r anifeiliaid yn y sampl wedi cael eu cam-dagio neu erioed wedi cael eu tagio.</p> <p>Canran: Mwy na 40% o'r anifeiliaid yn y sampl wedi cael eu cam-dagio neu erioed wedi cael eu tagio.</p> <p>(Pwysig: Y lefel difrifoldeb uchaf a welir yw'r un a ddefnyddir i gyfrif lefel y gosb)</p>	<p>Parhaol</p>

A2	<p>Rhaid i chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> Roi tag newydd yn lle tag sy'n cael ei golli neu sy'n annarllenadwy o fewn 28 diwrnod ar ôl sylwi bod y tag wedi'i golli neu'n annarllenadwy neu cyn i'r anifail adael y fferm, pa un bynnag ddaw gyntaf. <p>Rhaid ichi beidio â:</p> <ul style="list-style-type: none"> Newid, difetha na dileu unrhyw ddyfais adnabod a roddir ar anifail. Fe gewch chi roi rhagor o wybodaeth ar y tag cyn belled â bod dal modd darllen y marc diadell 'UK' neu rif adnabod unigol UK. 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r ffermwr wedi rhoi tag newydd ar ddefaid/geifr yn lle tag sydd wedi'i golli/annarllenadwy o fewn 28 diwrnod.	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig: Mae'r tagiau adnabod wedi'u colli; nid yw'r arolygydd yn fodlon bod gan y ffermwr bolisi cyfnewid tagiau na bod tagiau wedi'u harchebu (os oes angen) o fewn y 28 diwrnod neu, nid yw'r ceidwad wedi gallu cadarnhau ei fod wedi rhoi tag newydd yn lle'r un a gollwyd o fewn 28 diwrnod.	Parhaol
	Mae'r ddyfais adnabod wedi cael ei newid, ei difetha neu ei dileu ond nid er mwyn ei chyfnewid neu am ei bod yn annarllenadwy neu er lles yr anifail	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel: mae dyfais adnabod unrhyw anifail yn y sampl wedi cael ei difetha, ei newid neu ei dileu.	Parhaol

A3	<p>Rhaid i chi gadw cofnodion cyfoes ar gyfer pob daliad (os ydy'r defaid a geifr ar dir nad yw o dan eich rheolaeth neu fwy na 5 milltir o'ch prif ddaliad, ystyrir eu bod ar ddaliad ar wahân).</p> <p>Bydd y manylion canlynol ar eich cofnodion:</p> <ul style="list-style-type: none">▪ stocrestr (cyfrifiad) o'r anifeiliaid yr oeddech yn eu cadw ar 1 Ionawr;▪ manylion symud eich defaid a'ch geifr i'ch daliad ac o'ch daliad, gan gynnwys:<ul style="list-style-type: none">- dyddiad y symudiad;- nifer yr anifeiliaid sy'n symud;- cyfeiriad man cychwyn neu ben taith yr anifeiliaid;- enw'r cwmni cludo a rhif y cerbyd.▪ rhaid diweddarau cofnodion o fewn 36 awr ar ôl y symudiad, gan gynnwys croesgyfeirio'r anifeiliaid sydd wedi cael tagiau newydd. <p>Hefyd, Ac eithrio ar gyfer anifeiliaid a aned cyn 31 Rhagfyr 2009 sy'n cael eu symud yn syth i'w lladd, ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu geni ar neu ar ôl 31 Rhagfyr 2009, rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">▪ rhifau anifeiliaid unigol sydd wedi cael rhifau adnabod unigol ac yn achos grwpiau o anifeiliaid sydd wedi cael eu hadnabod â thag lladd sengl ac sy'n dod o ddaliadau geni gwahanol, nifer yr anifeiliaid sydd â phob rhif diadell/geifre.▪ y daliad geni, blwyddyn geni a dyddiad tagio▪ mis a blwyddyn marw anifail ar y daliad▪ brid yr anifail, a genoteip yr anifail os ydych yn ei wybod
----	--

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r cofnodion yn cael eu cadw yn unol â'r gofynion cyfreithiol (SAGRIMO)	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p>	<p>IseI: heb gadw cofnodion llawn am un symudiad neu lle bo'r tir yn ffinio</p> <p>a/neu</p> <p>Heb gofnodi hyd at a chan gynnwys 5 o anifeiliaid:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ adeg eu tagio gyntaf â'r tag electronig a/neu ▪ sydd wedi marw a/neu ▪ bod tagiau cyfnewid wedi'u rhoi ond y manylion heb eu cofnodi <p>Canolig: heb gadw cofnodion llawn mwy nag un a hyd at 5 symudiad i neu o'r daliad</p> <p>a/neu</p> <p>Heb gofnodi mwy na 5 o anifeiliaid:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ adeg eu tagio gyntaf â'r tag electronig a/neu ▪ sydd wedi marw a/neu ▪ bod tagiau cyfnewid wedi'u rhoi ond y manylion heb eu cofnodi <p>Uchel: heb gadw cofnodion mwy nag un symudiad, i neu o'r daliad, fwy nag unwaith</p>	<p>Modd ei gywiro</p> <p>Neu</p> <p>Barhaol</p>

	Nid oes stocrestr flynyddol o'r anifeiliaid wedi'i chadw ar gofnodion y fferm.	Effaith ar y fferm	Isel: os nad yw'r stocrestr wedi'i chofnodi erbyn 1 Chwefror.	Parhaol
	Nid yw nifer y anifeiliaid sy'n cael eu cyfrif a'r cofnodion symud, gan gynnwys cofnodion marwolaethau, yn gyson â'r stocrestr flynyddol. Nid oes esboniad rhesymol i'r gwahaniaeth.	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm: Os oes symudiadau anhysbys wedi cyfrannu at y gwahaniaeth a welwyd	Isel: hyd at a chan gynnwys 10% o'r ddiadell yn anghyson â'r stocrestr flynyddol Canolig: o 10% hyd at a chan gynnwys 40% o'r ddiadell yn anghyson â'r stocrestr flynyddol Uchel: mwy na 40% o'r ddiadell yn anghyson â'r stocrestr flynyddol.	Modd ei gywiro neu Barhaol
A4	<p>Rhaid i chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ gadw cofnodion cyfoes ar gyfer pob daliad (os ydy'r defaid a geifr ar dir nad yw o dan eich rheolaeth neu sy'n fwy na 5 milltir o'ch prif ddaliad, ystyrir eu bod ar ddaliad ar wahân). ▪ cadw'r cofnodion am dair blynedd neu ers sefydlu'r ddiadell/eifre. Pan fydd yr holl anifeiliaid yn gadael daliad, rhaid cadw'r cofnodion am 3 blynedd o'r dyddiad pan adawodd yr anifail olaf. ▪ gofalu bod cofnodion eich fferm ar gael i arolygydd sy'n gofyn amdany'n nhw eu gweld. ▪ 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Heb gadw cofnodion digonol a/neu ddim wedi dangos y cofnodion i arolygydd sy'n gofyn amdany'n nhw	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Parhaol

SMR 9: Clefydau Anifeiliaid - Atal a rheoli Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy – TSEs

Amcan y gofynion hyn yw lleihau peryglon rhai Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSEs) i iechyd pobl ac anifeiliaid. Byddant yn berthnasol i chi os ydych chi'n cadw anifeiliaid fferm				
A1	Peidiwch â rhoi protein o anifeiliaid, na phorthiant sy'n cynnwys protein o anifeiliaid, yn fwyd i anifeiliaid cnoi cil, ac eithrio'r canlynol (cyn belled â'u bod yn dod o ffynonellau priodol ac wedi cael eu prosesu yn unol â'r gofynion e.e. ni chaniateir gwastraff ceginau): <ul style="list-style-type: none"> ▪ llaeth, cynhyrchion llaeth a llaeth tor ▪ wyau a chynnyrch wyau ▪ gelatin o anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil ▪ protein wedi'i hydroleiddio o anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil neu o grwyn anifeiliaid cnoi cil ▪ llaeth hylif ffug sy'n cynnwys pysgod mâl ar gyfer anifeiliaid cnoi cil sydd heb eu diddyfnu, os yw wedi'i gofrestru 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Tystiolaeth bod y ffermwr yn rhoi protein o anifeiliaid neu gynnyrch sy'n cynnwys protein o anifeiliaid yn fwyd i anifeiliaid cnoi cil	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm: os ydy'r anifeiliaid sydd wedi cael protein neu gynnyrch anifeiliaid wedi gadael y fferm	Uchel	Parhaol
A2	Peidiwch â rhoi porthiant sy'n cynnwys proteinau gwaharddedig i unrhyw anifail fferm, na chymysgu proteinau gwaharddedig â'u porthiant			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Tystiolaeth bod y ffermwr yn rhoi proteinau gwaharddedig i anifeiliaid fferm, neu'n cymysgu proteinau gwaharddedig â phorthiant anifeiliaid Mae 'proteinau gwaharddedig' yn cynnwys gelatin o anifeiliaid cnoi cil a phrotein anifeiliaid wedi'i brosesu (fel cig ac esgyrn mâl o famaliaid, dofednod mâl, pluf mâl)	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm: os ydy'r anifeiliaid sydd wedi cael protein wedi gadael y fferm	Uchel	Parhaol

A3	Rhaid ichi beidio â defnyddio proteinau dan gyfyngiad i gynhyrchu porthiant i anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil oni bai'ch wedi cael caniatâd i wneud hynny gan awdurdod perthnasol.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae'r ffermwr yn cynhyrchu porthiant i anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil sy'n cynnwys proteinau dan gyfyngiad, heb ganiatâd yr awdurdod perthnasol</p> <p>Mae'r gofyn hwn yn berthnasol i bob fferm sy'n cynhyrchu porthiant gan ddefnyddio proteinau dan gyfyngiad</p> <p>Mae 'proteinau dan gyfyngiad' yn golygu proteinau anifeiliaid sy'n cael eu defnyddio yn unig i gynhyrchu porthiant i anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil: pysgod mâl; cynnyrch gwaed; gwaed mâl (i fwydo pysgod fferm); dicalsiwm ffosffad a tricalsiwm ffosffad o anifeiliaid</p>	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p>	<p>Isel: os nad yw'r ffermwr yn cadw anifeiliaid cnoi cil</p> <p>Canolig: os oes anifeiliaid cnoi cil yn bresennol a bod tystiolaeth eu bod wedi cael proteinau dan gyfyngiad</p>	<p>Modd ei gywiro</p> <p>neu</p> <p>Barhaol</p>
A4	Peidiwch â defnyddio porthiant sy'n cynnwys proteinau dan gyfyngiad ar fferm lle ceir anifeiliaid cnoi cil oni bai bod awdurdod perthnasol wedi'ch cofrestru.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Nid yw'r ffermwr wedi ymgofrestru/cael caniatâd i storio na defnyddio porthiant sy'n cynnwys proteinau dan gyfyngiad</p> <p>Pwysig: Mae hwn yn ofyn sy'n berthnasol i bob fferm lle cedwir anifeiliaid cnoi cil</p>	<p>Effaith ar y fferm</p>	<p>Isel: Os oes tystiolaeth nad oes anifeiliaid cnoi cil wedi dod i gysylltiad â phorthiant sy'n cynnwys proteinau dan gyfyngiad</p> <p>Canolig: Os oes tystiolaeth bod anifeiliaid cnoi cil wedi dod i gysylltiad â phorthiant sy'n cynnwys proteinau dan gyfyngiad</p>	<p>Modd ei gywiro</p> <p>neu</p> <p>Barhaol</p>

A5 A6	Peidiwch ag allforio o'r Deyrnas Unedig anifail o deulu'r gwartheg gafodd ei eni neu ei fagu yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996. Peidiwch â rhoi ar y farchnad nac allforio unrhyw gynnyrch sy'n cynnwys neu'n ymgorffori unrhyw ddeunydd (heblaw llaeth) sy'n dod o anifail o deulu'r gwartheg gafodd ei eni neu ei fagu yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r ffermwr wedi allforio anifail o deulu'r gwartheg gafodd ei eni neu ei fagu yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996	Effaith ar y fferm neu	High	Modd ei gywiro: os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail neu Barhaol
	Mae'r ffermwr wedi rhoi ar y farchnad neu allforio cynnyrch sy'n cynnwys neu'n ymgorffori deunydd (heblaw llaeth) sy'n dod o anifail o deulu'r gwartheg gafodd ei eni neu ei fagu yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996	Effaith oddi ar y fferm		
A7	Peidiwch â rhoi ar y farchnad nac allforio epil cenhedlaeth gyntaf, semen, ofa nac embryonau gwartheg, defaid na geifr (o unrhyw oed) heb gydymffurfio'n llwyr â'r gofyn am ddogfennau a'r cyfyngiadau sydd eu hangen i werthu neu allforio'r cynnyrch hynny			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r ffermwr wedi rhoi llo anifail â BSE ar y farchnad	Effaith ar y fferm neu	Uchel	Modd ei gywiro os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail neu Barhaol
	Mae'r ffermwr wedi rhoi ar y farchnad/allforio semen/embryo/ofa gwartheg, defaid neu eifr (o unrhyw oed) heb y drwydded gywir	Effaith oddi ar y fferm		

A8	Peidiwch â symud unrhyw wartheg a aned neu a fagwyd yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 o'u safle cofrestredig oni bai'ch bod wedi cael trwydded symud gan Ganolfan Gwasanaethau Arbenigol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yng Nghaerwrangon			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r ffermwr wedi symud gwartheg a aned neu a fagwyd yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 o'u safle cofrestredig heb drwydded symud gan Ganolfan Gwasanaethau Arbenigol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm: os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail	Uchel	Modd ei gywiro os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail neu Barhaol
B1	Rhaid ichi roi gwybod ar unwaith i Reolwr Milfeddygol Rhanbarthol eich swyddfa Iechyd Anifeiliaid Ranbarthol os ydych yn gwybod neu'n amau bod anifail neu garcas yn eich meddiant neu o dan eich rheolaeth wedi'i heintio â TSE.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r ffermwr wedi rhoi gwybod i'r Rheolwr Milfeddygol ei fod yn gwybod neu'n amau bod anifail neu garcas yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth wedi'i heintio â TSE	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm: os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail	Uchel	Modd ei gywiro: os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail

B2	Rhaid ichi gydymffurfio'n llwyr â'r			
B3	▪ cyfyngiadau symud			
B4	▪ gorchymyn i ladd a dinistrio anifail			
B5	▪ hysbysiad arall gan arolygydd			
	▪ ymchwiliad gan archwilydd i gael hyd i'r holl anifeiliaid sydd mewn perygl			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r ffermwr wedi cydymffurfio â chyfyngiad symud, gorchymyn i ladd/dinistrio anifail a/na hysbysiad arall gan archwilydd neu gorff gorfodi arall. Pwysig: Rhaid cyfyngu unrhyw wartheg a aned neu a fagwyd yn y Deyrnas Unedig cyn Awst 1996 i'w safle cofrestredig. Fodd bynnag, gall amgylchiadau eithriadol godi pan fydd yn rhaid ichi symud anifail. Bryd hynny, rhaid cysylltu â Chanolfan Gwasanaethau Arbenigol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yng Nghaerwrangon am drwydded symud a rhaid cael y drwydded cyn bod yr anifail yn cael ei symud o'r safle	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro: os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail neu Barhaol
	Nid yw'r ffermwr wedi cydymffurfio â chais gan archwiliwr i gael hyd i'r holl anifeiliaid sydd mewn perygl	Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm: os yw'r anifail sydd wedi'i heintio (neu o dan amheuaeth o fod wedi'i heintio) wedi symud o'r fferm	Uchel	Modd ei gywiro: os oes modd olrhain a difetha'r cynnyrch neu'r anifail neu Barhaol

SMR 10: Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion

Amcan y gofynion hyn yw sicrhau bod Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion (PPPs) yn cael eu defnyddio'n gywir, a gofalu nad ydyn nhw'n peryglu gwarchod pobl, anifeiliaid a'r amgylchedd. Bydd y gofynion hyn yn berthnasol ichi os ydych yn eu defnyddio ar eich tir.

Wrth gydymffurfio â'r SMR hwn, dylech nodi'r canlynol:

- a. Mae "cynnyrch amddiffyn planhigion" yn golygu sylwedd neu baratoad actif sy'n cynnwys un neu fwy o sylweddau actif yn y ffurf y mae wedi'i gyflenwi i'r defnyddiwr, ac mae wedi'i fwriadu ar gyfer:
 - Amddiffyn planhigion neu eu cynnyrch (e.e. cnydau, ffrwythau a hadau) rhag plâu a chlefydau
 - Difetha chwyn neu blanhigion diofyn amdanynt
 - Dylanwadu ar brosesau byw planhigion (e.e. fel rheolydd twf), ond nid fel maetholyn
 - Cadw cynnyrch planhigion ac eithrio lle ceir rheolau penodol gan yr CE ynghylch deunydd cadw neu
 - Dinistrio rhannau o blanhigion neu rwystro tyfiant chwyn
- b. Mae "sylwedd actif" yn golygu unrhyw sylwedd neu feicro-organedd, gan gynnwys feirysau, sy'n gweithredu mewn ffordd gyffredinol neu benodol yn erbyn organeddau niweidiol neu ar blanhigion, rhannau planhigion neu gynnyrch planhigion
- c. Mae manylion cynnyrch cymeradwy yn cael eu cofnodi i gyd o dan enwau plaladdwyr ar y Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cemegion (CRD)
- d. Mae "arfer da" o ran amddiffyn planhigion yn golygu bod y triniaethau â chynnyrch amddiffyn planhigion ar y cnwd dan sylw yn cael eu dewis, eu dosio a'u hamseru yn unol â'r amodau cymeradwy ar gyfer eu defnyddio, i sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf, o ystyried amodau lleol a'r posibiladau ar gyfer rheolaeth ffermwrol a biolegol
- e. Esbonnir arfer da o ran amddiffyn planhigion yng Nghod Ymarfer Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gyfer Defnyddio Cynnyrch Amddiffyn Planhigion (caiff y cod ei ddiweddarau yn 2015). Gweler y Cod Ymarfer statudol a wnaed o dan adran 17 Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985, adrannau 1, 2 a 6

Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan y Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cemegion yn www.pesticides.gov.uk

Mae gofynion o ran cadw cofnod o blaladdwyr. Maen nhw i'w gweld yn yr SMR 4: Bwyd a'r Gyfraith Bwyd

A1	Peidiwch â defnyddio PPP oni bai ei fod wedi cael ei gymeradwyo o dan ddeddfwriaeth berthnasol.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r ffermwr wedi defnyddio cynnyrch sydd heb ei awdurdodi a/neu gynnyrch y mae angen trwydded ar ei gyfer (ee cynnyrch y mae'r awdurdod ar ei gyfer wedi dod i ben, wedi'i ddirymu; cynnyrch wedi'i fewnforio nad oes trwydded i'w ddefnyddio yn y wlad hon neu fewnforion cyfatebol at ddefnydd personol lle nad oes label cyfatebol Saesneg ar gael yn y DU)	<p>Effaith ar y fferm neu Effaith oddi ar y fferm: lle bo'i ddefnyddio'n anghyfreithlon yn llygru'r amgylchedd neu'n gadael gweddillion mewn bwyd.</p> <p>Bydd effaith defnyddio cynnyrch anghyfreithlon yn dibynnu ar y cynnyrch ond gallai fod yn risg i iechyd pobl neu'r amgylchedd.</p>	Uchel	Parhaol

B1	Rhaid ichi ddefnyddio PPPs sydd wedi'u hawdurdodi neu eu caniatáu yn unol ag unrhyw ofyn neu amod sydd: <ul style="list-style-type: none"> - wedi'i nodi yn y gymeradwyaeth neu'r estyniad ar gyfer ei ddefnyddio - neu ar label y cynnyrch yn unol â'r awdurdod, y drwydded neu'r estyniad ar gyfer ei ddefnyddio 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae'r ffermwr wedi defnyddio cynnyrch y mae angen awdurdodiad a/ neu ganiatâd arno ac nid oes awdurdodiad neu ganiatâd dilys wedi'i roi gan y DU neu nid yw wedi cydymffurfio â'r holl ofynion neu amodau ar gyfer ei ddefnyddio neu ar gyfer estyn ei ddefnyddio e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Nid yw'r cynnyrch wedi'i ddefnyddio at y diben, y cnwd, y tir neu'r sefyllfa y cafodd awdurdod neu ganiatâd ar ei gyfer ▪ Nid yw'r dull gwasgaru a awdurdodwyd neu a ganiatawyd wedi'i ddefnyddio ▪ Mwy na'r uchafswm o ddosau/triniaethau a gymeradwyir wedi'i ddefnyddio ▪ Heb gadw at y dyddiadau gwasgaru/bwlch rhwng cynaeafau ▪ Heb gadw at y cyfyngiadau ar weithwyr/da byw ▪ Rhybuddion heb eu rhoi yn ôl y gofyn (e.e. i wenywyr neu'r cydgysylltydd gwenywyr) 	<p>Effaith ar y fferm</p> <p>neu</p> <p>Effaith oddi ar y fferm</p>	<p>Canolig: lle bo'r tramgwydd yn un technegol</p> <p>Uchel: lle gallai'r tramgwydd effeithio ar iechyd pobl neu'r amgylchedd</p>	<p>Parhaol</p>

SMR 11: Lles Anifeiliaid - Iloi

Amcan y gofynion hyn yw diogelu lles lloi trwy bennu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer eu cadw a gofalu amdanyn nhw. Os ydych yn cadw lloi, bydd yn rhaid ichi gadw at y safonau hyn yn ogystal â'r gofynion lles anifeiliaid fferm.				
Nodyn i'r archwilydd: Os gwelwch y geiriau 'modd ei gywiro neu barhaol', bydd pa un i'w ddewis yn dibynnu ar y tramgwydd yn erbyn yr anifail dan sylw. Os oes modd gwella amodau'r anifail, yna mae'n dramgwydd y mae modd ei gywiro. Lle nad oes modd lleihau poen neu ofid yr anifail e.e. anaf parhaol neu bod yn rhaid difa'r anifail, yna mae'n dramgwydd parhaol.				
Difrifoldeb: byddwn yn ei asesu fel a ganlyn:				
Canolig: tystiolaeth o dramgwydd nad yw wedi achosi poen, anaf, dioddefaint na gofid diangen i'r anifail				
Uchel: lle bo'r anifail wedi dioddef poen, anaf, dioddefaint neu ofid diangen				
A1	Rhaid archwilio pob llo sy'n cael ei gadw dan do o leiaf ddwywaith y dydd, a'r rheini sydd allan, o leiaf unwaith bob dydd.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid ydych yn archwilio'r lloi dan do ddwywaith y dydd	Effaith ar y fferm	Canolig: Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Nid ydych yn archwilio'r lloi allan unwaith bob dydd	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A2	Rhaid gofalu bod pob llo'n cael sefyll, troi, gorwedd, gorffwys a llyfu'i hun heb drafferth			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r llo yn gallu sefyll, troi, gorwedd, gorffwys na llyfu'i hun heb drafferth.	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A3 Peidiwch byth â chlymu'ch lloi				
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Lloi wedi'u clymu am resymau heblaw i roi llaeth/llaeth ffug i loi sy'n cael eu cadw mewn grŵp	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Y lloi wedi'i glymu am fwy nag awr wrth ei fwydo	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Mae'r tennyn yn rhwystro'r llo rhag gorwedd, gorffwys, sefyll a llyfu ei hun heb drafferth	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Mae'r tennyn wedi achosi poen neu anaf i'r llo	Effaith ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A4 Peidiwch â rhoi safnffrwyn ar eich llo				
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae safnffrwyn ar lo neu dystiolaeth bod un wedi'i rhoi ar lo.	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A5 Peidiwch â chadw llo dros 8 wythnos oed mewn lloc ar ei ben ei hun (oni bai bod angen ei ynysu i roi triniaeth iddo)				
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Lloi dros 8 wythnos oed yn cael eu cadw mewn llociau ar eu pennau eu hunain heb gyngor milfeddyg.	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A6	Rhaid gofalu bod stalau neu lociau unigol o'r hyd a'r lled gofynnol a bod tyllau yn eu hochrau fel bod y lloi yn gallu gweld ei gilydd a chyffwrdd â'i gilydd (ac eithrio lle caiff anifeiliaid sâl eu cadw ar wahân)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r lloc yn rhy fach - o ran ei hyd neu ei led.	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Does dim tyllau yn waliau'r lloc. Nid yw'r lloi felly'n gallu gweld ei gilydd na chyffwrdd â'i gilydd.	Effaith ar y fferm	Canolig	Modd ei gywiro
A7	Rhaid gofalu bod gan bob llo sy'n cael ei gadw mewn grŵp, ei lwfans gofynnol o lawr dirwyrstr			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Arwynebedd y llawr dirwyrstr yn rhy fach i ateb pwysau'r llo	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A8	Bydd y llawr ar gyfer lloi sy'n cael eu cadw dan do yn: llyfn, heb fod yn llithrig; wedi'i ddylunio i osgoi anaf neu ddiodefaint i'r llo wrth sefyll neu orwedd arno; yn addas ar gyfer maint a phwysau'r lloi; yn solid, gwastad a sefydlog			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r llawr: <ul style="list-style-type: none"> ▪ heb fod yn llyfn ▪ yn llithrig ▪ heb ei gynllunio i atal anaf neu ddiodefaint i loi wrth sefyll neu orwedd arno ▪ yn anaddas ar gyfer maint a phwysau'r lloi ▪ yn anwastad/ansefydlog ▪ i gyd yn slatiog 	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A9	Mae lloi dan do yn cael eu cadw mewn lle gorwedd sy'n lân, cyfforddus, wedi'i ddraenio'n dda ac arno sarn (deunydd gorwedd) sych i orwedd ynddo neu eu bod yn gallu mynd at le o'r fath.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r llo'n gallu mynd i le gorwedd sy'n lân, cyfforddus a/neu wedi'i ddraenio'n dda ac nad yw'n cael effaith ddrwg arno	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A10	Rhaid rhoi sarn (gwellt ac ati) addas o dan bob llo i orwedd arno			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Dim digon neu ddim sarn ar gyfer lloi neu ddim sarn addas	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A11	Ar gyfer lloi sy'n cael eu cadw mewn adeilad sy'n cael ei oleuo'n artiffisial, dylid darparu goleuni artiffisial am gyfnod sy'n cyfateb o leiaf i'r cyfnod o oleuni naturiol a geir rhwng 9am a 5pm.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Archwilydd yn gweld nad yw'r goleuni artiffisial a ddarperir rhwng 9am a 5pm. ar gyfer anifeiliaid dan do yn cyfateb i'r goleuni naturiol a geir yn y cyfnod hwn, neu'r ffermwr yn cyfaddef hynny	Effaith ar y fferm	Canolig	Modd ei gywiro
A12	Rhaid ichi lanhau a diheintio adeilad ac offer eich lloi; rhaid carthu tail, wrin a bwyd sydd heb ei fwyta cyn amled ag sydd ei angen i leihau'r drawdod a rhag denu clêr neu llygod.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Tystiolaeth nad yw'r drefn lanhau a diheintio'n ddigonol	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Nid yw'r tail, wrin na'r bwyd sydd heb ei fwyta yn cael eu carthu'n ddigon aml i beidio â denu clêr a llygod	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A13	Rhaid bwydo lloi diddwyn o leiaf ddwywaith y dydd			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r lloi yn cael eu bwydo o leiaf ddwywaith y dydd (os nad ydyn nhw'n cael bwydo'n rhydd)	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A14	Wrth fwydo lloi sy'n cael eu cadw mewn grŵp, gofalu fod pob llo naill ai: <ul style="list-style-type: none"> yn cael mynd at y bwyd yr un pryd â'r lleill sydd yn yr un grŵp bwydo yn cael mynd unrhyw bryd at fwyd yn cael ei fwyd trwy system fwydo awtomatig 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Ar gyfer systemau bwydo nad ydynt yn rhai rhydd neu os nad yw'r anifeiliaid yn cael eu bwydo bob yn un trwy system bwydo awtomatig, nid yw'r lloi'n cael mynd at y bwyd yr un pryd â'r lleill sydd yn yr un grŵp bwydo.	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A15	Rhaid gofalu bod gan eich lloi ddŵr yfed ffres bob amser pan fydd hi'n dwym neu pan fyddan nhw'n sâl			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid oes gan loi sâl gyflenwad didor o ddŵr Mae'r gofyn hwn yn ychwanegol at y gofyn cyffredinol yn SMR 13 i roi digon o ddŵr addas i anifeiliaid	Effaith ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Nid oes gan y lloi gyflenwad didor o ddŵr mewn tywydd twym Mae'r gofyn hwn yn ychwanegol at y gofyn cyffredinol yn SMR 13 i roi dŵr i anifeiliaid	Effaith ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A16	Rhaid gofalu bod lloi yn cael bwyd sydd â digon o haearn ynddo			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae anemia clinigol mewn lloi yn gysylltiedig â lefel haemoglobin o lai na <4.5 mmol/litr yn y gwaed	Effaith ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A17	Rhaid gofalu bod pob llo dros 2 wythnos oed yn cael y ddogn ofynnol o fwyd ffeibrog bob dydd			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Tystiolaeth bod dim neu ddim digon o fwyd ffeibrog yn cael ei roi (llai na 50g y dydd i loi 8 wythnos oed neu lai - llai na 250g y dydd i loi 20 wythnos oed)	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Nid oedd y ddeiet yn ystod yr archwiliad yn addas ar gyfer lloi	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A18	Rhaid i bob llo gael llaeth tor cyn gynted â phosibl ar ôl ei eni ac o fewn chwe awr cyntaf ei fywyd.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r hwsmon yn gofalu bod y llo yn cael llaeth tor yn ystod 6 awr cyntaf ei fywyd	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

SMR 12: Lles Anifeiliaid - moch

Amcan y gofynion hyn yw diogelu lles moch trwy bennu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer eu cadw a gofalu amdany'n nhw. Os ydych yn cadw moch, bydd yn rhaid ichi gadw at y safonau hyn yn ogystal â'r gofynion lles anifeiliaid fferm (SMR 13-Lles Cyffredinol Anifeiliaid).

Nodyn i'r archwilydd: Os gwelwch y geiriau 'modd ei gywiro neu barhaol', bydd pa un i'w ddewis yn dibynnu ar y tramgwydd yn erbyn yr anifail dan sylw. Os oes modd gwella amodau'r anifail, yna mae'n dramgwydd y mae modd ei gywiro. Lle nad oes modd lleihau poen neu ofid yr anifail, e.e. anaf parhaol neu fod yn rhaid difa'r anifail, yna mae'n dramgwydd parhaol.

Byddwn yn asesu difrifoldeb fel a ganlyn:

Canolig: tystiolaeth o dramgwydd nad yw wedi achosi poen, anaf, dioddefaint na gofid diangen i'r anifail

Uchel: lle bo'r anifail wedi dioddef poen, anaf, dioddefaint neu ofid diangen

A1	Rhaid ichi ofalu bod pob un o'ch moch yn gallu troi o gwmpas heb drafferth bob amser, hyd yn oed pan fyddant wedi'u clymu (lle caniateir hyn)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw pob mochyn yn gallu troi o gwmpas heb drafferth bob amser Yn ôl pob tebyg, y rheswm am y tramgwydd hwn yw bod y moch wedi'u clymu mewn ffordd anghywir neu ddiffygion yn eu lloc – nodir manylion y tramgwyddau hyn isod	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A2	Peidiwch byth â chlymu'ch moch			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Caiff y mochyn ei glymu heb fod angen (h.y. nid ar gyfer ei archwilio neu ei drin ar unwaith neu am ei fod wedi cael ei archwilio neu ei drin yn ddiweddar)</p> <p>Os mai at ddibenion milfeddygol y bydd y ffermwr yn clymu'r moch, ni fydd yn torri'r rheol hon. Os felly, rhaid archwilio unrhyw dennyn yn rheolaidd a'i addasu i sicrhau nad yw'n achosi poen neu anaf i'r mochyn a'i fod yn gallu gorwedd, gorffwys, sefyll a llyfu ei hun</p>	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Mae'r tennyn yn atal y mochyn rhag gorwedd, gorffwys, sefyll a llyfu ei hun heb drafferth	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Mae'r tennyn wedi achosi poen neu anaf i'r mochyn	Effaith ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A3	Rhaid gofalu bod lloc eich moch yn caniatáu iddynt: <ul style="list-style-type: none"> ▪ sefyll, gorwedd a gorffwys heb drafferth ▪ cael lle glân, cyfforddus a sych i orffwys arno (gan gynnwys sarn (gwellt ac ati) glân, sych na all wneud niwed i'r moch) ▪ gweld moch eraill (oni bai bod y mochyn wedi'i ynysu am resymau milfeddygol neu i eni perchyll) ▪ cadw tymheredd cyfforddus – ni ddylid cadw moch mewn tymheredd uchel/lleithder uchel a elwir yn 'system blwch chwysu' ▪ digon o le i bob un ohonynt allu gorwedd yr un pryd 			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r mochyn yn gallu sefyll a/neu orwedd a/neu orffwys heb drafferth	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Nid oes gan y mochyn le gorwedd glân a/neu gyfforddus a/neu ddigon sych i orffwys ynddo, neu nid yw eu sarn yn addas/cael ei gadw mewn cyflwr sy'n osgoi niwed/anghysur i'r moch	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Nid yw'r mochyn yn gallu gweld moch eraill (oni bai bod y mochyn wedi'i ynysu i eni perchyll neu am resymau milfeddygol)	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Nid yw'r mochyn mewn tymheredd cyfforddus; gan gynnwys ei gadw mewn system blwch chwysu	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Dim digon o le i'r moch i gyd orwedd yr un pryd	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A4	Rhaid ichi ofalu bod pob stâl neu loc unigol yn bodloni'r gofynion maint (mae yna eithriadau i hyn)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae arwynebedd y stâl/lloc yn llai na hyd y mochyn wedi'i luosi â'i hun; mae un o'r ochrau mewnol yn llai na 75% o hyd y mochyn</p> <p>Bydd hyd y mochyn yn cael ei fesur o flaen ei swch at fôn ei gynffon pan fydd yn sefyll â'i gefn yn syth</p> <p>Pwysig: caniateir yr eithriadau canlynol ac NI ystyrir bod y rhain yn tramgwyddo'r gofynion o ran maint lloc unigol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Lle cedwir hwch/banwes am y cyfnod o saith niwrnod cyn y diwrnod y disgwylir iddi eni ei pherchyll tan y diwrnod pan gaiff ei pherchyll (gan gynnwys unrhyw berchyll y mae'n eu mabwysiadu) eu diddyfnu ▪ Pan gedwir mochyn mewn stâl neu loc: <ul style="list-style-type: none"> - at ddibenion milfeddygol - at ddibenion rhoi baedd, ffrwythloni artiffisial neu gasglu semen <p>Pan gaiff ei fwydo:</p> <ul style="list-style-type: none"> - at ddibenion ei farcio, ei olchi neu ei bwyso - tra bo'i loc yn cael ei lanhau - wrth aros i gael ei lwytho i'w gludo i rywle arall <p>Fodd bynnag, ni ddylid cadw'r mochyn yn y fan hon yn hirach nag sy'n angenrheidiol i'r diben hwnnw</p> <p>Hefyd, nid yw'r gofynion ar gyfer maint stâl neu loc yn berthnasol os gall y mochyn fynd a dod fel y mynno. Os felly, rhaid i'r mochyn allu mynd i mewn i'r stâl o stâl neu loc arall lle cedwir y mochyn fel arfer ac sydd yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol</p>	<p>Effaith ar y fferm</p>	<p>Canolig neu Uchel</p>	<p>Modd ei gywiro neu Barhaol</p>

A5	Bydd y llawr ar gyfer moch sy'n cael eu cadw dan do yn: llyfn heb fod yn llithrig; addas ar gyfer maint a phwysau'r moch; solid, gwastad a sefydlog, os nad oes sarn; wedi'i gynllunio, ei adeiladu a'i gynnal i osgoi anaf neu ddiodefaint i'r moch wrth sefyll neu orwedd arno			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Nodir un o'r canlynol am y llawr:</p> <ul style="list-style-type: none"> - ddim yn llyfn - llithrig - anaddas ar gyfer maint a phwysau'r moch - anwastad / ansefydlog (pan nad oes sarn) - heb ei gynllunio, ei adeiladu neu ei gynnal i osgoi anaf neu ddiodefaint i foch wrth sefyll neu gorwedd arno 	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A6	Rhaid ichi ddarparu llawr â'r mesuriadau cywir (ar gyfer agoriadau a slatiau) os ydych yn defnyddio slatiau concrit. Mae hyn yn berthnasol i foch a gedwir mewn grwpiau ac os yw eich daliad newydd ei adeiladu, ei ailadeiladu neu y dechreuwyd ei ddefnyddio am y tro cyntaf ar ôl 1 Ionawr 2003. Bydd y rheolau hyn yn berthnasol i bob daliad o 1 Ionawr 2013.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae'r agoriadau yn rhy llydan rhwng y slatiau ar gyfer y categori o foch</p> <p>Dim ond os yw'r daliad newydd ei adeiladu, ei ailadeiladu neu y dechreuwyd ei ddefnyddio am y tro cyntaf ar ôl 1 Ionawr 2003 y mae'r gofyn hwn o ran y llawr yn berthnasol (bydd yn berthnasol i bob daliad o 1 Ionawr 2013)</p>	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

	Lled y slatiau yn rhy fach ar gyfer y categori o foch Dim ond os yw'r daliad newydd ei adeiladu, ei ailadeiladu neu y dechreuwyd ei ddefnyddio am y tro cyntaf ar ôl 1 Ionawr 2003 y mae'r gofyniad hwn o ran y llawr yn berthnasol (bydd yn berthnasol i bob daliad o 1 Ionawr 2013)	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A7	Rhaid ichi ddarparu golau artiffisial o 40 lux o leiaf am o leiaf 8 awr bob dydd, yn achos moch a gedwir mewn adeilad a oleuir yn artiffisial			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r golau a roddir i'r moch yn llai na 40 lux mewn adeiladau lle mae'r moch yn dibynnu ar oleuadau artiffisial	Effaith ar y fferm	Canolig	Modd ei gywiro
	Mae'r moch yn cael llai nag 8 awr o olau mewn adeiladau lle mae'r moch yn dibynnu ar oleuadau artiffisial	Effaith ar y fferm	Canolig	Modd ei gywiro
A8	Peidiwch â rhoi eich moch mewn sefyllfa lle y maent yn agored i sŵn cyson neu sydyn, na lefelau uwchlaw 85 desibel mewn unrhyw adeilad lle rydych yn cadw eich moch			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r moch yn agored i sŵn parhaus sy'n 85 desibel ac uwch	Effaith ar y fferm	Canolig	Modd ei gywiro
	Mae'r moch yn agored i synau uchel cyson neu sydyn y gellid yn rhesymol eu hosgoi neu eu lleihau	Effaith ar y fferm	Canolig	Modd ei gywiro

A9	Rhaid i bob mochyn allu mynd yn ddirwystr at gyflenwad digonol o ddeunydd fel gwellt, gwair, pren, blawd llif, compost madarch, mawn neu gymysgedd o ddeunyddiau o'r fath, i allu twrio a chwilio ynddo, heb amharu ar ei iechyd.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Dim deunydd ar gael i'r mochyn allu twrio a chwilio ynddo neu dim digon ohono	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Deunydd sy'n wael i iechyd y moch	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A10	Os ydych yn cadw eich moch gyda'i gilydd, rhaid ichi gymryd camau i'w hatal rhag ymladd y tu hwnt i'r arfer, gan gadw'r moch hynny sy'n ymosodol yn barhaus neu sy'n dioddef yn sgil yr ymosodedd hwnnw ar wahân			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Camau annigonol i leihau ymosodedd mewn grwpiau moch	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Peidio ag ynysu moch sy'n gyson ymosodol, neu eu dioddefwyr, oddi wrth weddill y grŵp	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A11	Wrth fwydo moch sy'n cael eu cadw mewn grŵp dan do, rhaid i bob mochyn gael mynd at y bwyd yr un pryd â'r lleill sydd yn y grŵp bwydo; cael mynd unrhyw bryd at y bwyd; cael eu bwyd trwy system fwydo awtomatig			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Ar gyfer systemau bwydo nad ydynt yn rhydd, neu os nad yw'r anifeiliaid yn cael eu bwydo bob yn un drwy system fwydo awtomatig, nid yw'r moch yn cael mynd at y bwyd yr un pryd â'r lleill sydd yn y grŵp bwydo Mae yna ofynion penodol ar gyfer hychod a banwesi. Nodir y rhain nes ymlaen	Effaith ar y fferm	Canolig	Modd ei gywiro

A12	Rhaid gofalu bod cyflenwad digonol di-dor o ddŵr yfed ffres ar gyfer pob mochyn dros 2 wythnos oed bob dydd			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw moch dros 2 wythnos oed wedi bod yn cael cyflenwad digonol di-dor o ddŵr yfed ffres Mae'r gofyn hwn yn ychwanegol at y gofyn cyffredinol i roi digon o ddŵr addas i anifeiliaid yn yr SMR 13	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Perchyll			
B1	Rhaid darparu ffynhonnell gwres a man gorwedd sych a chysurus i'r perchyll, i ffwrdd oddi wrth yr hwch lle gall pob un ohonynt orffwys yr un pryd			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Ni ddarparwyd ffynhonnell gwres a man gorwedd sych a chysurus i'r perchyll, i ffwrdd oddi wrth yr hwch lle gall pob un ohonynt orffwys yr un pryd (lle ystyrir bod angen hynny er mwyn bodloni'r holl ofynion)	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
B2	Rhaid i ran o arwynebedd y llawr lle cedwir y perchyll fod yn ddigon mawr i ganiatáu i'r anifeiliaid orffwys gyda'i gilydd yr un pryd a rhaid iddo fod yn solid ac o dan orchudd mat neu wellt neu ddeunydd addas arall			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Dim lle neu dim digon o le o dan orchudd mat neu wellt neu ddeunydd addas arall, i ganiatáu i'r perchyll orwedd gyda'i gilydd yr un pryd	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

B3	Pan ddefnyddir lloc porchella, rhaid bod gan y perchyll ddigon o le i allu sugno heb drafferth			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid oes digon o le i'r perchyll allu sugno heb drafferth	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
B4	Rhaid peidio â diddyfnu perchyll sy'n llai nag 28 diwrnod oed (oni fyddai peidio â gwneud hynny yn andwyol i les neu iechyd yr hwch neu'r perchyll). Caniateir diddyfnu perchyll hyd at saith diwrnod ynghynt os symudir hwy i lety arbenigol y byddwch yn ei wagio, ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr cyn cymryd grŵp newydd i mewn, ac sydd ar wahân i adeiladau lle y cedwir hychod eraill			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Diddyfnu perchyll pan fyddant yn iau nag 28 diwrnod oed, heb gyfiawnhad rhesymol mewn perthynas â iechyd yr hwch a/neu'r perchyll nac ar sail lles A lle nad oes llety arbenigol priodol i ddiddyfnu perchyll yn gynnar	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Mae yna lety arbenigol ar gyfer perchyll a ddiddyfnir yn gynnar, ond ni chaiff ei wagio, ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr cyn cymryd grŵp newydd i mewn a/neu nid yw ar wahân i'r adeiladau lle y cedwir hychod	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

Hychod a Banwesi				
C1	Rhaid ichi drin banwesi a hychod torrog rhag paraseitiaid mewnlol ac allanol, os oes angen			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r hychod a/neu'r banwesi wedi'u trin, pan oedd angen, rhag paraseitiaid mewnlol ac allanol (baich paraseitiaid annerbyniol)	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
C2	Cyn eu rhoi mewn lloc porchella, rhaid i hychod a banwesi torrog gael eu glanhau'n drylwyr			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Tystiolaeth a/neu gyfaddefiad gan ffermwr nad yw ei hychod a/neu ei fanwesi yn cael eu glanhau cyn eu rhoi mewn llociau porchella	Effaith ar y fferm	Canolig	Modd ei gywiro
C3	Yn yr wythnos cyn y disgwylir iddynt eni perchyll, rhaid rhoi digon o ddeunydd nythu addas i hychod a banwesi (onid yw'n dechnegol anymarferol oherwydd y system slyri sy'n cael ei defnyddio)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Dim digon o ddeunydd nythu addas ar gyfer hychod a/neu fanwesi wythnos cyn iddynt borchella, lle mae'n rhesymol bosibl darparu deunydd o'r fath	Effaith ar y fferm	Canolig	Modd ei gywiro
C4	Rhaid cadw hychod a banwesi mewn grwpiau (ac eithrio yn ystod y cyfnod rhwng saith niwrnod cyn diwrnod disgwyl geni'r perchyll a'r diwrnod y caiff y perchyll eu diddyfnu). Caniateir peidio â chadw hychod a banwesi mewn grwpiau os oes llai na 10 hwch ar y daliad, cyn belled â bod y llociau unigol yn cydymffurfio â'r gofynion cyffredinol ar gyfer llociau moch.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Caiff yr hychod a'r banwesi eu cadw ar eu pen eu hunain ar wahân i'r cyfnod rhwng 7 diwrnod cyn porchella a diwrnod cwblhau diddyfnu'r perchyll. Caniateir cadw hychod a banwesi ar ddaliadau o lai na 10 hwch mewn llociau unigol cyn belled â bod eu llociau'n cydymffurfio â'r gofynion cyffredinol ar gyfer llociau moch.	Effaith ar y fferm	Canolig neu Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

C5	Rhaid ichi sicrhau bod gan bob banwes/hwch sy'n cael ei chadw mewn grŵp yr arwynebedd llawr dirwystr, y llawr solid di-dor a llociau o'r dimensiynau cywir, sy'n ofynnol arni ar ôl cael baedd. Mae hyn yn berthnasol i bob daliad o 1 Ionawr 2013.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Dim digon o lawr dirwystr i'r banwesi a/neu'r hychod ar ôl cael baedd	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Dim digon o lawr di-dor i'r banwesi a/neu'r hychod ar ôl cael baedd	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Hyd y lloc yn llai na 2.8m (neu yn llai na 2.4m lle mae llai na 6 mochyn)	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
C6	Yn ystod amser geni perchyll, rhaid bod lle dirwystr y tu ôl i'r hwch neu'r fanwes			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Dim lle dirwystr y tu ôl i'r hwch neu'r fanwes i hwyluso geni'r perchyll yn naturiol neu gyda chymorth	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
C7	Mewn llociau porchella lle cedwir hychod yn rhydd, rhaid wrth fodd i amddiffyn y perchyll, megis rheiliau porchella			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Pan gedwir hychod yn rhydd mewn llociau porchella, nid yw'r perchyll yn cael eu hamddiffyn mewn unrhyw ffordd (e.e. rheiliau porchella)	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

C8	Rhaid i hychod a banwesi gael eu bwydo drwy ddefnyddio system sy'n sicrhau bod pob mochyn yn cael digon o fwyd, hyd yn oed pan fydd moch eraill yn cystadlu am y bwyd			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r hychod a'r banwesi a gedwir mewn grwpiau yn cael eu bwydo drwy system sy'n gofalu bod pob mochyn yn cael digon o fwyd pan fydd moch eraill yn cystadlu am y bwyd	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
C9	Rhaid rhoi i bob hwch a banwes dorrog hesb ddigon o swmpfwd neu fwyd ffibr uchel yn ogystal â bwyd ynni uchel i ddigoni eu chwant bwyd a'u hangen i gnoi			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw hychod neu fanwesi torrog hesb yn cael digon o swmpfwyd neu fwyd ffibr uchel	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Baeddod			
D1	Rhaid i loc baedd ganiatáu i'r baedd droi a chlywed, gweld ac aroglu moch eraill			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Baedd yn methu â throi yn ei loc	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Baedd yn methu â chlywed a/neu weld a/neu aroglu moch eraill	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

D2	Rhaid i'r man gorffwys yn lloc y baedd fod yn lân ac i'r man gorwedd fod yn sych ac yn gysurus			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Lloc baedd heb fannau gorffwys glân a man gorwedd sych a chysurus	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
D3	Rhaid gofalu bod pob baedd yn cael yr arwynebedd llawr dirwystr gofynnol			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Lloc, na chaiff ei ddefnyddio ar gyfer serfio naturiol, sy'n llai na 6m ²	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Lloc, sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer serfio naturiol, sy'n llai na 10m ²	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Rhwystrau mewn lloc, sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer serfio naturiol	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
Perchyll diddwyn a moch magu				
E1	Rhaid gofalu bod gan bob porchell diddwyn neu fochyn magu yr arwynebedd llawr dirwystr gofynnol pan gânt eu cadw mewn grwpiau			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Dim digon o arwynebedd llawr i'r perchyll diddwyn neu'r moch magu yn ôl asesiad yr archwilydd	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

E2	Rhaid rhoi moch mewn grwpiau cyn gynted â phosibl ar ôl eu diddyfnu. Rhaid cadw'r grwpiau hyn yn sefydlog, gyda chyn lleied â phosibl o gymysgu			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Moch wedi'u cymysgu ar oed neu amser amhriodol, heb fod hynny'n eu hatal rhag ymladd y tu hwnt i'r arfer	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
E3	Os oes rhaid cymysgu moch, rhaid rhoi digon o gyfleoedd iddynt ddianc a chuddio rhag moch anghyfarwydd. Dylid gwneud hynny pan fyddant mor ifanc â phosibl - o ddewis cyn neu hyd at un wythnos ar ôl eu diddyfnu			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Lle cymysgir moch, nid oes digon o gyfle i foch ddianc a chuddio rhag moch eraill	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
E4	Dim ond o dan amodau eithriadol y dylid defnyddio meddyginiaeth dawelu er mwyn hwyluso cymysgu a hynny dim ond ar ôl ymgynghori â milfeddyg			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Defnyddio meddyginiaeth dawelu er mwyn hwyluso cymysgu lle nad oes amodau eithriadol a heb ymgynghori â milfeddyg, neu'n groes i'w gyngor	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

SMR 13: Lles Anifeiliaid (Cyffredinol)

Amcan y gofynion hyn yw diogelu lles anifeiliaid fferm trwy bennu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer eu cadw a gofalu amdanyn nhw. Rhaid ichi gadw at y safonau hyn os ydych chi'n cadw anifeiliaid at ddiben eu ffermio.

Nodyn i'r archwilydd: Os gwelwch y geiriau 'modd ei gywiro neu barhaol', bydd pa un i'w ddewis yn dibynnu ar y tramgwydd yn erbyn yr anifail dan sylw. Os oes modd gwella amodau'r anifail, yna mae'n dramgwydd y mae modd ei gywiro. Lle nad oes modd lleihau poen neu ofid yr anifail e.e. anaf parhaol neu bod yn rhaid difa'r anifail, yna mae'n dramgwydd parhaol.

Byddwn yn asesu difrifoldeb fel a ganlyn:

Canolig: tystiolaeth o dramgwydd nad yw wedi achosi poen, anaf, dioddefaint a gofid diangen i'r anifail

Uchel: lle bo'r anifail wedi dioddef poen, anaf, dioddefaint neu ofid diangen

A1	Rhaid sicrhau bod gennych ddigon o staff sydd â'r galluoedd a'r wybodaeth briodol i ofalu am eich anifeiliaid.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae nifer y staff yn rhy fach i rwystro problemau lles	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Tystiolaeth nad oes gan y stocmon y sgiliau proffesiynol na/neu'r gallu i ofalu am dda byw - gallu nad oes amod yn yr atodlen yn ymdrin ag ef Er enghraifft: 1. Lle cedwir anifail (heblaw dofednod) dan do, nad yw'n gallu mynd at le gorwedd sydd â naill ai digon o sarn (gwellt ac ati) sych arno neu sydd wedi'i ddraenio'n dda 2. Lle cedwir anifail dan do lle mae ei sarn ac ati yn cyfyngu ar ei symudiadau ond heb achosi dioddefaint diangen Lle datgelir dioddefaint diangen yn enghraifft 2, dylid cofnodi'r tramgwydd o dan B1 (rhyddid i symud)	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A2	Os yw eich system hwsmona yn dibynnu ar roi sylw rheolaidd i'r anifail, rhaid ichi archwilio'r anifail yn drylwyr o leiaf unwaith bob dydd, ac mewn systemau eraill, mor aml ag sydd ei angen i osgoi dioddefaint.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r da byw yn cael eu harchwilio'n ddigon aml Mae gofynion penodol mewn cysylltiad â lloi yn SMR11: Lles Lloi (gofyn A1)	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A3	Rhaid ichi sicrhau bod digon o olau ichi allu cynnal archwiliad trylwyr bob amser			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid oes digon o olau i allu archwilio'r anifeiliaid Dim digon neu dim golau sefydlog na chcludadwy ichi allu archwilio'ch anifeiliaid	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A4	Rhaid rhoi gofal i anifeiliaid sâl neu sydd wedi'u hanafu ar unwaith, ac os nad ydyn nhw'n ymateb i'r gofal hwn, rhaid cysylltu â milfeddyg			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw anifeiliaid wedi cael y gofal priodol, gan gynnwys cyngor milfeddyg. Bu oedi annerbyniol cyn rhoi gofal i anifail sâl (gallai'r asesiad hwn ddibynnu ar farn bersonol yr archwilydd o ba mor aml y dylai anifail gael ei archwilio) Nid yw'r stocmon wedi cysylltu â'r milfeddyg ac mae'r archwilydd yn teimlo y byddai unrhyw stocmon cymwys wedi cysylltu	Effaith ar y fferm Effaith oddi ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A5	Rhaid ynysu anifail sâl neu sydd wedi'i anafu mewn lle addas gyda sarn cyfforddus sych ar ei gyfer, os oes angen			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r anifail wedi'i ynysu er bod yr arolygydd o'r farn ar ddiwrnod yr archwiliad bod angen ei ynysu a'i roi mewn lle addas gyda sarn (gwelld ac ati) sych a chyfforddus ar ei gyfer.	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Nid yw'r man ynysu yn addas (o ystyried anafiadau/salwch yr anifail)	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A6	Rhaid cadw cofnod o unrhyw foddion sy'n cael eu rhoi i'ch anifeiliaid a rhaid cadw'r cofnodion am o leiaf 3 blynedd o ddyddiad y driniaeth. Rhaid gofalu bod y cofnodion hyn ar gael i archwilydd eu harchwilio (neu pan ofynnir amdany'n nhw)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae cofnodion o foddion yn anghyflawn/anghywir a/neu nid ydynt ar gael ar gyfer y 3 blynedd blaenorol neu ni chânt eu cyflwyno pan ofynnir amdanynt</p> <p>Bydd y ffermwr yn tramgwyddo os bydd un neu ragor o'r pwyntiau canlynol yn wir mewn perthynas â chofnodion o foddion:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ ni chedwir cofnodion neu nid ydynt ar gael adeg yr archwiliad ▪ cedwir cofnodion ond maent yn anghywir neu mae gwybodaeth ar goll ▪ ni chadwyd cofnodion am y cyfnod amser gofynnol o ddyddiad y driniaeth <p>Mae cofnodion moddion yn cael eu cadw ond nid ydynt yn cyfateb i'r cynnyrch/anfonebau milfeddygon/anifeiliaid oedd yn cael triniaeth ar y fferm pan gynhaliwyd yr archwiliad (h.y. mae'r cofnodion yn annigonol neu'n anghywir)</p>	Effaith ar y fferm	Isel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A7	Rhaid ichi greu cofnod o nifer yr anifeiliaid sydd wedi marw pan gynhelir archwiliad, a chadw'r cofnodion hyn am o leiaf 3 blynedd o ddyddiad yr archwiliad perthnasol, gan ofalu bod y cofnodion hyn ar gael i archwilydd (neu pan ofynnir amdany'n nhw)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae'r cofnodion marwolaethau'n anghyflawn/anghywir a/neu ddim ar gael am y 3 blynedd diwethaf neu ni chânt eu cyflwyno pan ofynnir amdanynt</p> <p>Bydd y ffermwr yn tramgwyddo os bydd un neu ragor o'r pwyntiau canlynol yn wir mewn perthynas â marwolaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ ni chedwir cofnodion neu nid ydynt ar gael i'r arolygydd adeg yr archwiliad ▪ cedwir cofnodion ond maent yn anghywir neu mae ▪ gwybodaeth ar goll ▪ ni chadwyd cofnod o nifer y marwolaethau ar gyfer ▪ y cyfnod amser gofynnol o ddyddiad yr archwiliad perthnasol <p>Ni chedwir cofnodion marwolaethau/Mae cofnodion marwolaethau'n cael eu cadw ond nid ydynt yn cyfateb i'r dystiolaeth a gafwyd ar y fferm, ee carcasau a/neu wybodaeth ar gronfa ddata berthnasol</p>	Effaith ar y fferm	Isel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A8	Rhaid ichi beidio â chyfyngu ar symudiadau'ch anifeiliaid os gallai hynny achosi dioddefaint neu anaf diangen			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae'r anifail wedi dioddef neu gael anaf yn ddiangen am ichi gyfyngu ar ei symudiadau</p> <p>Pwysig: Lle cedwir anifail dan do lle mae ei sarn ac ati yn cyfyngu ar ei symudiadau ond heb achosi dioddefaint diangen, dylid cofnodi'r tramgwydd o dan A2</p>	Effaith ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A9	Rhaid i anifail sydd wedi'i glymu neu ei gaethiwo trwy'r amser neu'n rheolaidd gael digon o le rhag dioddef stres diangen a rhaid iddo allu hefyd ymddwyn yn naturiol yn unol â'r wybodaeth wyddonol a phrofiad cyffredin.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae clymu neu gaethiwo'r anifail yn achosi dioddefaint neu anaf diangen iddo Mae gofynion penodol o ran clymu lloi yn SMR 11 Lles Lloi a moch yn SMR 12 Lles Moch	Effaith ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A10	Rhaid ichi beidio â defnyddio deunydd a/neu offer ar gyfer adeilad yr anifail allai niweidio'r anifail.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae deunydd niweidiol wedi'i ddefnyddio i adeiladu cytiau, llociau a/neu offer	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A11	Rhaid bod modd glanhau a diheintio'r deunydd rydych chi'n ei ddefnyddio ar gyfer adeilad yr anifail			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r deunydd sydd wedi'i ddefnyddio yn golygu nad oes modd glanhau a diheintio'r adeilad	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A12	Wrth adeiladu a chynnal a chadw'r adeilad, rhaid gofalu nad oes ymylon na darnau miniog sy'n gallu anafu'r anifail.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Ymylon a darnau miniog yn adeilad yr anifail yn debygol o'i anafu	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A13	Rhaid i gylchrediad aer, lefelau llwch, tymheredd, lleithder aer cymharol a chrynodiadau nwy gael eu cadw o fewn terfynau nad ydynt yn niweidiol i anifeiliaid.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Cylchrediad yr aer, lefel y llwch, nwy, tymheredd neu leithder yr aer, gyda'i gilydd neu fel arall, yn niweidiol i anifeiliaid.	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A14	Rhaid darparu goleuni artiffisial os nad oes digon o oleuni naturiol yn yr adeilad			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid oes goleuni artiffisial wedi'i ddarparu pan nad oes digon o oleuni naturiol at anghenion ffisiolegol ac etholegol yr anifail	Effaith ar y fferm	Canolig	Modd ei gywiro
A15	Rhaid ichi beidio â chadw anifeiliaid mewn tywyllwch parhaol na chwaith heb seibiant rhag goleuni artiffisial			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r anifeiliaid yn cael eu cadw mewn tywyllwch parhaol	Effaith ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro
	Mae gofynion penodol mewn cysylltiad â lloi yn SMR 11 Lles Lloi a moch yn SMR 12 Lles Moch			
	Nid yw'r anifeiliaid yn cael seibiant rhag goleuni artiffisial	Effaith ar y fferm	Uchel	Modd ei gywiro
	Mae gofynion penodol mewn cysylltiad â lloi yn SMR 11 Lles Lloi a moch yn SMR 12 Lles Moch			
A16	Rhaid sicrhau bod gan eich anifeiliaid lle sydd wedi'i ddraenio'n dda bob amser i fynd iddo i orwedd os nad ydych yn eu cadw dan do, ac os oes angen, dylai fod lloches iddynt rhag tywydd cas, anifeiliaid ysglyfaethus a pheryglon i'w hiechyd			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Tystiolaeth nad oes lle wedi'i ddraenio'n dda ar gyfer eich stoc nad ydych yn eu cadw dan do	Effaith ar y fferm	Canolig	Modd ei gywiro
			Uchel	neu Barhaol
	Nid yw'r anifeiliaid sydd allan yn cael eu diogelu rhag tywydd cas, anifeiliaid ysglyfaethus na/neu beryglon eraill i'w hiechyd	Effaith ar y fferm	Canolig	Modd ei gywiro
			Uchel	neu Barhaol

A17	Rhaid ichi archwilio peiriannau ac offer mecanyddol sy'n hanfodol i iechyd a lles eich anifeiliaid o leiaf unwaith bob dydd a chywiro unrhyw namau ar unwaith (neu gymryd camau priodol i ddiogelu iechyd a lles eich anifeiliaid tan fod y nam yn cael ei gywiro)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r peiriannau neu'r offer sydd eu hangen i ddiogelu iechyd a lles yr anifeiliaid yn cael eu harchwilio o leiaf unwaith bob dydd.	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Cafwyd bod namau ar y peiriannau neu'r offer sy'n hanfodol i iechyd a lles ac nid yw'r ffermwr wedi cymryd y camau priodol	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A18	Rhaid ichi ddarparu system wrth gefn i'ch prif system os yw iechyd a lles eich anifeiliaid yn dibynnu ar awyru artiffisial, a rhaid wrth larwm i'ch rhybuddio pan fydd diffyg yn y system awyru. Rhaid eu harchwilio a'u profi o leiaf unwaith bob 7 niwrnod.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Diffyg system wrth gefn a/neu larwm	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Diffyg tystiolaeth ac ymateb y stocmon yn awgrymu nad yw'r system wrth gefn na/neu'r larwm yn cael eu harchwilio o leiaf unwaith bob 7 niwrnod.	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Mae'r larwm a/neu'r system wrth gefn yn bresennol ond nid oeddent yn gweithio pan gawsant eu gweld (h.y. nam ar y system)	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A19	Rhaid rhoi deiet faethlon i'ch anifeiliaid a sicrhau eu bod yn cael bwyd pan fydd ei angen arnynt (o leiaf unwaith bob dydd)			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r bwyd sydd ar gael yn faethlon a/neu nid yw'n addas ar gyfer oed a rhywogaeth yr anifeiliaid sy'n cael eu harchwilio.	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Nid yw'r bwyd yn cynnal iechyd da nac yn ateb y gofyn am faeth	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Mae'r anifeiliaid yn cael eu bwydo lai nag unwaith bob dydd a/neu nid yw'r bwyd yn diwallu eu hanghenion corfforol. Ni wneir hyn ar gyngor milfeddyg. Mae gofynion penodol mewn cysylltiad â lloi yn SMR 11 Lles Lloi.	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A20	Rhaid ichi sicrhau bod gan bob anifail gyflenwad addas o ddŵr a digon o ddŵr yfed ffres neu hylif arall bob dydd			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Dim neu dim digon o ddŵr (neu hylif addas arall) - nid yw'r anifail yn cael diwallu ei angen am hylif	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A21	Rhaid ichi beidio â rhoi bwyd na diod i'ch anifeiliaid mewn ffordd neu sy'n cynnwys sylwedd, allai achosi niwed diangen iddyn nhw			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r anifeiliaid wedi cael bwyd/diod allai roi poen neu anaf heb angen iddynt.	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A22	Rhaid ichi ddiogelu'r bwyd a dŵr rhag eu llygru a diogelu'ch anifeiliaid rhag effeithiau drwg gorfod cystadlu am fwyd a dŵr ag anifeiliaid eraill trwy ddylunio a lleoli'ch offer bwydo a dyrhau'n iawn			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Bwyd a/neu ddŵr yn cael ei lygru oherwydd dyluniad, adeiladwaith neu leoliad yr offer	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Gweld cystadleuaeth niweidiol/gormodol rhwng anifeiliaid am fwyd a/neu ddŵr	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A23	Rhaid ichi beidio â rhoi unrhyw sylwedd sy'n niweidiol i'ch anifeiliaid, oni bai bod eich milfeddyg yn eich cyngori i'w roi			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Triniaeth ddirwydded wedi'i rhoi i'r anifeiliaid.	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
	Rhoi triniaeth nad yw'n cael ei hystyried yn therapi derbyniol ar gyfer y cyflwr hwnnw yn y rhywogaeth honno	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

A24	Rhaid peidio ag anffurfio'ch anifeiliaid nac ymyrryd ynddyn nhw oni bod y driniaeth honno'n 'driniaeth a ganiateir'. (Mae amodau wrth lawer o'r rhain, e.e. rhaid bod cyfiawnhad rhesymol dros ei chynnal a bod y driniaeth yn 'obaith olaf')			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae'r anifail wedi'i anffurfio fel rhan o driniaeth nad oedd wedi'i chaniatáu Bydd hyn yn dramgwydd bwriadol	Effaith ar y fferm	Uchel	Parhaol
	Mae triniaeth a ganiateir wedi'i chynnal ond nid gan filfeddyg neu berson profiadol /wedi'i hyfforddi, yn unol â'r gyfraith. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys torri cynffonnau defaid lle nad oes dioddefaint diangen	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Parhaol
	Mae triniaeth a ganiateir ag iddi amodau penodol wedi'i chynnal ond nid yw'r amodau hynny wedi'u bodloni e.e. <ul style="list-style-type: none"> ▪ Yr angen am anesthetig ▪ Oed ▪ Dull cynnal y driniaeth ▪ Dim ond milfeddyg sy'n cael rhoi'r driniaeth ▪ Y driniaeth yw'r gobaith olaf ▪ Rhoi'r driniaeth ar adeg briodol o'r cylch magu Gallai cynnal triniaeth sy'n cael ei chaniatáu, mewn ffordd anghyfreithlon fod yn dramgwydd bwriadol	Effaith ar y fferm	Uchel	Parhaol

A25	Peidiwch â dilyn trefniadau bridio (boed naturiol neu artiffisial) sy'n rhoi neu sy'n debygol o niweidio'ch anifeiliaid			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae tystiolaeth bod trefniadau bridio wedi'u cynnal sy'n debygol o roi neu wedi rhoi poen neu anaf i anifeiliaid.	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol
A26	Peidiwch â chadw anifeiliaid at bwrpas eu ffermio oni bai y gellid disgwyl yn rhesymol y bydd nodweddion arferol y brid (genetig a chorfforol) yn golygu y bydd modd eu cadw heb niweidio'u hiechyd na'u lles			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae gan yr anifeiliaid sy'n cael eu cadw at bwrpas eu ffermio enoteip neu ffenoteip fyddai'n debygol o achosi niwed i'w hiechyd neu eu lles	Effaith ar y fferm	Canolig Uchel	Modd ei gywiro neu Barhaol

GAEC 1: Dŵr - Sefydlu Lleiniau Clustogi

Amcan y gofynion hyn yw diogelu dŵr wyneb rhag cael ei lygru gan wrtaith a chynhyrchion amddiffyn planhigion trwy greu lleiniau clustogi. Mae gofyn cynnal y safon hon ar bob tir amaethyddol yng Nghymru, waeth beth yw maint y cae neu'r parcel, a waeth a yw'r tir mewn Parth Perygl Nitradau ai peidio.

Mae "dŵr wyneb" yn cynnwys dŵr yr arfordir, aberoedd, camlesi, llynnoedd, pyllau dŵr, afonydd, nentydd a ffosydd sydd â dŵr ynddynt sy'n llifo'n rhydd. Mae'n cynnwys hefyd ffosydd sy'n sych am gyfnod a ffosydd cudd.

Peidiwch â:

- i) gwasgaru gwrrtaith nitrogen artiffisial o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb;
- ii) gwasgaru gwrrtaith organig o fewn 6 metr i ddŵr wyneb, os ydych chi'n defnyddio offer gwasgaru manwl fel system chwistrellu, 'trailing shoe' neu far diferion;
- iii) gwasgaru gwrrtaith organig o fewn 10 metr i ddŵr wyneb;
- iv) gwasgaru gwrrtaith organig o fewn 50 metr i dwll turio, pistyll neu ffynnon;
- v) defnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb oni bai bod CNC wedi rhoi caniatâd i chi wneud hynny er mwyn rheoli rhywogaethau estron goresgynnol;
- vi) rhoi porthiant atodol o fewn 10 metr i ddŵr wyneb.

Cewch wasgaru tail da byw (heblaw tail dofednod a slyri) o fewn 10 metr i ddŵr wyneb cyn belled â bod y tir yn cael ei reoli er lles adar rhydio sy'n magu, neu fel glaswelltir lled-naturiol blodeuog a'i fod wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu'n dod o dan ymrwymiad amaeth-amgylcheddol a'ch bod wedi cael caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Lywodraeth Cymru, fel sy'n briodol. Cewch wasgaru tail da byw os byddwch yn ei wasgaru rhwng 1 Mehefin a 31 Hydref yn gynwysedig. Ni chewch wasgaru tail da byw yn uniongyrchol ar ddŵr wyneb na gwasgaru mwy na 12.5 tunnell yr hectar y flwyddyn.

Mae "gwrrtaith organig" yn golygu unrhyw wrtaith nitrogen neu ffosffad sy'n dod o anifail, planhigyn neu bobl, gan gynnwys tail da byw.

Mae 'cynhyrchion amddiffyn planhigion' yn cael eu diffinio yn SMR 10.

Ychydig iawn o gynhyrchion amddiffyn planhigion sydd wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio mewn dŵr neu gerllaw, ac mae'n rhaid i chi hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru a gofyn am eu caniatâd cyn defnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion yn y sefyllfaoedd hyn.

1.1	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae gwrrtaith nitrogen artiffisial wedi'i wasgaru o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig	Parhaol
1.2	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Mae gwrrtaith organig wedi'i wasgaru o fewn 10 metr i ddŵr wyneb (6m, lle bo offer gwasgaru manwl, hy system chwistrellu, 'trailing shoe' neu far diferion yn cael eu defnyddio)</p> <p>Mae gwrrtaith organig wedi'i wasgaru o fewn 10 metr i ddŵr wyneb ar dir sy'n dod o dan yr eithriad uchod ar gyfer tir sy'n cael ei reoli er lles adar rhydio, ond wedi'i wasgaru mewn ffordd sy'n mynd yn groes i o leiaf un o'r cyfyngiadau.</p>	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig	Parhaol
1.3	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Mae gwrrtaith organig wedi'i wasgaru o fewn 50 metr i bistyll, ffynnon neu dwll turio.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig	Parhaol
	Mae porthiant atodol wedi'i roi o fewn 10 metr i ddŵr wyneb.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	<p>Canolig: Y porthi'n achosi difrod allai achosi llygredd</p> <p>Uchel: Y porthi'n achosi llygredd a/neu'n erydu glennydd</p>	<p>Modd ei gywiro neu Barhaol</p>
	Mae cynhyrchion amddiffyn planhigion wedi'u defnyddio o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb heb ganiatâd.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig	Parhaol

GAEC 2: Dŵr – Defnyddio Dŵr i Ddyfrhau'r Tir

Amcan y gofynion hyn yw rheoli'r modd y defnyddir dŵr, trwy ddefnyddio trwyddedau tynnu dŵr i reoli faint o ddŵr a dynnir at ddibenion dyfrhau. Bydd rhaid i chi gael trwydded tynnu dŵr gan Cyfoeth Naturiol Cymru os ydych chi'n codi mwy na 20m³ o ddŵr y dydd o ddŵr ar y tir (fel afon neu nant) neu ddŵr tanddaear (fel ffynnon neu dwll turio) at ddibenion dyfrhau.

Ni fyddwch yn tynnu dŵr at ddibenion dyfrhau heb drwydded os oes angen trwydded o'r fath.

Os oes gennych drwydded tynnu dŵr ar gyfer dyfrhau, rhaid cadw at amodau'r drwydded honno.

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
2.1	Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau'r drwydded tynnu dŵr neu nid yw wedi cadw at y cyfarwyddyd tynnu dŵr	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel lawn: am beidio â chadw cofnod o faint o ddŵr sydd wedi'i dynnu o dan y drwydded. Isel: yn cyfateb i gategori 3 neu 4 Cyfoeth Naturiol Cymru. Canolig: yn cyfateb i gategori 2 Cyfoeth Naturiol Cymru. Uchel: yn cyfateb i gategori 1 Cyfoeth Naturiol Cymru.	Modd ei gywiro neu Barhaol

Os nad oes gennych drwydded tynnu dŵr at ddibenion dyfrhau. Rhaid ichi: gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted ag y medrwch os ydych chi'n dechrau codi mwy na 20m ³ o ddŵr bob dydd at ddibenion dyfrhau neu'n newid trwydded tynnu dŵr i ganiatáu dyfrhau.				
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
2.2	Mae'r ffermwr wedi codi mwy nag ugain metr ciwbig o ddŵr bob dydd o ffynhonnell cyflenwad at ddibenion dyfrhau heb drwydded tynnu dŵr briodol na chysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am gael newid ei drwydded bresennol er mwyn cael dyfrhau.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel lawn: yn cyfateb i gategori 3 neu 4 Cyfoeth Naturiol Cymru Canolig: yn cyfateb i gategori 2 Cyfoeth Naturiol Cymru. Uchel: yn cyfateb i gategori 1 Cyfoeth Naturiol Cymru.	Parhaol

GAEC 3: Dŵr - Dŵr Daear

Amcan y gofynion hyn yw diogelu dŵr daear trwy reoli'r ffordd y mae deunydd peryglus neu niweidiol yn cael ei arllwys neu ei ollwng.				
<p>At bwrpas trawsgydymffurfio, mae 'dŵr daear' yn golygu'r dŵr sydd o dan wyneb y ddaear yn y rhan honno sydd o dan y lefel trwythiad ac sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â'r tir neu'r is-bridd.</p> <p>Yn y cyd-destun hwn, mae 'trwydded' yn golygu trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010.</p> <p>Cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yw adnabod sylweddau peryglus, gan ddilyn argymhellion y Grŵp Cynghori Cyd-Asiantaethol ar y Gyfarwydddeb Dŵr Daear (JAGDAG). Gan fod modd i'r rhestr gael ei diweddarau ar unrhyw adeg, rydym yn eich cynghori i edrych ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru i weld y rhestr ddiweddaraf o sylweddau peryglus sy'n berthnasol. Mae rhai eithriadau i'r gofyniad i gael trwydded, yn eu plith: amgylchiadau damweiniol ac eithriadol, er enghraifft llygredd yn sgil tywydd eithafol na ellid bod wedi'i ragweld; achosion o arllwys neu ollwng lefel isel o lygryddion, er enghraifft achosion o arllwys neu ollwng deunydd baddonau traed pobl a baddonau traed anifeiliaid.</p>				
3.1	Rhaid ichi gael trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn achosi, caniatáu'n fwriadol neu fynd ati eich hun i arllwys neu ollwng unrhyw sylweddau peryglus (er enghraifft dip defaid, plaladdwyr, toddyddion, olew mwynol a disel).			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r ffermwr wedi cael trwydded oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru cyn achosi, caniatáu'n fwriadol neu fynd ati ei hun i arllwys neu ollwng unrhyw sylwedd(au) peryglus.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig: yn ymwneud fel arfer â chael gwared ar olchion plaladdwyr heb ganiatâd Uchel: yn ymwneud fel arfer â chael gwared ar ddip defaid heb ganiatâd	Modd ei gywiro neu Barhaol

3.2	Rhaid ichi gael trwydded oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru cyn achosi, caniatáu'n fwriadol neu fynd ati eich hun i arllwys neu ollwng unrhyw lygryddion nad ydynt yn beryglus (er enghraifft carthion, elifion masnach, bioladdwyr penodol).								
	<table border="1"> <thead> <tr> <th data-bbox="248 300 1151 339">Y Tramgwydd</th> <th data-bbox="1151 300 1415 339">Pa mor fawr</th> <th data-bbox="1415 300 1789 339">Difrifoldeb</th> <th data-bbox="1789 300 2049 339">Pa mor barhaol</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td data-bbox="248 339 1151 1294">Nid yw'r ffermwr wedi cael trwydded oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru cyn achosi, caniatáu'n fwriadol neu fynd ati ei hun i arllwys neu ollwng unrhyw lygrydd(ion) nad yw/ydynt yn beryglus.</td> <td data-bbox="1151 339 1415 1294">Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm</td> <td data-bbox="1415 339 1789 1294">Isel: fel arfer, mewn Ardal lle ceir Perygl Bach i Ddŵr Daear. Isel hefyd mewn Ardal lle mae Perygl Canolig i Ddŵr Daear, oni bai bod y dŵr daear yn agos i'r wyneb a bod llawer o sylwedd yn cael ei ollwng/arllwys neu ei fod yn cael ei ollwng/arllwys yn aml. Canolig: fel arfer, mewn Ardal lle ceir Perygl Mawr i'r Dŵr Daear ac y defnyddir synwryddion, bod y dŵr daear yn agos i'r wyneb a bod llawer o sylwedd yn cael ei ollwng/arllwys neu ei fod yn cael ei ollwng/arllwys yn aml.</td> <td data-bbox="1789 339 2049 1294">Modd ei gywiro neu Barhaol</td> </tr> </tbody> </table>	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol	Nid yw'r ffermwr wedi cael trwydded oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru cyn achosi, caniatáu'n fwriadol neu fynd ati ei hun i arllwys neu ollwng unrhyw lygrydd(ion) nad yw/ydynt yn beryglus.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: fel arfer, mewn Ardal lle ceir Perygl Bach i Ddŵr Daear. Isel hefyd mewn Ardal lle mae Perygl Canolig i Ddŵr Daear, oni bai bod y dŵr daear yn agos i'r wyneb a bod llawer o sylwedd yn cael ei ollwng/arllwys neu ei fod yn cael ei ollwng/arllwys yn aml. Canolig: fel arfer, mewn Ardal lle ceir Perygl Mawr i'r Dŵr Daear ac y defnyddir synwryddion, bod y dŵr daear yn agos i'r wyneb a bod llawer o sylwedd yn cael ei ollwng/arllwys neu ei fod yn cael ei ollwng/arllwys yn aml.	Modd ei gywiro neu Barhaol
Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol						
Nid yw'r ffermwr wedi cael trwydded oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru cyn achosi, caniatáu'n fwriadol neu fynd ati ei hun i arllwys neu ollwng unrhyw lygrydd(ion) nad yw/ydynt yn beryglus.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: fel arfer, mewn Ardal lle ceir Perygl Bach i Ddŵr Daear. Isel hefyd mewn Ardal lle mae Perygl Canolig i Ddŵr Daear, oni bai bod y dŵr daear yn agos i'r wyneb a bod llawer o sylwedd yn cael ei ollwng/arllwys neu ei fod yn cael ei ollwng/arllwys yn aml. Canolig: fel arfer, mewn Ardal lle ceir Perygl Mawr i'r Dŵr Daear ac y defnyddir synwryddion, bod y dŵr daear yn agos i'r wyneb a bod llawer o sylwedd yn cael ei ollwng/arllwys neu ei fod yn cael ei ollwng/arllwys yn aml.	Modd ei gywiro neu Barhaol						

3.3	Rhaid ichi gydymffurfio ag amodau unrhyw ganiatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer diogelu dŵr daear.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau trwydded amgylcheddol (ar gyfer gweithgaredd dŵr daear) a roddwyd er mwyn diogelu dŵr daear.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: yn cyfateb i gategori 3 neu 4 Cyfoeth Naturiol Cymru – effaith bach neu ddim o gwbl Canolig: yn cyfateb i gategori 2 Cyfoeth Naturiol Cymru – effaith sylweddol Uchel: yn cyfateb i gategori 1 Cyfoeth Naturiol Cymru – effaith difrifol Mae'r categorïau difrifoldeb yn cyfateb i'r rheini yn y Cynllun Dosbarthu Cydymffurfiaeth (CCS).	Modd ei gywiro neu Barhaol

3.4	Rhaid ichi gydymffurfio ag amodau hysbysiad gweithgaredd dŵr daear neu unrhyw hysbysiad gorfodi arall gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer diogelu dŵr daear.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
	<p>Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau hysbysiad gweithgaredd dŵr daear neu hysbysiad gorfodi arall a roddwyd i ddiogelu dŵr daear.</p> <p>Os na chydymffurfir â hysbysiad a gyhoeddir mewn perthynas â gweithgaredd dŵr daear, fel arfer fe'i hystyrir yn rhywbeth bwriadol, ond gallai ddibynnu ar y sefyllfa; ee ymdrechwyd i gydymffurfio ond heb gadw at lythyren yr hysbysiad.</p>	<p>Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm</p>	<p>Canolig: Mewn Ardaloedd lle ceir Perygl Bach i Ddŵr Daear, pan na ellir dweud bod y dŵr daear wedi'i lygru h.y. CICS Cat 4 – dim effaith Uchel: lle gellir dweud bod y dŵr daear wedi'i lygru, CICS Cat 1, Cat 2 neu Cat 3 – effaith bach, sylweddol neu ddifrifol neu mewn Ardaloedd lle mae Perygl Mawr neu Ganolig i Ddŵr Daear, lle na ellir dweud bod y dŵr daear wedi'i lygru.</p> <p>Mae'r categorïau difrifoldeb yn cyfateb i'r rheini yng Nghynllun Dosbarthu Digwyddiadau Cyffredin (CICS) Cyfoeth Naturiol Cymru.</p>	<p>Parhaol</p>

GAEC 4: Pridd a Stoc Garbon – sicrhau lefel ofynnol o orchudd ar y pridd

Rhaid diogelu'r pridd trwy sicrhau bod yr holl dir yn cael ei orchuddio gan gnydau, sofl, gweddillion neu lystyfiant o fath arall ar bob adeg, ac eithrio lle byddai creu'r gorchudd yn gwrthdaro â gofynion GAEC 5.

Os ydych yn cynaeafu tir â chombein, peiriant cynaeafu porthiant neu beiriant lladd gwair, rhaid bodloni un o'r amodau canlynol bob amser, rhwng y diwrnod ar ôl y cynhaeaf ac 1 Mawrth:

cadw sofl y cnwd yn y pridd;

paratoi gwely had o fewn 14 diwrnod ar gyfer cnwd a hau'r cnwd o fewn 10 niwrnod ar ôl diwrnod gorffen paratoi'r gwely had.

Sylwer os byddwch, trwy hau o fewn y cyfnod 10 niwrnod, yn mynd yn groes i ofynion GAEC 5, dylech hau'r cnwd neu'r cnwd gorchudd dros dro mor fuan â phosibl ar ôl i'r tir llawn dŵr sychu.

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
4	Methu â chynnal isafswm o orchudd i'r pridd (cnydau, sofl, gweddillion neu lystyfiant arall).	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: Llai na 2% neu 2 ha o'r caeau perthnasol Canolig: Mwy na 2% neu 2ha o'r caeau perthnasol Uchel: Pan fo'r holl gaeau ar y daliad yn methu ag ateb y gofynion.	Modd ei gywiro neu Barhaol

GAEC 5: Pridd a Stoc Garbon – Cyfyngu ar waith trin tir i ddiogelu pridd rhag erydiad

Yn y rheol hon:

- 1) mae 'gwaith mecanyddol ar gae' yn cynnwys cynaeafu, trin tir a gwasgaru, gan gynnwys gwasgaru gwrtaitaith a thail, ac unrhyw waith â pheiriant;
- 2) defnyddir diffiniadau synnwyr cyffredin o 'ddwrlawn' a 'llawn dŵr'.

Peidiwch â gweithio ar y tir â pheiriannau os yw'r pridd yn llawn dŵr, oni bai bod rhaid am y rhesymau canlynol:

- a) lles anifeiliaid neu i ddiogelu pobl;
- b) gwella draeniad y pridd;
- c) rhoi gypswm mewn pridd sydd wedi'i lygru gan ddŵr heli;
- d) cadw at ddyddiad contract i gynaeafu cnwd ar bridd llawn dŵr;
- e) bod tir heb fod yn llawn dŵr o fewn 20 metr i'r fynedfa a bod yn rhaid ichi fynd i'r tir hwnnw.
- f) bod rhaid cynaeafu cnwd er mwyn cadw at ddyddiad contract, neu os byddai ansawdd y cnwd yn dirywio pe na bai'n cael ei gynaeafu;
- g) bod y pridd yn rhan o lwybr at ardal o bridd heb fod yn llawn dŵr.

Dan amgylchiadau penodol gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd ysgrifenedig i ganiatáu rhai mathau penodol o waith mecanyddol ar gae.

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
5.1	Mae gwaith mecanyddol wedi'i wneud ar bridd llawn dŵr ac mae cerbydau wedi'u gyrru drosto.	Effaith ar y fferm yn unig	Isel: gwaith neu weithgaredd o fewn un cae. Canolig: Tystiolaeth bod mwy nag un gweithgaredd o fewn un cae. Uchel: sawl gweithgaredd yn effeithio ar sawl cae neu'ch bod yn dal i gynaeafu neu drin pridd llawn dŵr	Modd ei gywiro neu Barhaol

Dylid osgoi gorbori gymaint â phosib.			
Yn y rheolau hyn, ni ddylid caniatáu i unrhyw beth stablad (sathru) na rhigoli'r tir i'r graddau bod pridd yn cael ei olchi i lawr llethrau neu oddi ar y cae, gan gynnwys i gyrsiau dŵr a ffyrdd ac i osgoi erydiad ar dir sy'n cael ei gynaeafu'n hwyr neu dir lle mae'r porthiant neu'r cnwd gwreiddiau wedi'i bori at y bôn ac nad yw'n bosib hau cnwd gorchudd, rhaid rhoi mesurau priodol yn eu lle i ddiogelu'r pridd rhag ei erydu, naill ai trwy godi ffens waddodion neu ddefnyddio aradr gynion.			
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb
5.2	Arwyddion bod y pridd yn cael ei olchi i lawr llethrau neu oddi ar y cae i gyrsiau dŵr.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig : Un cae Uchel : Nifer o gaeau
			Pa mor barhaol Modd ei gywiro neu Barhaol

O beidio â'i reoli'n ofalus, gall gadael tir moel dros y gaeaf greu risg mawr a all arwain at ddŵr ffo ac erydu pridd.

Yng Nghymru, dim ond am y cyfnod rhwng y diwrnod ar ôl y cynhaeaf ac 1 Mawrth y caniateir ichi adael tir wedi'i aredig yn arw, a hynny o dan yr amodau canlynol:

1. Ni ystyrir bod risg mawr o erydiad ar y safle
2. Bod y wyneb yn cael ei adael yn arw i annog glaw i dreiddio trwyddo ac
3. Nid yw pridd yn cael ei olchi i lawr llethrau neu oddi ar y cae ac;
4. Eich bod wedi asesu'r risg, wedi cwblhau a chyflwyno hysbysiad i Taliadau Gwledig Cymru ar neu cyn y diwrnod aredig y tir i adael wyneb garw.

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
5.3	Heb gynnal asesiad manwl o risg gadael wyneb garw ar y pridd a/na rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ar neu cyn diwrnod trin y tir i adael wyneb garw arno.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: Lle nad oes asesiad risg wedi'i gynnal a/na'i gyflwyno ac nad oes tystiolaeth o erydiad pridd Canolig : Lle bo asesiad risg wedi'i gynnal ond gweld bod tystiolaeth o erydiad pridd Uchel: Lle nad oes asesiad risg wedi'i gynnal a/neu bod tystiolaeth o erydiad pridd.	Parhaol

GAEC 6: Pridd a Deunydd Organig – Eu Diogelu

Llosgi gweddillion cnydau.

Yn y rheolau hyn, mae 'gweddillion cnydau' yn golygu gwellt neu sofl neu weddillion unrhyw gnwd arall sy'n dal ar y tir ar ôl cynaeafu'r cnwd hwnnw.

Mae gwaharddiad ar losgi gweddillion y cnydau canlynol:

- Gwellt yd;
- Sofl yd;
- Gweddillion rêp had olew, ffa maes wedi'u cynaeafu'n sych a phys wedi'u cynaeafu'n sych.

Mae cyfyngiadau ar losgi gweddillion had llin.

Peidiwch â llosgi gweddillion y cnydau hyn oni bai'ch bod yn eu llosgi at bwrpas:

- Addysg ac ymchwil, gyda chaniatâd Llywodraeth Cymru;
- Rheoli clefyd neu ddifa pla planhigion a bod rhybudd wedi'i roi o dan Orchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993; neu gael gwared ar olion tas wellt neu fêls wedi'u chwalu, gyda chaniatâd Llywodraeth Cymru.

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
6.1	Llosgi sy'n groes i'r rheolau hyn (heblaw trwy ddamwain neu oherwydd tanau troseddol)	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: Tystiolaeth o losgi ar dir 1ha o faint neu lai. Canolig: Tystiolaeth o losgi ar dir dros 1ha o faint, ond heb fod yn fwy na 5ha. Uchel: Tystiolaeth o losgi ar dir dros 5ha o faint.	Modd ei gywiro neu Barhaol

Llosgi grug a phorfa

Mae'r rheolau hyn yn atgyfnerthu Rheoliadau Llosgi Grug a Phorfa (Cymru) ac ati 2008 (fel y'u diwygiwyd). Os ydych chi'n cydymffurfio â'r Rheoliadau hynny, rydych eisoed yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

Peidiwch â llosgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin na vaccinium yn groes i'r Rheoliadau.

I llosgi o fewn SoDdGA, bydd angen caniatâd ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru fel arfer.

Peidiwch â llosgi y tu allan i'r dyddiadau canlynol:

- 1 Tachwedd – 15 Mawrth ym mhob ardal
- 1 Hydref – 31 Mawrth ar dir uchel

Prif ofynion

- Cwblhewch eich holl waith llosgi o fewn y cyfnod a ganiateir
- Cydymffurfiwch â'r gofynion a'r cyfyngiadau cyfreithiol cenedlaethol yn ogystal â'r rhai lleol
- Gofalwch fod cynllun rheoli'r llosgi wedi'i baratoi a bod y llosgi'n cael ei wneud yn unol â'r cynllun hwnnw
- Gofalwch fod digon o bobl ac offer ar gael i reoli a ffrwyno'r tân trwy'r amser
- Cyn dechrau llosgi, ac yn ystod y cyfnod llosgi, gofalwch fod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i ddiogelu pobl rhag niwed ac eiddo cyffiniol rhag difrod
- Peidiwch â chreu peryglon i ddefnyddwyr ffyrdd a'r cyhoedd

Peidiwch â llosgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin na vaccinium (e.e. llus, llus coch, mwyr y Berwyn) y tu allan i'r tymor llosgi.

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
6.2	Rydych wedi llosgi tir yn y cyfnod gwaharddedig.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: Tystiolaeth o losgi ar dir 1ha o faint neu lai. Canolig: Tystiolaeth o losgi ar dir dros 1ha o faint, ond heb fod yn fwy na 5ha. Uchel: Tystiolaeth o losgi ar dir dros 5ha o faint.	Modd ei gywiro neu Barhaol

Rhaid gofalu bod cynllun rheoli llosgi wedi'i baratoi a bod y llosgi'n digwydd yn unol â'r cynllun hwnnw.				
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
6.3	Llosgi heb Gynllun Rheoli neu heb gydymffurfio â'r Cynllun Rheoli.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: Tystiolaeth o losgi ar dir 1ha o faint neu lai. Canolig: Tystiolaeth o losgi ar dir dros 1ha o faint, ond heb fod yn fwy na 5ha. Uchel: Tystiolaeth o losgi ar dir dros 5ha o faint.	Modd ei gywiro neu Barhaol

Asesu Effeithiau Amgylcheddol

Tir heb ei drin ac ardaloedd lled-naturiol

Mae'r rheol hon yn atgyfnerthu Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA) (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007, sy'n rheoli'r amodau ar gyfer troi tir heb ei drin neu ardaloedd lled-naturiol yn dir ffermio dwys ac ailstrwythuro daliadau tir gwledig.

Yn y rheol hon:

- Mae 'prosiect' yn golygu gwaith adeiladu neu waith ar gynlluniau neu osodiadau eraill neu ymyriadau eraill yn yr amgylchedd a'r tirlun naturiol, gan olygu defnyddio tir heb ei drin neu ardaloedd lled-naturiol at bwrpas ffermio dwys
- Mae 'prosiect ar dir heb ei drin' yn golygu prosiect i gynyddu cynhyrchiant amaethyddol tir sydd heb ei drin neu ardal led-naturiol ac yn cynnwys prosiectau i gynyddu cynhyrchiant amaethyddol y tir hwnnw at lefel sy'n is na'r norm.

Er enghraifft: Gallai hynny gynnwys aredig a gwaith trin arall, gwasgaru plaladdwyr, calch a gwrtaith (gan gynnwys tail buarth a gwymon calchog) ar dir heb ei drin neu ardal led-naturiol, clirio prysgwydd, draenio tir a llenwi ffosydd a phyllau.

- Mae 'prosiect ailstrwythuro' yn golygu prosiect ar gyfer ailstrwythuro daliadau tir gwledig.

Gallai hynny gynnwys prosiectau sy'n rhoi strwythur ffisegol gwahanol iawn i un neu fwy o ddaliadau amaethyddol e.e. symud llawer o bridd neu greigiau neu ychwanegu neu dynnu darnau hir o ffiniau caeau.

Rhaid ichi beidio â:

- Dechrau neu gynnal prosiect ar dir heb ei drin neu brosiect ailstrwythuro heb ganiatâd Llywodraeth Cymru;
- Torri rhybudd atal sydd wedi'i roi ichi o dan y Rheoliadau; neu
- Methu cydymffurfio â gorchymyn adfer a roddwyd ichi o dan y Rheoliadau.

Coedwigaeth

Mae'r rheolau hyn yn atgyfnerthu Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999. Maen nhw'n ymdrin â phrosiectau coedwigo, datgoedwigo, ffyrdd trwy goedwigoedd a chwareli mewn coedwigoedd.

Rhaid ichi beidio â:

- Dechrau neu gynnal prosiect heb ganiatâd Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Cynnal gwaith nad yw'n cydymffurfio ag amodau caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Parhau â gwaith ar ôl cael hysbysiad gorfodi sy'n eich gorchymyn i roi'r gorau i'r gwaith; neu
- Peidio â chynnal gwaith y gofynnir amdano gan hysbysiad gorfodi.

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
6.4	Mae'r ffermwr wedi cynnal prosiect ar dir heb ei drin neu brosiect ailstrwythuro heb gael penderfyniad neu ganiatâd sgrino a/neu o fod wedi cael y naill neu'r llall, nid yw wedi cadw at y gofynion.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: Hyd at 1ha o dir lle bo'r ffermwr wedi cynnal prosiect. Canolig: Rhwng 1 a 5 ha o dir lle bo'r ffermwr wedi cynnal prosiect. Uchel: Mwy na 5ha o dir lle bo'r ffermwr wedi cynnal prosiect.	Modd ei gywiro neu Barhaol
6.5	Mae'r ffermwr wedi cynnal gwaith coedwigo neu ddatgoedwigo heb gael penderfyniad neu ganiatâd sgrinio ar gyfer y prosiect a/ neu o fod wedi cael y naill neu'r llall, nid yw wedi cadw at y gofynion.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: Hyd at 1ha o dir lle bo'r ffermwr wedi cynnal prosiect. Canolig: Rhwng 1 a 5 ha o dir lle bo'r ffermwr wedi cynnal prosiect. Uchel: Mwy na 5ha o dir lle bo'r ffermwr wedi cynnal prosiect.	Modd ei gywiro neu Barhaol

GAEC 7: Cadw Nodweddion y Tirlun

<p>Yn y safon hwn, mae nodweddion y tirlun yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae nodweddion y tirlun yn cynnwys perthi (gwrychoedd), waliau cerrig, cloddiau cerrig, cloddiau pridd, ffensys llechi, pyllau dŵr, ffosydd, ymylon caeau a henebion. Mae rhai'n cael eu defnyddio fel ffiniau caeau traddodiadol, ond nid bob tro. Henebion Rhestredig Coed (sy'n cael eu diogelu gan Orchymyn Amddiffyn Coed) Mae 'perthi (gwrychoedd)' yn cynnwys pob perth hyd at 10 metr o led. Mae 'waliau cerrig' yn golygu waliau cerrig traddodiadol ac yn cynnwys cloddiau ag iddynt ddau wyneb o gerrig, fel 'Walydd Penclawdd' neu 'Berthi Sir Benfro'. Mae 'clawdd cerrig' yn golygu clawdd pridd gydag un ochr iddo wedi'i adeiladu o gerrig. Mae 'pyllau dŵr' yn golygu pwll naturiol neu un sydd wedi'i greu o dan gynllun Datblygu Gwledig, hyd at 0.1 hectar o faint. 				
	Disgrifiad o Dramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
7.1	Nid yw'r ffermwr wedi cadw pyllau dŵr ar y daliad (e.e. eu draenio neu lenwi).	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig: 1 pwll Uchel: Mwy nag 1 pwll	Modd ei gywiro neu Barhaol
Rhaid cadw pob ffos ar y daliad				
	Disgrifiad o Dramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
7.2	Mae'r ffermwr wedi llenwi ffos ar y daliad. Pwysig: I osod cwlferd mewn ffos neu gwrs dŵr, rhaid cael caniatâd draenio tir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (o dan adran 23 Deddf Draenio Tir 1991)	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: bod yr amod hwn wedi'i dorri mewn un cae Canolig: bod yr amod hwn wedi'i dorri mewn 2- 6 chae Uchel: bod yr amod hwn wedi'i dorri mewn mwy na 6 chae	Modd ei gywiro neu Barhaol

Cadwch nodweddion y tirlun fel waliau cerrig, cloddiau cerrig, perthi (gwrychoedd), cloddiau a ffensys llechi. Rhaid peidio â'u dymchwel na'u difetha ar dir sydd o dan y safonau Trawsgydymffurfio heb ganiatâd yr awdurdod perthnasol, fel yr awdurdod lleol neu Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhaid ichi beidio â gwneud y canlynol:

- Cael gwared ag unrhyw un o nodweddion y tirlun sydd ar eich tir.
- Cael gwared â nodwedd o gerrig, neu garreg o wal gerrig ar eich tir, oni bai bod angen lledu bwlch sydd eisoes yn bodoli mewn wal er mwyn i beiriannau neu anifeiliaid allu mynd trwyddo. Ni ddylid dymchwel mwy na'r hyn sy'n angenrheidiol at y diben hwn, ac ni ddylai'r bwlch fod yn fwy na 10 metr. Ar ôl lledu'r bwlch, rhaid i ochrau'r nodwedd gael wyneb fertigol.

Mae gwaharddiad ar dorri a thocio coed a pherthi yn ystod tymor nythu a magu cywion adar.

Ni chewch dorri na thocio coed a pherthi rhwng 1 Mawrth a 31 Awst, oni bai:

bod y berth neu'r goeden yn ymestyn dros briffordd, heol, trac neu lwybr y mae'r cyhoedd yn mynd ar ei hyd a bod angen cynnal y waith gan fod y tyfiant sy'n ymestyn:

- yn rhwystro cerbydau a cherddwyr;
- yn rhwystro gyrwyr rhag gweld neu'n amharu ar oleuni lamp cyhoeddus; neu
- yn beryglus i bobl sy'n marchogaeth ceffylau.
- bod angen torri neu docio'r berth neu goeden am ei bod wedi marw, am fod haint arni, am ei bod wedi cael niwed neu am fod ei gwreiddiau'n anniogel, a bod perygl iddi felly gwympto i'r briffordd, yr heol neu'r llwybr.
- bod angen torri neu docio i gynnal ffos.
- bod y goeden mewn perllan.

Rhaid ichi beidio ag amharu ar unrhyw adar sy'n nythu yn y berth neu'r goeden.

Sylwer. Gall cwmni sy'n gyfrifol am gynnal llinell drydan neu ffôn uwchben docio coeden neu berth am resymau diogelwch.

- Ar dir â'r lle bo'n arferol plannu cnwd â'r y gaeaf cyn 31 Awst, cewch dorri'r berth neu'r goeden berthnasol o 1 Awst ymlaen cyn belled nad ydych yn tarfu ar adar ar eu nyth. Cyn torri'r berth, rhaid chwilio'r berth yn ofalus i sicrhau nad oes adar yn nythu neu'n magu ynddi.
- Pan fo hysbysiad gorfodi wedi'i roi gan Awdurdod Lleol o dan Adran 154 o Ddeddf Priffyrdd 1980 er mwyn sicrhau nad yw cerbydau na cherddwyr yn cael eu rhwystro na'u peryglu, gellir tocio, torri neu blygu'r berth neu ganghennau'r coed yn y manau a ddisgrifir.
- Caniateir gwaith i adfer perthi, er enghraifft pygu neu fondocio yn ystod mis Mawrth ar yr amod nad yw'n amharu ar adar sy'n nythu.

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
7.3	Cael gwared â nodwedd y tirlun.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: yn effeithio ar hyd at 10m o'r ffin Canolig: yn effeithio ar 10m-50m o'r ffin Uchel: yn effeithio ar fwy na 50m o'r ffin	Modd ei gywiro neu Barhaol
7.4	Torri'r rheoliadau perthi (gwrychoedd) (e.e. heb gael caniatâd i ddymchwel perth).	Effaith ar y fferm yn unig	Canolig: Torri'r rheoliad ar un darn o berth mewn un cae. Uchel: Torri'r rheoliad ar fwy nag un darn mewn un cae neu sawl darn mewn sawl cae.	Parhaol
7.5	Torri neu docio perthi/gwrychoedd neu goed yn ystod y cyfnod gwaharddedig heb fod eithriad i ganiatáu hynny (rhwng 1 Mawrth a 31 Awst)	Effaith ar y fferm yn unig	Isel: Torri un darn heb ganiatâd mewn un cae. Canolig : Torri mwy nag un darn heb ganiatâd mewn un cae. Uchel: Torri sawl darn heb ganiatâd mewn sawl cae neu un cae.	Modd ei gywiro neu Barhaol
Rhaid i chi beidio ag aredig na thrin y tir o fewn 1 metr i berth, clawdd pridd neu gwrs dŵr.				
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
7.6	Mae'r ffermwr wedi aredig neu drin y tir o fewn 1 metr i berth, clawdd pridd neu ddŵr wyneb mewn cae(au).	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: bod yr amod hwn wedi'i dorri mewn un cae Canolig: bod yr amod hwn wedi'i dorri mewn rhwng 2 a 6 cae Uchel: bod yr amod hwn wedi'i dorri mewn mwy na 6 chae	Modd ei gywiro neu Barhaol

Mae'r rheol hon yn atgyfnerthu'r rheolau sy'n bod eisoes ynghylch henebion o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (fel y'i diwygiwyd).

Eich cyfrifoldeb chi fel hawlydd yw gwybod ble mae'r holl henebion rhestredig ar eich fferm a'r nifer ohonynt. Dylech fod wedi cael gwybod am yr henebion pan gawsant eu cofrestru neu pan feddiannoch chi'r tir, ond os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â CADW.

Mae'r rheolau fel a ganlyn.

- Oni bai bod CADW wedi rhoi caniatâd i chi, peidiwch â chynnal y gweithgareddau canlynol:
 - i) unrhyw weithgaredd sy'n arwain at ddymchwel neu ddinistrio a/neu ddifrodi heneb;
 - ii) unrhyw weithgaredd i symud neu drwsio heneb restredig (neu ran ohoni);
 - iii) unrhyw weithgaredd sy'n newid neu'n ychwanegu at heneb restredig (neu ran ohoni); neu
 - iv) unrhyw waith gorlifo neu dipio ar y tir lle ceir heneb restredig ynddo, arno, neu oddi tano.

Os ydych wedi cael caniatâd i gynnal gweithgaredd, rhaid cydymffurfio ag amodau'r caniatâd hwnnw. Ni chewch eich cosbi am dorri'r rheolau uchod os gallwch brofi:

- Yn achos (i), y cymeroch bob cam rhesymol a dangos pob gofal i rwystro difrod i'r heneb;
- Yn achos (i) a (iv), nad oeddech yn gwybod neu nad oedd gennych reswm i gredu bod yr heneb mewn ardal y byddai'r gwaith wedi effeithio arni, neu fod yr heneb wedi'i rhestru;

Ar gyfer yr holl reolau uchod, bod angen y gwaith ar fyrder er lles iechyd a diogelwch a'ch bod wedi rhoi rhybudd bod angen cynnal y gwaith cyn gynted ag yr oedd hynny'n rhesymol.

	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
7.7	Mae heneb restredig wedi'i difrodi, ei dymchwel neu ei dinistrio	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: Difrod wedi'i achosi ond nid yw wedi effeithio ar integriti'r heneb ac mae modd ei gywiro Canolig: Difrod parhaol wedi'i achosi ond nid yw wedi effeithio ar integriti'r heneb Uchel: Mae'r difrod wedi effeithio ar integriti'r heneb	Modd ei gywiro neu Barhaol
7.8	Mae ffermwr wedi cynnal gwaith ar heneb heb y caniatâd angenrheidiol, neu wedi methu â chydymffurfio ag amodau sydd wedi'u hatodi i unrhyw awdurdodiad. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol: i) unrhyw waith i symud neu drwsio heneb ii) unrhyw waith i wneud newidiadau neu ychwanegiadau i heneb iii) unrhyw waith sy'n ymwneud â llifogydd neu dipio ar dir o fewn, ar neu o dan heneb iv) unrhyw waith arall heb ganiatâd	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Isel: dim difrod Canolig: Nid yw'r difrod wedi effeithio ar integriti'r heneb Uchel: Difrod wedi effeithio ar integriti'r heneb	Modd ei gywiro neu Barhaol

Cwmpo coed. Ni chaniateir cwmpo coed heb drwydded, lle bo angen trwydded o'r fath. Ni fyddwch wedi peidio â chydymffurfio â rhybudd ailstocio neu amodau neu gyfarwyddyd arall o dan y Ddeddf Coedwigaeth, oni bai bod gennych reswm cyfreithiol.				
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
7.9	Mae'r ffermwr wedi torri coeden neu goed heb Drwydded Cwmpo Coed, lle bo'i hangen.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig Uchel: rhywogaeth brin neu goedlan hynafol	Modd ei gywiro neu Barhaol
7.10	Nid yw'r ffermwr wedi cadw at amodau Trwydded Gwmpo Coed neu nid yw wedi cadw at orchymyn cwmpo.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Canolig Uchel: rhywogaeth brin neu goedlan hynafol	Modd ei gywiro neu Barhaol
Gorchmynion Cadw Coed. Ni fydd yr ymgeisydd wedi torri unrhyw Orchymyn Cadw Coed (TPO). Peidiwch â thorri, difrodi na difetha coeden sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed, na'i dadwreiddio na'i brigdocio, heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol.				
	Y Tramgwydd	Pa mor fawr	Difrifoldeb	Pa mor barhaol
7.11	Mae'r ffermwr wedi cwmpo neu ddifetha coeden sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed.	Effaith ar y fferm yn unig neu Effaith oddi ar y fferm	Uchel	Parhaol
7.12	Nid yw'r ffermwr wedi plannu coeden yn lle coeden a oedd wedi'i gwarchod fel amod o'r caniatâd i'w chwmpo.	Effaith ar y fferm yn unig	Canolig	Modd ei gywiro
7.13	Nid yw'r ffermwr wedi ailblannu ar ôl torri Gorchymyn.	Effaith ar y fferm yn unig	Uchel	Modd ei gywiro